RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
51/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/06/2023

# Gwerthusiad o Gynllun Alacrity

## 2016–2021

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-892-3

Teitl: Gwerthusiad o Gynllun Alacrity

Is-deitl: 2016-2021

Awdur(on):

Oliver Allies

Paula Gallagher

Declan Turner

Tony Jones

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O; Gallagher, P; Turner, D; Jones, T; (2022),. *Gwerthusiad o Gynllun Alacrity: 2016-2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 51/2023

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-alacrity-2016-i-2021

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Enw: Ceri Davies

Rheolwr Cysylltiadau y De-ddwyrain

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: kasemployabilityandskillsresearch@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau....................................2
Rhestr ffigurau ....................................2
Geirfa 3
1. Cyflwyniad/Cefndir ....................................4
2. Cyd-destun....................................8
3. Model Cyflawni Alacrity ....................................19
4. Cynnydd, Perfformiad ac Effaith Alacrity....................................35
5. Asesu Gwerth am Arian ....................................51
6. Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion ar gyfer Cyllido yn y Dyfodol...............68
Atodiad 1: Cynlluniau Tebyg ....................................75
Atodiad 2: Holiadur i Raddedigion....................................79
Atodiad 3: Fframwaith y Gwerthusiad ....................................86

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1: Trosolwg o’r cyllid a ymrwymwyd i raglen Alacrity ....17
Tabl 3.1: Strwythur rhaglen Alacrity ....22
Tabl 4.1: Sefyllfa bresennol cyfranogwyr Alacrity....41
Tabl 4.2: Lleoliadau cyfranogwyr Alacrity adeg cofrestru ac ar hyn o bryd ....42
Tabl 5:1: Amcangyfrif a dadansoddi cost-effeithiolrwydd 2016–2021 ....55
Tabl 5.2: Cyfraddau cwblhau 2016–21 ....56
Tabl 5.3: Cwmnïau Alacrity sydd wedi dechrau masnachu 2017–21 ....57
Tabl 5.4: Cost-effeithiolrwydd 2016–2021....58
Tabl 5.5: Prisio cwmnïau Alacrity ....60
Tabl 5.6: Adenillion ar fuddsoddiad gan ddefnyddio costau diwygiedig ....61
Tabl 5.7: Nifer cyflogeion dros amser yng nghwmnïau Alacrity ....64
Tabl 6.1: Cynigion cyllido i’r dyfodol....74

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1: Enghraifft o Theori Newid linol ....12
Ffigur 2.2: Theori Newid....14
Ffigur 3.1: Rhowch sgôr allan o 5 am eich barn ynghylch pa mor llwyddiannus oedd y paru unigolion yn dimau yn gynnar yn y rhaglen ....24
Ffigur 4.1: Ydych chi’n teimlo bod gan eich tîm y sgiliau angenrheidiol (ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen) i ffurfio busnes? ....38
Ffigur 4.2: I ba raddau ydych chi’n teimlo eich bod wedi datblygu’r sgiliau canlynol trwy gymryd rhan yn y rhaglen? ....39
Ffigur 5.1: Dull Gwerth am Arian....51

**Geirfa**

| *Acronym / gair allweddol* | *Diffiniad / term Saesneg* |
|---|---|
| Alacrity C | Alacrity Cyber |
| Alacrity G | Alacrity General |
| BDC | Banc Datblygu Cymru |
| bytholwyrdd | evergreen |
| cyllid sbarduno | seed funding |
| cyllido taprog | tapered funding |
| GVA | gwerth ychwanegol gros |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| KRPC | Kanata Research Park Corporation |
| MS | Microsoft |
| MVP | cynnyrch sylfaenol hyfyw |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Ym mis Medi 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad o gynllun Alacrity. Nod y rhaglen (a lansiwyd yn 2011) yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i gyfranogwyr iddynt fynd ati'n llwyddiannus i sefydlu a rheoli busnes digidol newydd. Mae'r rhaglen yn cynnwys dwy elfen:

- Rhaglen gychwynnol sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth ddwys i gyfranogwyr, wedi'i chynnal gan Sefydliad Alacrity
- Cronfa sbarduno dan reolaeth Wesley Clover ar gyfer creu cwmnïau technoleg newydd wedi'u lleoli yng Nghymru (cwmnïau wedi'u harwain gan raddedigion y rhaglen gymorth gychwynnol).

**Y gwerthusiad**

1.2 Comisiynwyd y gwerthusiad i fod â'r nodau canlynol, sef:

- Adolygu'r modd y cafodd rhaglen Alacrity ei dylunio, ei rheoli a'i gweithredu er mwyn asesu ei haddasrwydd i gyflawni ei nodau a'i hamcanion (gan ystyried y gwerthusiad blaenorol ar gyfer 2011-2015). Bydd hyn yn cynnwys deall effeithiolrwydd y gweithredu, ffactorau llwyddiant a chanlyniadau annisgwyl.
- Asesu effaith y rhaglen, gan roi ystyriaeth benodol i'r canlyniadau uniongyrchol a rhai'r tymor hwy yn ogystal ag ystyried a yw'r rhain wedi'u cyflawni ac a ellir eu priodoli i Alacrity.
- Adolygu'r ymwneud â chwmnïau rhyngwladol, a gwaith a wnaed i gyfrannu at fod yn llysgennad i weithgarwch arloesol yn yr economi ranbarthol.
- Adolygu a yw'r rhaglen yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac os ydyw i ba raddau y mae'n gwneud hynny, gan gynnwys y Cynllun Cyflogadwyedd, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Gwneud argymhellion ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad.

1.3 Mae pwyslais y gwerthusiad ar ran gyntaf y rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan Sefydliad Alacrity (y cyfeirir ato gan Lywodraeth Cymru fel y cyfnod 'bŵt-camp' ond mewn gwirionedd mae'n rhaglen 15 mis o gymorth hyd at ac yn cynnwys darparu cyllid sbarduno i gwmnïau wedi'u corffori). Nodwyd bod angen cynnal y gwerthusiad mewn dau gam.

**Cam cyntaf y gwerthusiad**

1.4 Roedd y **cam cyntaf** wedi cynnwys cynnal asesiad manwl ar werth am arian Alacrity i ganfod a oedd 'rhaglen Alacrity i'w gweld yn llai costus, yn rhesymol yr un fath, neu'n ddrytach na rhaglenni a gynlluniwyd i gyflwyno allbynnau tebyg'.

*Methodoleg*

1.5 Roedd cam cyntaf y gwerthusiad yn cynnwys y tasgau canlynol:

- Cyfweliadau cwmpasu gyda 10 cynrychiolydd sydd wedi ymwneud yn agos â dylunio, gweithredu a rheoli Alacrity. Cynhaliwyd y cyfweliadau un-i-un yn rhithwir (trwy MS Teams).
- Adolygiad desg o ddogfennau amrywiol sy'n gysylltiedig â rhaglen Alacrity gan gynnwys y gwerthusiad blaenorol, cofnodion Bwrdd a phapur allweddol ar gynnydd a pherfformiad a luniwyd gan Sefydliad Alacrity i gynorthwyo'r asesiad.
- Adolygu tystiolaeth am gynlluniau tebyg (pan fo'r rhain wedi'u canfod) i archwilio tebygrwydd a gweld a oes data ar gael a pha mor ddefnyddiol ydynt fel meincnodau wrth farnu perfformiad Alacrity o safbwynt gwerth am arian (gweler Atodiad 1 yr adroddiad hwn).
- Datblygu theori newid i ddangos sut y bwriedir i ymyriad Alacrity weithio, gan fapio'r daith o safbwynt y cyfranogwr hyd at raddio o'r rhaglen a chael cyllid sbarduno. Mae'r theori newid, ynghyd â chwestiynau a geid ym manyleb y tendr, wedi llywio datblygiad y fframwaith gwerthuso ar gyfer cynnal gwerthusiad manwl o'r rhaglen.
- Llunio asesiad manwl ar werth am arian yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn y tasgau blaenorol.

1.6 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy gam cyntaf y gwerthusiad i'w chael naill ai ym mhrif gorff yr adroddiad hwn neu yn yr atodiadau.

**Ail gam y gwerthusiad**

1.7 Mae'r **ail gam** (sef y cam hwn) wedi cynnwys gwerthusiad manylach yn archwilio llu o gwestiynau allweddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ac yn ceisio cyflawni sawl amcan pellach, sef:

- Gwerthuso effaith y rhaglen yn erbyn ei nodau a'i hamcanion
- Archwilio effaith pandemig COVID-19 ar gynnal y rhaglen i'r graddedigion
- Deall a phennu sut mae rhaglen Alacrity yn dod yn ei blaen mewn perthynas â bod yn gynaliadwy neu'n fytholwyrdd
- Y tebygolrwydd y gall y rhaglen ddenu buddsoddiad preifat yn y dyfodol.

*Methodoleg*

1.8 Mae ail gam y gwerthusiad wedi cynnwys:

- Cyfweliadau lled-strwythuredig (drwy Microsoft Teams neu dros y ffôn) gyda 10 rhanddeiliad sydd naill ai'n ymwneud â rheoli a chynnal Alacrity neu sydd ar Fwrdd Alacrity. Nod y cyfweliadau oedd casglu eu barn ar lwyddiant ac effaith y rhaglen hyd yma.
- Cyfweliadau manwl gyda 33 o gyfranogwyr cynllun Alacrity nawr ac yn y gorffennol (ers 2016). Gofynnodd Alacrity i'r holl gyfranogwyr a oedd wedi cofrestru ar Alacrity ers 2015 (pan oedd eu manylion cyswllt ar gael) am eu caniatâd i gymryd rhan yn yr ymchwil. O'r 112 a oedd wedi cofrestru ar y rhaglen rhwng 2015 a 2021, rhoddodd 52 ganiatâd i ni gysylltu â nhw fel rhan o'r gwerthusiad. O'r rhain, rhoddodd 50 ohonynt rif ffôn i gysylltu â nhw (ac felly fe'u hystyriwyd yn gysylltiadau ymarferol). Roedd ymgysylltu â 33 o'r cyfranogwyr hyn felly wedi golygu bod gwaith maes y gwerthusiad wedi sicrhau cyfradd ymateb iach o 66 y cant. Mae copi o'r holiadur ymchwil a ddefnyddiwyd gyda chyfranogwyr Alacrity i'w weld yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

**Cyfyngiadau yn y Fethodoleg**

1.9 Prin yw'r ymyriadau y gellir eu cymharu â chynllun Alacrity, a hynny'n tanseilio'r gallu i feincnodi llwyddiant cymharol y cynllun. O ganlyniad, heriol yw asesu gwerth, buddion ac adenillion y buddsoddiad yn y rhaglen, a hyn wedi'i danseilio ymhellach

gan natur y cynllun ei hun gan fod nifer o fusnesau’n debygol o ehangu’n gyflym yn y dyfodol agos, a hynny wedyn yn cynyddu’r gwerth am arian.

1.10 Mae’r dull o ymgysylltu â chyfranogwyr rhaglen Alacrity wedi cynnwys gofyn am eu caniatâd cyn mynd ati i gysylltu â nhw i’w gwahodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Mae rhagfarn gynhenid ynghlwm â’r dull hwn o ddewis cyfranogwyr i’w holi, rhywbeth nad oedd gan y gwerthuswyr unrhyw reolaeth drosto, sef y byddai’r rheiny â barn arbennig o gadarnhaol (a negyddol) am y rhaglen yn fwy tebygol o gydsynio i gymryd rhan. Mae hyn yn cynyddu’r risg o begynnu ar y farn a gesglir ac/neu nid yw’r farn yn cynrychioli cyfranogwyr y rhaglen. Roedd tri o’r 33 ymatebwr wedi gadael y rhaglen yn gynnar (yn gyfrannol mae hyn gryn dipyn yn is na’r ffigur meincnod ar gyfer y rhaglen gyfan), tra roedd 7 o’r rhai a ymatebodd heb gorffori cwmni, eto mae hyn yn gyfrannol is na ffigur meincnod y rhaglen gyfan. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli’r canfyddiadau a’r adborth gan gyfranogwyr drwy’r gwerthusiad.

## 2. Cyd-destun

2.1 Nod rhaglen Alacrity yw creu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid digidol yng Nghymru. Mae Sefydliad Alacrity yn cynnig rhaglen addysgol gymhwysol dros gyfnod o 15 mis ac ar y rhaglen honno mae timau o raddedigion prifysgol (yn bennaf) yn datblygu prosiectau go iawn sy'n canolbwyntio ar fusnes gan fod â mentoriaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Os bydd y timau'n llwyddiannus, cânt gyfle i lansio cwmnïau newydd sy'n mynd i'r afael â heriau (ac felly'n diwallu angen neu gyfle yn y farchnad) sydd gan sectorau neu sefydliadau mawr.

2.2 Ar adeg ei lansio, arweiniwyd Alacrity gan bolisi datblygu economaidd Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn 2010 yn Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd, sef polisi a oedd yn ceisio newid y cymorth ariannol cyhoeddus i fusnesau i fod â mwy o ffocws ar swyddi a thwf. Adlewyrchai hyn y sefyllfa economaidd-gymdeithasol ar y pryd pan oedd effeithiau dirwasgiad difrifol o'r argyfwng ariannol yn cyfyngu ar adferiad a thwf yr economi.

2.3 Canolbwyntiai'r polisi (i ddechrau arni) ar chwe sector blaenoriaeth i fuddsoddi ynddynt, sef: TGCh; Ynni a'r Amgylchedd; Deunyddiau Uwch a Gweithgynhyrchu; y Diwydiannau Creadigol; Gwyddorau Bywyd a Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol. Er bod adnoddau ar gyfer busnesau presennol wedi'u targedu fesul sector, roedd yr angen i greu busnesau newydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd. "Erys rôl i'r Llywodraeth annog entrepreneuriaeth – mae'n hanfodol ar gyfer datblygu economi gref ac felly'n dyngedfennol i'n ffyniant yn y dyfodol."[1]

### Cytundeb Cydweithredu

2.4 Ymgorfforwyd Sefydliad Alacrity ar 7 Mawrth 2011 ac fe'i cofrestrwyd fel elusen yn yr un flwyddyn. Roedd y cytundeb cydweithredu gwreiddiol yn cynnwys llofnodwyr o Lywodraeth Cymru, Wesley Clover, Sefydliad Waterloo ac Andrew Probert. Cafodd y cytundeb ei ddisodli yn 2016 pan gafwyd cytundeb diwygiedig, ac ar yr adeg honno, gadawodd Andrew Probert y consortiwm. Roedd y cytundeb diwygiedig yn adlewyrchu'r addasiadau a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod blynyddoedd cyntaf y gweithredu ac mae'n rhoi trosolwg defnyddiol o amcanion y rhaglen, sef:

[1] Llywodraeth Cymru (2010) *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*, Llywodraeth Cymru

- paratoi graddedigion ar gyfer entrepreneuriaeth trwy addysgu a hyfforddi;
- darparu mentora mewn ymchwil a datblygu cymhwysol trwy amgylchedd a phroses ymchwil a datblygu a hyfforddi a elwir yn 'Bŵt-Camp'[2]; ac,
- os yw amodau'r farchnad ar yr adeg berthnasol yn ddigon ffafriol, dylid manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y sylwir arnynt yn ystod y Bŵt-Camp a sefydlu cwmnïau technoleg newydd a chynaliadwy i'w lleoli yng Nghymru a'r Sylfaenwyr ac Alacrity i fod ymhlith y cyfranddalwyr cychwynnol.

2.5 O ran mesurau perfformiad, ychydig o ganlyniadau mesuradwy i'w cyflawni y mae'r cytundeb yn cyfeirio atynt. Pan fo canlyniadau wedi'u cynnwys yn y cytundeb, maent ar lefel uchel ac yn cael eu disgrifio fel uchelgeisiau yn hytrach nag fel mesur perfformiad ac maent yn cynnwys:

- 'Gobaith' i greu model cyllido 'bytholwyrdd' ar gyfer Alacrity o fewn saith mlynedd i ddyddiad y cytundeb (cymal 2.2)
- Cydnabyddiaeth mai'r amcan, ar gyfartaledd, yw lansio tair menter ym mhob Blwyddyn Buddsoddi yn ystod y Cyfnod Buddsoddi (cymal 2.5)

2.6 Dechreuodd y cytundeb diwygiedig o 1[af] Medi 2016 hyd at 31 Awst 2021 (gyda'r gyllideb sy'n weddill yn y contract yn cefnogi swyddogaeth weithredol y Sefydliad tan 30 Tachwedd 2021).

*Cyd-fynd â Pholisïau*

2.7 Mae Alacrity wedi parhau i fod yn gydnaws â pholisïau llywodraeth ers iddo ddechrau ac yn 2011 lansiwyd platfform Arbenigo Clyfar (Smart Specialisation) ar gyfer Cymru. Gwahoddodd y Comisiwn Ewropeaidd bob rhanbarth i ddatblygu strategaeth ymchwil ac arloesi ar gyfer arbenigo clyfar. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Arloesi[3] yn 2014, ac ynddi defnyddiwyd canfyddiadau Gwyddoniaeth i Gymru ynghylch meysydd lle mae gan Gymru gryfderau eisoes ar draws amrywiol sectorau diwydiannol ac ymchwil. Nodwyd pedwar maes sy'n gryn her y dylid buddsoddi ynddynt â blaenoriaeth o ran eu gallu i arloesi, a'r rheiny yn cynnwys TGCh a'r economi ddigidol. Pwysleisiai'r strategaeth hefyd bwysigrwydd

---

[2] Mae'r term Bŵt-Camp i ddisgrifio'r rhaglen 15 mis wedi'i ddileu gan fod yr elfen bŵt-camp bellach yn Bŵt-camp Technegol cychwynnol sy'n para 5 wythnos, ac yna Bŵt-camp Busnes yn para 4-5 wythnos ar ddechrau'r rhaglen. Yna cyflwynir gweddill y rhaglen mewn tri cham: Creu Syniadau; Dylunio ac Adeiladu, ac Ehangu.
[3] Llywodraeth Cymru (2014) *Arloesi Cymru*, Llywodraeth Cymru.

diffiniad eang o arloesi a cheir cyfeiriad ynddi at Alacrity fel 'enghraifft dda arall o hybu entrepreneuriaeth yng Nghymru'.

2.8 Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi sy'n cynnwys pum Maes Gweithredu sydd wedi'u cynllunio i gefnogi a goresgyn heriau'r dyfodol:

- Datgarboneiddio
- Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys
- Allforio a Masnachu
- Swyddi o'r Ansawdd Gorau, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg
- Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digideiddio.

2.9 Mae natur y gweithgarwch a wneir trwy Alacrity yn cyfrannu at bob un o'r rhain i raddau gwahanol (a chyfeirir at wneud hynny ar wefan Alacrity)[4]. Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cynllun Cyflogadwyedd[5], yn canolbwyntio ar gynllun pedwar pwynt ar gyfer yr economi yng Nghymru. Mae rhaglen Alacrity yn cyd-fynd yn arbennig o dda â dau bwynt yn y cynllun hwnnw, sef 'ymateb i'r bylchau presennol o ran sgiliau a'r rhai a ragwelir' a 'pharatoi ar gyfer newid sylfaenol ym myd gwaith' drwy system addysg a hyfforddiant a fydd yn paratoi Cymru at heriau a chyfleoedd yfory.

2.10 Yn 2021, aeth Llywodraeth Cymru ati eto i bwysleisio pwysigrwydd yr economi ddigidol yng Nghymru drwy gyhoeddi Strategaeth ddigidol i Gymru[6] sy'n cael ei sbarduno gan weledigaeth glir i 'wella bywydau pawb trwy gydweithio, arloesi a gwasanaethau cyhoeddus gwell'. Caiff y strategaeth ei chyflawni drwy chwe chenhadaeth. Mae Alacrity yn cyd-fynd yn benodol â dwy o'r chwe chenhadaeth:

- **Sgiliau Digidol**: Creu gweithle sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd.
- **Economi Ddigidol**: Sbarduno ffyniant economaidd a chydnerthedd drwy gynnwys a defnyddio arloesedd digidol.

[4] https://alacrityfoundation.co.uk/government/
[5] Llywodraeth Cymru (2018) *Cynllun Cyflogadwyedd*, Llywodraeth Cymru
[6] Llywodraeth Cymru (2021), *Strategaeth ddigidol i Gymru – sut y byddwn yn defnyddio dulliau digidol, data a thechnoleg i wella bywydau pobl Cymru,* Llywodraeth Cymru

2.11 Yn sail i bolisïau Llywodraeth Cymru mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[7] sy'n amlinellu saith nod llesiant i sicrhau ein bod ni oll yn cydweithio tuag at ddiben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith. Yn y nod sy'n gysylltiedig â *Cymru lewyrchus* yr amcan yw bod Cymru yn '*gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas'*. Mae cynllun Alacrity yn cyd-fynd yn arbennig â'r nod hwn tra hefyd yn cyfrannu at *Gymru iachach*, *Cymru gydnerth*, *Cymru fwy cyfartal*, a *Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* o gofio ei dyheadau i gryfhau'r economi ddigidol drwy weithgarwch entrepreneuraidd sy'n ymateb i'r heriau y mae'r economi yn eu hwynebu.

**Trosolwg o'r Model Cyflawni**

*Cyflwyniad*

2.12 Mae'r adran hon yn amlinellu model cyflawni'r rhaglen ac mae'n seiliedig ar gyfweliadau cwmpasu ac adolygiad o ddogfennaeth allweddol, ynghyd â sylwadau dilynol gan randdeiliaid a chyfranogwyr ehangach. Mae wedi'i strwythuro i adlewyrchu model y theori newid (Ffigur 2.1) er hwylustod cyfeirio/adfyfyrio.

2.13 Mae theori newid yn esbonio sut y dylai ymyriad weithio (gan nodi'r holl gamau y disgwylir iddynt gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir), y rhagdybiaethau a wnaed, ansawdd a chryfder y dystiolaeth sy'n eu cefnogi, a ffactorau cyd-destunol ehangach.[8] Mae datblygu theori newid fel arfer yn cynnwys ystyried y mewnbynnau arfaethedig (pa fuddsoddiadau/gweithredu fydd yn digwydd) a'r gadwyn achosol sy'n arwain o'r mewnbynnau hynny hyd at yr allbynnau disgwyliedig (yr hyn a ddarperir neu a gynhyrchir), canlyniadau (y canlyniadau tymor cynnar neu ganolig) ac, yn y pen draw, yr effaith (y canlyniadau tymor hir).

[7] Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru.
[8] Mae nifer o offer y gellir eu defnyddio i archwilio sut y disgwylir i ymyriad weithio, a ddisgrifir yn aml fel 'damcaniaeth y rhaglen'. Mae'r rhain yn cynnwys theori newid, mapio rhesymeg, fframiau log, mapio buddion, a mapio systemau. Mae'r holl brosesau hyn yn cynnwys mapio achosion ac effeithiau. Gweler Pennod 2 y Llyfr Magenta.


### Theori newid

2.14 Mae'r theori newid yn cynnig sylfaen allweddol ar gyfer gwerthuso yn y ffyrdd canlynol:

- Fe'i defnyddiwyd i fapio'r prif gwestiynau gwerthuso ar gyfer gweddill yr astudiaeth, a'r rheiny yn gysylltiedig â'r dangosyddion llwyddiant a'r tybiaethau sylfaenol sydd wedi'u rhoi ar brawf drwy'r gwerthusiad.
- Mae'n rhoi'r sail ar gyfer adolygiad manylach ar y broses a dyluniad yr offer ymchwil i sicrhau bod pob agwedd ar y rhaglen yn cael ei harchwilio.
- Mae'n rhoi'r sail ar gyfer dadansoddi'r effaith, ac asesu'r gwerth am arian i sicrhau bod y llwybrau allweddol i effaith yn cael eu rhoi ar brawf drwy'r gwahanol dasgau gwerthuso.

2.15 Yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn gellir gweld y fframwaith gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r theori newid (a'r cwestiynau allweddol a nodir ym manyleb y tendr) a oedd yn sail i fethodoleg (a meysydd trafod allweddol) y gwerthusiad.


**Ffigur 2.1: Enghraifft o Theori Newid linol[9]**




9 Trysorlys ei Mawrhydi (2018) Llyfr Magenta

2.16 Datblygwyd y theori newid ar gyfer cynllun Alacrity fel rhan o Gam 1 y gwerthusiad ac fe'i cyflwynir yn Ffigwr 2.2 isod. Roedd hwn yn seiliedig ar y prif feysydd ymchwilio yng Ngham 2 y gwerthusiad (a gyflwynir yn y fframwaith gwerthuso yn Atodiad 3). Mae gweddill yr adran hon yn adfyfyrio ar y theori newid ac yn ystyried pa mor ffyddlon yw'r model cyflawni i'r theori yn ogystal ag adfyfyrio ar y tybiaethau a nodir ynddi.

## Ffigur 2.2: Theori Newid



**Rhesymeg**

2.17 Mae rhaglen Alacrity yn ceisio cefnogi creu cyfleoedd busnes yng Nghymru mewn ymateb i heriau/problemau neu gyfleoedd diwydiant a fydd yn arwain at gorffori busnesau sydd â’r potensial i dyfu’n fawr ac yn uchel eu gwerth – busnesau sy’n llai cyffredin yng Nghymru nag mewn mannau eraill ledled y DU. Bydd y busnesau wedi’u lleoli yng Nghasnewydd a’r cyffiniau ac mae’n ofynnol yn ôl y contract iddynt aros yn yr ardal leol (oni bai/hyd nes nad yw cyfanswm mwyafrif cyfranddaliadau y busnes bellach yn nwylo buddsoddwyr cychwynnol y busnesau – sef Llywodraeth Cymru, Sefydliad Alacrity a Sefydliad Wesley Clover). Mae hwn wedi’i gynllunio i gefnogi’r ardal economaidd ymylol yng nghyffiniau Casnewydd sy’n dioddef o broblemau amddifadedd lluosog ac i helpu i gadw’r busnesau hyn yng Nghymru.

2.18 Mae’r rhaglen yn ceisio denu a chadw rhai o’r graddedigion disgleiriaf, mwyaf galluog o bob rhan o’r DU ond yn enwedig o Gymru a Gorllewin Lloegr, gan wella eu galluoedd trwy raglen ddwys o hyfforddiant, mentora a chymorth ehangach. Mae hyn yn mynd i’r afael yn uniongyrchol â’r her allweddol a wynebir gan economi Cymru sy’n gysylltiedig â ‘draen y doniau’ wrth i raddedigion gael eu colli o Gymru ar ôl graddio neu beidio â dychwelyd i Gymru ar ôl graddio wrth iddynt fynd ar drywydd yr hyn sy’n aml yn cael ei ystyried yn rhagolygon gyrfa cryfach mewn mannau eraill.

2.19 Y gobaith yw cael buddsoddiad allanol (i’r busnesau a grëir) er mwyn hwyluso twf cyflym y busnesau sy’n cael eu corffori drwy’r rhaglen. Darperir cyllid sbarduno cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, Sefydliad Wesley Clover a Sefydliad Waterloo, gyda chyllid ail rownd yn cael ei roi fel arfer drwy Fanc Datblygu Cymru. Mae’r rhaglen yn ceisio arallgyfeirio a chynyddu ffynhonnell buddsoddiadau gan gyfalafwyr menter ac angylion busnes a thrwy wneud hynny, hyrwyddo Cymru fel cyrchfan allweddol y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr ar gyfer buddsoddiad busnes.

2.20 Mae’r rhaglen hefyd yn darparu mecanwaith lle gall sefydliadau mwy o faint, sydd eisoes yn bodoli, fynd ati i arloesi mewn ymateb i’r heriau y maent yn dod ar eu traws.

2.21 Roedd barn rhanddeiliaid ehangach a'r staff rheoli a gweithredu am y rhesymeg a'r weledigaeth gysylltiedig ar gyfer y rhaglen yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r hyn a welwyd yn ystod y cam cwmpasu. Soniodd rhanddeiliaid am rôl y rhaglen yn denu, cadw a chreu entrepreneuriaid o safon uchel mewn busnesau cynaliadwy sydd â'r potensial i dyfu ac a fydd yn cael effaith sylweddol, gadarnhaol ar yr economi leol.

**Mewnbynnau**

*Cyllid y Rhaglen*

2.22 Roedd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r rhaglen gychwynnol (2011-2016) yn £2.83m, gydag arian cyfatebol gan fuddsoddwyr y sector preifat, sef cyfraniad o £316,500 y flwyddyn at gostau rhedeg Sefydliad Alacrity (y bŵt-camp) a £250,000 y flwyddyn tuag at y gronfa sbarduno. Yn ôl y fanyleb ar gyfer yr ymchwil hwn, bwriad y cyllid oedd galluogi sicrhau 10 busnes newydd (dau y flwyddyn), wedi'u creu yng Nghymru (dylid nodi bod hyn yn wahanol i gymal 2.5 y cytundeb cydweithredu a oedd yn cyfeirio at dri busnes newydd y flwyddyn) gyda Llywodraeth Cymru yn buddsoddi uchafswm o £125,000 o gyllid sbarduno ym mhob cwmni newydd ac, yn gyfnewid am hynny, yn cael 25 y cant o gyfranddaliadau cychwynnol y cwmni hwnnw.

2.23 Cytunwyd ar 5 mlynedd arall o gyllid gan Lywodraeth Cymru o 2016 ymlaen, gyda chyfanswm ymrwymiad o £3.45m – £440,000 y flwyddyn tuag at ehangu'r bŵt-camp a chyfraniad blynyddol o £250,000 i'r gronfa sbarduno unwaith eto. Roedd uchafswm buddsoddiad Llywodraeth Cymru ym mhob cwmni newydd wedi aros yn £125,000.

2.24 Cyflwynir manylion y cyllid ar gyfer y rhaglen yn Nhabl 2.1 isod. Dylid nodi bod rhodd Wesley Clover wedi dod trwy ei fraich buddsoddi yn Ottawa, sef Kanata Research Park Corporation (KRPC). Daw ei gyfraniad blynyddol yn rhannol mewn arian parod ac yn rhannol 'mewn nwyddau a gwasanaethu'. Daw'r olaf ar ffurf darparu personél a gwasanaethau eraill am gost y cytunwyd arni.

**Tabl 2.1: Trosolwg o'r cyllid a ymrwymwyd i raglen Alacrity**

| Ffynhonnell Cyllid | Medi 16 - Awst 17 | Medi 17 – Awst 18 | Medi 18 – Awst 19 | Medi 19 – Awst 20 | Medi 20 – Awst 21 | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiad 'Bŵt-Camp' Cynllun Alacrity** | | | | | | |
| **Kanata Research Park Corporation (KRPC) – arian parod** | 291,500 | 262,795 | 258,979 | 255,048 | 251,000 | 1,319,322 |
| **KRPC – mewn nwyddau neu wasanaethau** | 123,500 | 127,205 | 131,021 | 134,952 | 139,000 | 655,678 |
| **Sefydliad Waterloo** | 25,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 225,000 |
| **Llywodraeth Cymru** | 440,000 | 440,000 | 440,000 | 440,000 | 440,000 | 2,200,000 |
| **Cyfanswm Gweithredol y Rhaglen** | **880,000** | **880,000** | **880,000** | **880,000** | **880,000** | **4,400,000** |
| **Buddsoddiad Cronfa Sbarduno** | | | | | | |
| **KRPC** | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 1,000,000 |
| **Llywodraeth Cymru – cyllid sbarduno** | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 250,000 | 1,250,000 |
| **Sefydliad Waterloo** | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 250,000 |
| **Cyfanswm Buddsoddiad Cronfa Sbarduno** | **500,000** | **500,000** | **500,000** | **500,000** | **500,000** | **2,500,000** |
| **Cyfanswm Buddsoddiad yn y Rhaglen** | **1,380,000** | **1,380,000** | **1,380,000** | **1,380,000** | **1,380,000** | **6,900,000** |

*Cyflog*

2.25 Nid oes unrhyw ffioedd yn gysylltiedig â chymryd rhan yn y rhaglen ac mae graddedigion yn derbyn cyflog misol (di-dreth) o £1,500 dros y cyfnod o 15 mis (sy'n gyfwerth â £22,500).

2.26 Mae'r cyflog yn rhan hanfodol o ddenu cyfranogwyr i'r rhaglen ac i'w cadw arni. O du'r cyfranogwyr, dywedodd 27 o'r 33 a gyfwelwyd fod y cyflog wedi bod yn ffactor 'pwysig iawn' wrth ystyried ymuno â'r rhaglen, gyda'r gweddill yn ei ddisgrifio yn 'weddol bwysig'. Pan oeddynt ar y rhaglen, codai pwysigrwydd y cyflog, gyda 29 o'r 33 yn ei ddisgrifio yn 'bwysig iawn', a'r gweddill yn 'weddol bwysig'.

*Alacrity C*

2.27 Ym mis Tachwedd 2019, cytunwyd ar gontract cyflawni a'i lofnodi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer rhaglen Alacrity C i gynnal rhaglen â thema a oedd yn mynd i'r afael â materion penodol sydd gan y Llywodraeth ym maes seiberddiogelwch. Sicrhaodd y rhaglen daliadau mewn pedwar cam sy'n werth cyfanswm o £0.5m.

2.28 Deellir bod Llywodraeth y DU yn talu'r holl gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â rhaglen Alacrity C ac yn cyfrannu at y gorbenion. Mae cwmnïau a gorfforwyd drwy Alacrity C yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer cyllid sbarduno gan Lywodraeth Cymru.[10]

*Mentoriaid*

2.29 Daw buddsoddiad ychwanegol i'r rhaglen drwy fentoriaid allanol cynllun Alacrity, a llawer ohonynt yn gwirfoddoli eu hamser i gefnogi ac arwain cyfranogwyr trwy raglen Alacrity. Soniodd sawl un a gymerodd ran yn y gwerthusiad fod eu cysylltiadau â Simon Gibson (Cyfarwyddwr y Rhaglen) ac/neu Syr Terry Matthews wedi bod yn hollbwysig wrth hwyluso eu cyflwyniad i Alacrity a'u hymgysylltiad wedyn.

[10] Nodyn Briffio'r Bwrdd – Alacrity C – 12 Tachwedd 2020

## 3. Model Cyflawni Alacrity

3.1 Mae'r model cyflawni ar gyfer rhaglen Alacrity wedi'i fireinio'n barhaus yn sgil y dysgu a wnaed ers 2011. Mae'r adran hon yn bwrw ati i adolygu'r holl elfennau sy'n gysylltiedig â'r model, gan ddefnyddio dogfennau ac adborth gan randdeiliaid a chyfranogwyr.

### Hyrwyddo a Recriwtio

3.2 Hyrwyddir y rhaglen ar y cyfryngau cymdeithasol (trwy Twitter, Instagram a LinkedIn) gydag unigolion yn cael eu codi ar sail eu cefndir/diddordebau (wedi'u nodi fel rheol drwy LinkedIn) ynghyd â thargedu penodol ar brifysgolion (ac adrannau penodol mewn prifysgolion) a thrwy bresenoldeb a hyrwyddo mewn digwyddiadau amrywiol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gael graddedigion diweddar i gofrestru (24 oed yw oedran cyfartalog y rhai ar y rhaglen). Dengys y data am y rhai a gofrestrodd rhwng 2016-2021 fod 36 y cant (40/112) ohonynt yn hanu o Gymru cyn hynny (mae cyfran y cofrestriadau sy'n hanu o Gymru wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf gyda 40 y cant o'r cofrestriadau ers 2019 yn byw yng Nghymru ar adeg gwneud cais i raglen Alacrity). Deellir bod y tîm bellach yn ystyried a ddylid cofrestru'r rhai nad ydynt yn raddedigion ar y rhaglen, er nad yw'n glir pa lwybrau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo a recriwtio ar gyfer y garfan hon.

3.3 Soniodd sawl rhanddeiliad am yr heriau o ran recriwtio ar gyfer y rhaglen a oedd, yn rhannol, yn ymwneud â'r heriau o godi ymwybyddiaeth am Alacrity a denu unigolion i adleoli i Gasnewydd. Fel yr amlinellwyd uchod, aethpwyd ati fwyfwy i ddefnyddio dulliau gwahanol o farchnata a hyrwyddo mewn ymgais i gynyddu nifer yr ymgeiswyr i bob carfan y rhaglen.

3.4 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am y dyhead i gael rhagor o fenywod i ymddiddori yn y rhaglen. Rhwng 2016-2021, nododd 19 y cant (21/112) o'r cyfranogwyr a recriwtiwyd i'r rhaglen eu bod yn fenywod; roedd carfan 2020/21 yn arbennig o lwyddiannus gyda 28 y cant o'r rhai a gofrestrodd (8/29) yn nodi eu bod yn fenywod. Yn ogystal, mae tair ymddiriedolwraig ar y Bwrdd ac mae'r rhaglen yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo amrywiol i hybu cyfraddau menywod yn cofrestru.

*Barn y cyfranogwyr*

3.5 Er yr amrywiaeth o lwybrau yn hyrwyddo'r rhaglen, cyfeiriodd rhanddeiliaid at bwysigrwydd hyrwyddo drwy brifysgolion ar gyfer recriwtio. Adlewyrchir hyn yn ymatebion y graddedigion wrth i naw o'r 33 o ymatebwyr gyfeirio at y brifysgol fel y llwybr y daethant yn ymwybodol o'r rhaglen drwyddo. Daeth chwe ymatebwr arall i wybod am y rhaglen drwy rywun yn sôn am y cynllun – roedd gan dri o'r rhain ffrindiau/teulu a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen, ac roedd y tri arall wedi darganfod trwy ffrindiau a oedd wedi cymryd rhan yn Alacrity yn y gorffennol.

3.6 Pan ofynnwyd iddynt beth oedd wedi eu denu i'r rhaglen, siaradodd y cyfranogwyr am y cymorth dwys sydd ar gael i'w galluogi i ddechrau busnes (12/33). Cyfeiriwyd hefyd at y cyflog (10/33) a'r ffaith bod y rhaglen yn lleihau lefel y risg a gysylltir yn draddodiadol â dechrau busnes.

> *Dyna'r ongl entrepreneuriaeth, roeddwn i'n hoffi sut yr oedd yn lleihau risg y cylch entrepreneuriaeth, mae llawer o bobl yn gorfod gweithio'n llawn amser a'i wneud yn eu hamser hamdden, roeddwn i'n hoffi sut rydych chi'n cael blwyddyn lawn i baratoi eich syniad busnes tra hefyd yn cael eich talu.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Roedd yn edrych yn rhy dda i fod yn wir, i fod yn onest, y ffaith y gallwn ddysgu sgiliau rhaglennu technegol ar yr un pryd ag ennill cyflog. Teimlai ychydig fel cyfle unwaith mewn oes, rwy'n dod o gefndir dosbarth gweithiol ac roedd yr opsiynau i gychwyn busnes gyda chyllid yn ddeniadol iawn a hefyd byddai'n mynd â fi i gyfeiriad penodol ar adeg pan oeddwn yn ansicr beth roeddwn i eisiau gwneud ar ôl gadael y brifysgol.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Rwyf bob amser wedi bod eisiau dechrau fy musnes fy hun neu wedi chwarae â'r syniad ond gyda chefndir fy nheulu a'r adnoddau sydd ar gael i mi mae'n debyg nad oedd yn rhywbeth y byddwn yn gallu ei wneud, felly y cyllid oedd wedi fy nenu a hefyd yr arbenigedd a'r rhwydweithiau oedd ar gael.* **Cyfranogwr Alacrity**

3.7 Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch rhaglen Alacrity cyn iddynt gofrestru. Roedd y prif bryderon yn ymwneud ag argraff ynghylch pa mor ddilys oedd y rhaglen. Ailadroddodd ymgeiswyr y farn a gafwyd ymhlith rhanddeiliaid bod yr hyn y mae'r rhaglen yn ei gynnig yn unigryw ac er bod hyn yn un o asedau'r rhaglen, roedd hefyd yn ei gwneud yn anodd i ddarpar ymgeiswyr feincnodi'r rhaglen yn erbyn darpariaeth arall, yn enwedig pan oedd y cynnig, fel y soniodd sawl un, fel petai'n 'rhy dda i fod yn wir'.

3.8 Roedd pum ymatebydd arall yn pryderu am eu gallu technegol ac a fyddai'n ddigon da i sicrhau lle ar y rhaglen, tra bod pedwar yn pryderu am leoliad y rhaglen mewn perthynas â'r cyfleoedd y gallai'r lleoliad eu cyflwyno iddynt a pha mor ddeniadol yn fwy cyffredinol oedd Casnewydd fel dinas i adleoli iddi.

**Y broses ymgeisio**

3.9 Mae'r broses ymgeisio fel arfer yn dechrau drwy sgwrs gychwynnol gydag ymgeiswyr sydd wedyn (pan fo'r sgyrsiau hyn wedi bod yn ffrwythlon) yn cael eu hannog i gyflwyno CV. I'r rheiny sy'n ymgeisio sy'n debygol o fod yn fwy technegol eu hanian, gofynnir iddynt wneud prawf gallu. Soniodd rhanddeiliaid bod angen cymorth ar rai unigolion ar gyfer yr asesiadau hyfforddi – os ydynt wedi sgorio'n wael i ddechrau arni, cânt ddeunyddiau perthnasol a'u cyfeirio at wefannau a allai eu helpu (os ydynt yn dymuno gwneud yr asesiad eto).

3.10 Mae cyfweliadau (yn rhithwir neu wyneb yn wyneb) wedi'u teilwra i ddiddordeb yr ymgeisydd (yn dibynnu a ydynt yn dechnegol eu hanian neu ar yr ochr busnes). Mae cyfweliad y cam cyntaf yn dueddol o fod yn rhithwir ac yna fel arfer cynhelir y cyfweliad dilynol wyneb yn wyneb (yn dibynnu ar gyfyngiadau yn gysylltiedig â COVID-19). Disgrifiodd staff y broses fel un hynod drylwyr a phwysig er mwyn helpu i feithrin perthynas a sicrhau bod gan yr ymgeisydd y priodoleddau angenrheidiol i fod yn llwyddiannus drwy Alacrity. Mae staff yn amcangyfrif bod tua 70-80 y cant o'r ymgeiswyr i Alacrity yn cael lle ar y rhaglen er y deellir bod hidlo sylweddol yn digwydd cyn y cyfweliad.

**Model Cyflawni**

3.11 Ar ôl cael eu recriwtio ar y rhaglen, mae cynllun Alacrity yn ymwneud yn fras â'r gyfres o gamau a amlinellir yn Nhabl 3.1 isod.

**Tabl 3.1: Strwythur Rhaglen Alacrity**

| Cam | Prif elfennau | Modiwlau |
|---|---|---|
| **Y cam 'cyn dechrau'r tymor'** | ▪ Bŵt-camp technegol<br>▪ Penodi arweinwyr busnes<br>▪ Ffurfio timau a bŵt-camp busnes<br>▪ Asesiad prosiect cychwynnol<br>▪ Wythnos profiad cwsmeriaid | |
| **Cam 1 (creu syniadau):** dau fis (mentora technegol, dylunio a phrosiect, a mentor gwadd drwyddo'i gyd) | ▪ Cyflwyniad a phresenoldeb personol<br>▪ Sgiliau negodi<br>▪ Diwylliant a gwerthoedd cwmni<br>▪ Syniad am brosiect a chynnyrch | ▪ Creu syniadau<br>▪ Sgiliau a dulliau ymchwil<br>▪ Dadansoddi'r farchnad a chynllunio'r busnes<br>▪ Tueddiadau yn y dyfodol<br>▪ Yr entrepreneur sy'n adfyfyrio |
| **Cam 2 (dylunio ac adeiladu):** 4-5 mis (mentora technegol, dylunio a phrosiect, a mentor gwadd drwyddo'i gyd) | ▪ Paneli diweddaru misol<br>▪ Rev-Engine<br>▪ Arferion busnes<br>▪ Corffori<br>▪ Defnyddwyr yn rhoi'r MVP ar brawf<br>▪ Parodrwydd i fuddsoddwyr | ▪ Dadansoddi'r farchnad a chynllunio'r busnes<br>▪ Adeiladu ac ehangu'r busnes<br>▪ Tueddiadau yn y dyfodol<br>▪ Yr entrepreneur sy'n adfyfyrio |
| **Cam 3 (adeiladu ac ehangu):** 5- 6 mis (mentora technegol, dylunio a phrosiect drwyddo'i gyd) a mentora ychwanegol ad hoc | ▪ Diweddariadau un i un misol<br>▪ Recriwtio<br>▪ Y broses werthu<br>▪ Craffu technegol<br>▪ Cyflwyno cynnyrch<br>▪ Cynlluniau busnes<br>▪ Parodrwydd i fuddsoddwyr | ▪ Adeiladu ac ehangu'r busnes |
| | **Corffori a Chyllid Sbarduno** | |

### Rhoi cymorth – 'cyn dechrau'r tymor'

3.12 Mae'r rhaglen gymorth yn dechrau gyda'r cam 'cyn dechrau'r tymor' ac i'r cyfranogwyr hynny sy'n arbenigwyr technegol mae'r cam hwn yn cynnwys bŵt-camp technegol (roedd hyn i ddechrau arni ar ffurf cyflwyniad i'r gweithgareddau codio tebygol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ond cafodd ei ehangu maes o law i fod yn bŵt-camp technegol mwy sefydledig) a phrofion wythnosol tra bod lleoliadau gwaith i'r arweinwyr busnes. Fel arfer, dywedir bod tua 20 y cant o'r cyfranogwyr yn gadael o ganlyniad i'r bŵt-camp gan fod hyn yn rhoi ymdeimlad cryf o'r setiau sgiliau ymhlith y cyfranogwyr. Mae'r 'arweinwyr' busnes (sef y rhai sydd wedi ymuno â'r rhaglen gyda sgiliau entrepreneuraidd a masnachol yn fwy na gallu technegol)


hefyd wedyn (ar ôl bod ar leoliad) yn cael bŵt-camp busnes sawl wythnos i mewn i'r rhaglen. Drwy gydol y broses hon mae cyfranogwyr yn ystyried pwy ymhlith eu cyd-gyfranogwyr y byddent am weithio gyda nhw mewn tîm.

3.13 Tuag at ddiwedd y cam 'cyn dechrau'r tymor', mae pennu'r timau yn dechrau. Er bod hyn yn cael ei arwain gan dîm rhaglen Alacrity, mae ymgeiswyr yn cael eu holi'n gyfrinachol i gasglu ymdeimlad o bwy yr hoffent neu na hoffent weithio gyda nhw ac i helpu i sicrhau'r gyfatebiaeth orau o ran setiau sgiliau a phersonoliaethau.

*Barn y cyfranogwyr*

3.14 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sgôr i'r broses o roi unigolion mewn timau sy'n digwydd ar ddechrau'r cam creu syniadau (sgôr allan o bump lle mae un yn golygu aflwyddiannus iawn a phump yn golygu llwyddiannus iawn). Mae Ffigur 3.1 isod yn dangos mai sgôr o 3 allan o 5 oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi'i roi i'r broses er bod dros chwarter (9/33) wedi rhoi sgôr o bump i'r broses. Pan oedd y sgôr yn is na'r disgwyl roedd hyn yn ymwneud â thrafferthion ymhlith y timau y gosodwyd y cyfranogwyr ynddynt i ddechrau arni. Codwyd pryderon hefyd ymhlith rhai cyfranogwyr bod y broses i'w weld braidd yn ad hoc ei natur. Mae tystiolaeth o welliant yn y sgoriau ymhlith cyfranogwyr carfannau mwy diweddar gyda'r sgôr gyfartalog gymedrig ers 2020 yn codi i 4.1 allan o 5 (yn seiliedig ar 18 o ymatebwyr) o gymharu â chyfartaledd cymedrig ar draws yr holl ymatebwyr o 3.6 (2016-2021) a 3.3 allan o 5 gan ymatebwyr ar garfannau cyn 2020.

**Ffigur 3.1: Rhowch sgôr allan o 5 am eich barn ynghylch pa mor llwyddiannus oedd y paru unigolion yn dimau yn gynnar yn y rhaglen**




n = 33

**Cam 1 – Creu syniadau**

3.15 Mae'r cam creu syniadau yn cael y timau sydd newydd eu hymgynnull i ymateb i gyfres o heriau (tair her fel rheol) wedi'u cyflwyno gan bartneriaid strategol. Mae rhai heriau yn broblem neu angen dybryd mewn sefydliad tra gall heriau eraill fod yn fwy strategol, neu'n seiliedig ar gyfleoedd. Aiff y timau ati i ymateb i'r heriau hynny drwy ymchwilio ac yna gyflwyno syniad i ddatrys yr her/manteisio ar y darpar gyfle. Mae pwyslais ar annog timau i asesu i ba raddau y mae bwlch yn y farchnad i ymateb i'r her ac a oes posibilrwydd o fusnes y gellid ei dyfu. Caiff y syniadau a'r cynlluniau eu herio'n barhaus er mwyn helpu i gael y syniadau gorau posibl a fydd yn esgor ar ddatrysiadau, a gwneir hyn gyda chefnogaeth tîm y rhaglen yn ogystal â'r partneriaid strategol (a allai fod wedi cynnig y syniad am yr her). Deellir y bydd sawl newid i gyfansoddiad y tîm yn ystod y cam hwn (sy'n para am tua 3-4 mis).

3.16 Disgrifir y cam hwn gan randdeiliaid fel un sydd ymhell o fod yn llinol, gan fod rhai heriau yn gofyn am gyfres o addasiadau o ran dull gweithredu ac o ran mireinio eu cwmpas tra bod eraill yn fwy syml wrth bennu ateb posibl.

3.17 Deellir bod y mentora yng nghamau cychwynnol hyn y rhaglen yn canolbwyntio'n fawr ar y staff mewnol, fodd bynnag maent hefyd yn annog cyfranogwyr i rwydweithio a threfnu cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr allanol.

*Partneriaid strategol*

3.18 Y partneriaid strategol yw prif ffynhonnell yr heriau yn y cam creu syniadau; fodd bynnag, mae'r partneriaid hyn fel arfer yn ymgysylltu â'r rhaglen i ddechrau arni mewn rôl fentora. Wrth i'r sefydliadau gryfhau eu hymwneud â'r rhaglen, deellir eu bod yn tueddu i symud ymlaen i ddod yn bartneriaid strategol, gan gyflwyno syniadau a heriau i dîm Alacrity ar yr un pryd â pharhau i gefnogi'r timau (mewn rôl fentora) ar eu taith drwy'r rhaglen. Mae'r sefydliadau hyn hefyd, yn eu tro, yn cynnig mynediad i'w rhwydweithiau ac yn 'agor drysau' i sefydliadau eraill a chyfleoedd i gyfranogwyr Alacrity. Fel arfer, gwneir y mentora yn wirfoddol.

> *Os ydyn nhw angen unrhyw beth rywbryd, neu ddealltwriaeth o rywbeth, byddwn yn sicr yn eu helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn, rwy'n meddwl bod y syniadau maen nhw'n eu cynhyrchu yn anhygoel ac mae mwy i ddod ganddyn nhw o gael rhagor o gefnogaeth. Mae'n ymwneud â thaflu syniadau o gwmpas a siarad am wahanol gyfleoedd y gallent elwa ohonynt.* **Mentor Allanol**

3.19 Mae sicrhau digon o bartneriaid strategol yn her allweddol i'r rhaglen. Er bod rôl recriwtio partneriaid strategol yn rhan o faes Pennaeth Partneriaethau yn Alacrity, mae gan bob aelod o'r tîm ran weithredol wrth recriwtio partneriaid (gyda statws yr uwch swyddogion sy'n gysylltiedig â rhaglen Alacrity yn atyniad pwysig). Yn ogystal, y tu hwnt i'r broses gychwynnol o recriwtio sefydliadau rhanddeiliaid, mae'r her o sicrhau eu bod yn dal ati i gymryd rhan yn y rhaglen a chyflwyno nifer fawr o heriau dros amser.

3.20 Wrth ymateb i'r heriau, defnyddir fframweithiau yn ymwneud ag entrepreneuriaeth ddisgybledig (fframweithiau Bŵt-camp MIT, er enghraifft) i helpu i lunio cyfeiriad strategol wrth ddatblygu cynhyrchion sy'n ymateb i'r problemau a godwyd.

3.21 Mae'r cam creu syniadau yn esgor ar gryn dipyn o dystiolaeth a ddaw o gyfuniad o weithgareddau ymchwil cynradd ac eilaidd. Yna, ar sail yr ymchwil hwnnw, rhaid i dimau lunio dadansoddiad o'r sefyllfa yn erbyn her/cyfle arloesi a ddewiswyd sydd wedi dechrau dod i'r amlwg i fod yn asgwrn cefn eu cynllun busnes. Mae'r dadansoddiad yn rhoi cyfeiriad i deithio iddo yn y farchnad honno, gan ddangos sut y gallent gystadlu yn y farchnad honno a pha nodweddion sydd eu hangen arnynt yn eu busnes. Roedd hyn wedyn yn destun craffu gan dîm Alacrity.

**Barn y Mentor Allanol am y cam hwn**

*Roedd yn wirioneddol organig, roeddwn ond yn ymateb i’r angen a godai ac yn dilyn eu diddordeb, dilyn fy niddordeb innau ychydig hefyd. Does dim ffurflenni i’w llenwi, sy’n wych o beth. Debyg mai’r hyn a oedd yn rhoi boddhad mawr i mi o’m safbwynt i yw sut y gallwn weld cnoi cil ar yr hyn a drafodwyd ac yna byddech yn ei weld yn iteriad nesaf y cynnyrch.*

*Mae’r berthynas yn bwysig, nid maint ond ansawdd y berthynas honno, y berthynas â’r tîm nes eu bod yn teimlo’n rhwydd i godi’r ffôn neu anfon e-bost. Ac ar nos Sul, gallent gysylltu â ni i ddweud, ‘rydyn ni ychydig yn sownd ar hyn’ neu ‘beth ydych chi’n ei feddwl o hynny’ neu ‘pwy arall y dylen ni gysylltu â nhw am hynny’, ‘ydyn ni’n gallu dod i ddangos fersiwn diweddaraf y cynnyrch hwn i chi’.*

*Barn y cyfranogwyr am y cam creu syniadau*

3.22 Soniodd y cyfranogwyr am werth y cam creu syniadau wrth ddatblygu eu gallu i ddatrys problemau ac i werthuso cyfres o syniadau neu heriau busnes. Roeddent yn gwerthfawrogi pa mor ddwys oedd y cam a chael cysylltiad ag amrywiaeth o bartneriaid strategol a mentoriaid:

> *Y bonws mwyaf yn yr amgylchedd hwnnw oedd nifer y cysylltiadau a’r gwahanol bartneriaid y gwnaeth Alacrity eu cyflwyno fi iddynt – pobl na fyddwn byth wedi gallu cael mynediad iddynt heb Alacrity. Fe wnaethom ddewis y prosiect penodol hwn oherwydd i ni gwrdd â chymaint o wahanol gysylltiadau a oedd yn cael yr un broblem ag yr oedden ni’n gweithio ar ateb iddo.* **Cyfranogwr Alacrity**
>
> *Roedd yn bendant yn ddwys, ac rwy’n meddwl efallai mai dyna beth oedd yn ddefnyddiol amdano, bob pythefnos byddem yn edrych ar syniad newydd, felly byddem yn cael problem, yn ymchwilio i bopeth yn ei gylch ac yna yn cyflwyno cynnig am fusnes yn seiliedig ar y syniad hwnnw o fewn 2 wythnos, er ei fod yn ddwys iawn mi roddodd ddealltwriaeth eithaf dwfn i ni o’r holl feini prawf oedd eu hangen*

*arnom i ni fwrw ymlaen wedyn pan oedd gennym ein syniad terfynol.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Dyma oedd rhan fwyaf buddiol y rhaglen gyfan…gwnaethom gynnig sawl fersiwn o'n syniad gwreiddiol a thrwy adborth a mentora rydym nawr yn gweithio ar y syniad…mae'n dangos i chi sut i roi 'pitch', sut i strwythuro syniadau, mae'n eich helpu i ddeall rheoli cynnyrch.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Roeddwn wedi eu cael yn ddefnyddiol iawn, yn y diwedd doeddwn i ddim yn y tîm y gwnes i'r holl heriau hyn gyda nhw, ond fe wnaethon ni ddysgu ar ôl pob senario, ar ôl pob achos busnes fe wnaethon ni ddysgu a gwella, felly roedd hynny'n ddefnyddiol iawn.* **Cyfranogwr Alacrity**

3.23 Soniodd pump o'r cyfranogwyr hefyd am y rôl y cafodd y cam creu syniadau wrth gryfhau'r berthynas ymysg y tîm. "*Aethon ni drwy 3 neu 4 syniad felly roedd y broses yn dda i'r tîm eistedd i lawr a thrafod gan fod hyn yn helpu i'n cael fel tîm i gyd-dynnu â'n gilydd, cawsom wrando ar farn ein gilydd a sut oedd unigolion ar y tîm yn gweithio, felly roedd y broses hon yn ffordd arbennig o dda o weld set sgiliau pawb ac os yw ein hagwedd a'n ffordd o feddwl yn cyd-fynd â'i gilydd".*

3.24 Dim ond tri ymatebwr a deimlai nad oeddent wedi elwa lawer o'r cam creu syniadau, yn bennaf roedd hyn yn ymwneud â natur yr heriau a gawsant (o safbwynt mai bach iawn oedd y cyfle drwy'r heriau o'u blaenau i ehangu busnes yn ymarferol).

3.25 Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i'r cam hwn, cyfeiriodd chwe chyfranogwr at ansawdd a nifer y syniadau a gyflwynwyd iddynt weithio arnynt a chyfeiriodd saith ymatebwr arall at fwy o ymrwymiad gan y partneriaid strategol sy'n gysylltiedig â syniadau (a ddisgrifid ganddynt i fod yn amrywiol) a chymorth mentora yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni allai saith o'r ymatebwyr feddwl am ddim a fyddai wedi gwella'r cam hwn iddynt.

**Cam 2 – Dylunio ac Adeiladu**

3.26 Ar ddechrau'r ail gam, mae'r tîm yn tueddu i setlo wrth i'r arweinwyr busnes ganolbwyntio ar ddatblygu cynllun busnes tra bod yr arweinwyr technegol yn canolbwyntio ar ddylunio ac adeiladu cynnyrch, gan dynnu ar adnoddau a chymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r cam yn cynnwys datblygiad parhaus, adfyfyrio a mireinio gan esgor ar ddatblygiad y cynllun busnes.

3.27 Yn ystod y cam hwn, mae cynrychiolwyr Wesley Clover yn dechrau ymgysylltu â'r timau bob mis i roi adborth ar botensial buddsoddi'r syniadau busnes sy'n codi. Yn ehangach ymhlith y tîm cymorth mewnol, mae'r rôl cymorth yn tueddu i newid o fod yn fentora i safbwynt buddsoddwr (ochr yn ochr â safbwynt buddsoddwr allanol). Mynegodd rhanddeiliaid bwysigrwydd meithrin cysylltiadau â buddsoddwyr yn gynnar yn y rhaglen er mwyn helpu i weld pa fuddsoddwyr a allai fod â diddordeb mewn buddsoddi ac yna meithrin y diddordeb hwnnw o gyfnod cynnar ac i ddeall yn well beth fydd yr atyniadau allweddol a fyddai'n eu helpu i fuddsoddi.

3.28 Soniodd y cyfranogwyr am bwysigrwydd cymorth mentora trwy gydol y cyfnod hwn "*cawsom broblemau pan fethodd un o'n prosiectau, felly roedd hi'n ddefnyddiol iawn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda mentoriaid ac arbenigwyr a oedd yn edrych ar ein syniadau a'u cadarnhau*." Fodd bynnag, amrywio oedd yr adborth ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth hwnnw:

> *Teimlais fod y cymorth gan aelodau carfannau eraill o'n blaenau wedi bod yn fwy defnyddiol na'r mentoriaid eu hunain ... roeddwn i'n meddwl bod y mentoriaid technoleg yn eithaf caeth eu ffyrdd o ran pa dechnoleg roedden nhw'n ei defnyddio, ac fe gawson ni ein caethiwo gyda thechnoleg benodol o ganlyniad.* **Cyfranogwr Alacrity**

3.29 Soniodd sawl un (yn ogystal â'r unigolyn a gyfeiriodd ato uchod) am bwysigrwydd a gwerth yr alumni (carfannau blaenorol), yn benodol drwy wrando ar eu profiadau, yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu a sut yr oeddent wedi cyrraedd eu sefyllfa bresennol. Yn fwy cyffredinol, roedd pa mor bositif oedd y farn am y cam hwn wedi'i ddylanwadu fel rheol gan yr argraff am ansawdd a pherthnasedd y cymorth a gafodd y timau gan fentoriaid a phartneriaid strategol. Wedi dweud hynny, cafwyd amrywiaeth yn y farn ynghylch pa elfennau'r cymorth yn y cam dylunio ac adeiladu

oedd fwyaf defnyddiol (yn amrywio o gefnogaeth fewnol y tîm rheoli ac arwain, i fentoriaid mewnol, arbenigwyr allanol, partneriaid strategol a darparwyr cymorth technegol). Fodd bynnag, mewn sawl achos cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddefnyddioldeb y cymorth technegol ond teimlent y byddai'r rhaglen yn elwa o gael personél ychwanegol gan fod y cymorth a oedd ar gael i'w weld dan bwysau.

> *Roedd cefnogaeth gan y partneriaid strategol yn arbennig o dda i'n tîm ni, roedd gennym ni bartneriaid ymatebol iawn a oedd yn frwdfrydig iawn ynghylch bod yn rhan o'n prosiect a nhw oedd y rhai oedd fwyaf gwerthfawr i gael cefnogaeth ganddynt oherwydd eu bod yn byw ac yn bod gyda'r broblem.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Roedd cefnogaeth gan fentoriaid diwydiant a gweithwyr proffesiynol eraill a chyfeillion yr elusen yn hynod werthfawr o ran dysgu am wahanol feysydd y busnes a dod i gysylltiad â phobl a oedd yn y diwydiannau yr oeddem am fynd i mewn iddynt. Byddwn i'n dweud mai dyna oedd un o elfennau cymorth cryfaf rhwydwaith Alacrity ac roedd y dealltwriaethau a gawsom gan ein mentoriaid yn bethau na fyddem byth wedi treiddio iddynt ar ein pen ein hunain.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Mae'r tîm mewnol yn dda iawn yma, maen nhw'n dueddol o fod â rhwydweithiau mawr iawn eu hunain felly rydyn ni'n gallu manteisio ar ein mentoriaid ac maen nhw'n gallu ein cyflwyno ni i fentoriaid allanol hefyd, felly roedd hynny'n ddefnyddiol iawn. Mae dwy agwedd ar y mentoriaid mewnol, felly mae 1 neu 2 fentor yn cael eu pennu i bob tîm a ninnau yn eu gweld bob dydd, ac rydym yn tueddu i ddefnyddio eu rhwydwaith allanol yn fawr ac mae hynny'n rhoi persbectif da iawn i ni. Mae Alacrity fel swigen felly mae'n dda cael yr unigolyn allanol yna yn dod i mewn ac i ni gwestiynu sut maen nhw'n gweithio ac ati.* **Cyfranogwr Alacrity**

3.30 Pan ofynnwyd ym mha ffyrdd y gellid gwella cam hwn y rhaglen, roedd yr adborth unwaith eto yn eang ei gwmpas. Gan amlaf cyfeiriai'r rhan fwyaf (pump o ymatebwyr) at yr angen am gymorth ychwanegol gan y mentoriaid a oedd yn meddu ar arbenigedd technegol. Soniodd cyfranogwyr eraill am faterion a oedd yn benodol iawn i sefyllfa eu busnes newydd a'i lwybr twf. Yn y cyswllt hwn dengys yr adborth yr amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n codi o blith cyfranogwyr Alacrity a'r heriau cysylltiedig i dîm Alacrity wrth geisio ymateb neu gefnogi ymateb i'r materion amrywiol a all ddod i'r amlwg. Mae gwahaniaeth hefyd rhwng pa mor gadarnhaol yw'r adborth ymhlith y cyfranogwyr, ac ar gam hwn y rhaglen ymddengys bod cynnydd a llwyddiant pob tîm gwahanol yn y pen draw yn dylanwadu'n gryf ar yr adborth hwnnw.

*Cam 3 – Adeiladu a thyfu*

3.31 Mae'r cynnyrch yn cael ei fireinio ymhellach yn ystod y cam hwn, gan arwain at ddatblygu cynnyrch sylfaenol hyfyw (MVP) i'w brofi gyda chwsmeriaid wrth i'r ffocws symud i gael gafael ar gwsmeriaid. Fel arfer, y cwsmer cyntaf fyddai'r partner strategol, er mwyn cryfhau'r berthynas honno ymhellach ac i fanteisio'n helaeth ar y ddealltwriaeth a'r arbenigedd y gallant eu cynnig. Unwaith eto rhagwelir y bydd dylunio a datblygu cynnyrch yn broses ailadroddol a mireinio parhaus yn digwydd yn seiliedig ar yr adborth cychwynnol a geir.

3.32 Tuag at ddiwedd y broses hon (15 mis ar ôl y recriwtio cychwynnol) mae tîm Alacrity yn cymryd cam yn ôl er mwyn i dimau weithio'n fwy annibynnol gan felly newid ffocws a rôl tîm y rhaglen yn fwy tuag at lywodraethu.

**Mentor Allanol – Adfyfyriadau**

*Rwy'n fentor ar y rhaglen. Dydw i ddim wedi rhoi'r gorau i weithio gyda nhw a dweud y gwir. Mi wnes i gwrdd â'r tîm, pan ddaethon nhw at ei gilydd yn gyntaf, a siaradais â nhw am rai o'r opsiynau oherwydd eu bod yn chwilio am broblem benodol o ran ystyr busnes i'w datrys. Felly, fe wnes i ryw fath o siarad am ychydig o opsiynau gyda nhw, rwy'n meddwl i mi roi tua thri senario busnes gwahanol y gallent fwrw iddynt a oedd yn broblemau penodol yn fy niwydiant.*

*Ac yna trwy gydol y broses ddatblygu, byddwn yn cyfarfod ag aelodau gwahanol o'r tîm i'w helpu i fireinio'r cynnyrch hwnnw. Ac rwy'n meddwl*

*fod hynny'n eang iawn o ran ystyried pa mor ymarferol yw'r cynnyrch neu hyd yn oed y math o awgrymiadau am fodelau busnes eraill y gallent edrych arnynt i weld sut y gallent eu defnyddio.*

*Wedyn fe wnes i eu hannog i wirio fod y peth yn gwneud synnwyr trwy eu rhoi mewn cysylltiad â phobl wahanol rwy'n eu hadnabod, ac yna fe roeson ni rywfaint o ddata prawf iddynt redeg drwy'r system er mwyn iddynt allu ei ddangos i eraill.*

**Y ddarpariaeth yn Gymraeg**

3.33 Disgrifiodd naw o'r 33 cyfranogwr eu hunain yn siaradwyr Cymraeg (pedwar yn rhugl). Cadarnhaodd pob un o'r naw ymatebwr nad oedd unrhyw elfennau o'r cymorth wedi'i ddarparu yn Gymraeg, ac ni fyddai'r un ohonynt wedi dewis cael y ddarpariaeth yn Gymraeg.

3.34 Ategwyd nad oedd darpariaeth Gymraeg ar y rhaglen gan randdeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad, a hwythau wedi tynnu sylw at y ffaith fod y rhaglen yn denu mwyafrif ei chyfranogwyr o weddill y DU neu'n rhyngwladol. Ymhellach, disgrifiodd rhanddeiliaid sut mae diwylliant Cymru eisoes yn gryf iawn yn y model cyflawni oherwydd bod Alacrity yn deillio o Gymru o ran ei darddiad, ei ddyluniad a'i weithredu.

**COVID-19**

3.35 Ar 23ain Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf mewn ymateb i bandemig COVID-19.[11] Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i holl aelwydydd y DU aros gartref a pheidio â chymysgu ag unigolion y tu allan i'w haelwyd am gyfnod amhenodol ar y pryd. O ran Alacrity, golygai hyn bod angen newid y ddarpariaeth yn gyflym i gynnig cefnogaeth ddigidol o bell. Trwy sawl ton y pandemig am bron i ddwy flynedd cafwyd cyfyngiadau cymdeithasol a amrywiai o ran eu difrifoldeb, a daeth yr holl gyfyngiadau i ben yn y diwedd yng ngwanwyn 2022.

[11] Gweler https://www.gov.uk/government/speeches/pm-address-to-the-nation-on-coronavirus-23-march-2020 i gael manylion llawn y datganiad.

3.36 Ar gyfer rhaglen Alacrity, effeithiodd y pandemig ar ddarpariaeth y rhaglen mewn amrywiol ffyrdd. Nid oedd yn bosibl arsylwi ar ddeinameg cyfranogwyr Alacrity yng nghamau cynnar eu cyfranogiad yn ystod y pandemig oherwydd y gweithio o bell, gan ddwysáu'r heriau wrth ffurfio tîm ar y dechrau. Arferai'r rhaglen annog gweithgarwch allgyrsiol ymhlith timau i helpu i feithrin perthynas, ond roedd y cyfyngiadau cymdeithasol yn cyfyngu ar y cyfleoedd hyn. Yn yr un modd, bu'n rhaid rhoi ffocws o'r newydd ar y gefnogaeth a'r rôl sydd ganddynt o ran dyletswydd gofal gyda chyfranogwyr Alacrity, yn enwedig o ran eu hiechyd meddwl (a rhoddwyd wythnos benodol yn y rhaglen i iechyd meddwl). Arweiniodd y pandemig hefyd at gynnydd mewn cymorth bugeiliol yn fwy cyffredinol i gyfranogwyr a hwythau'n wynebu sawl her ychwanegol oherwydd y cyfyngiadau ar symud (ni allai rhai cyfranogwyr o dramor er enghraifft ddychwelyd adref i weld teulu). Ymhellach, defnyddiwyd dulliau rhithwir i fentora a rhoi cefnogaeth barhaus mewn perthynas â symud ymlaen drwy'r rhaglen.

3.37 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y cymorth a gawsant. Nid oedd deg o'r ymatebwyr yn gallu meddwl am unrhyw broblemau, ond roedd sawl un yn adleisio'r her a nodwyd gan randdeiliaid o fynd ati i geisio meithrin tîm, tra bod pedwar ymatebwr wedi dweud bod y cymorth yn ystod y pandemig wedi cynyddu o ran ei amlder.

> *Ar y cyfan, cynyddu wnaeth y gefnogaeth yn ystod y pandemig; er enghraifft cyn y pandemig byddem yn cael un cyfarfod bob dydd gyda'n mentor ond pan wnaethon ni symud i weithio o bell, byddem yn cael sesiwn bore gyda'n mentor ac yna sesiwn prynhawn i sicrhau bod gennym bopeth yr oedd ei angen arnom. Roeddem yn cael ein monitro yn agosach hefyd yn ystod y pandemig.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Fyddwn i ddim wedi dweud ei fod wedi cael unrhyw effaith ar y gefnogaeth, a dweud y gwir weithiau roedd yn golygu bod mwy o gefnogaeth oherwydd bod ein mentoriaid bron bob amser ar gael ar Zoom, roedd yn golygu yn amlwg nad oeddem yn y swyddfa sy'n amgylchedd gwych i fod, yn enwedig pan fyddwch chi'n cychwyn busnes ond yn ein tîm fe wnaethon ni geisio creu amgylchedd*

> *swyddfa ar Zoom gymaint ag y gallwn, felly er ei fod yn bendant wedi cael ei effeithio, roedd yna fanteision ac elfennau negyddol.*
> **Cyfranogwr Alacrity**

*Effaith COVID-19 ar Fusnesau Corfforedig*

3.38 Ymhlith y rheiny a oedd wedi ymgorffori erbyn adeg y pandemig, cymysg oedd y disgrifiad am yr effaith ar ddatblygiad a chynnydd eu busnes. Roedd anallu i gyfarfod wyneb yn wyneb eto yn achosi rhwystredigaeth i rai ac wedi effeithio ar feithrin ac adeiladu tîm (yn enwedig pan fo staff newydd wedi'u recriwtio), ond nododd eraill fanteision llai o deithio a bod cysylltu â chleientiaid wedi dod yn haws yn ystod y pandemig.

> *Mae wedi gwneud pethe'n haws i ddweud y gwir. Roedd yn rhaid i mi estyn allan at lawer o bobl i geisio cael partner newydd i'r prosiect ac i adeiladu'r rhwydwaith oherwydd yn y bôn roedden ni'n dîm ar y pryd heb unrhyw brofiad cadarn mewn entrepreneuriaeth, dim profiad o farchnadoedd ariannol a doedd gyda ni ddim fawr ddim cysylltiadau chwaith, felly roedd Covid yn ei gwneud yn haws i gyrraedd nifer y bobl yr oedd eu hangen arnom a gwneud y galwadau, gallwn gael tri galwad mewn diwrnod ond fyddwn i ddim wedi gallu teithio i dyweder Llundain, Birmingham a rhywle yng Nghymru i gyd mewn un diwrnod.* **Cyfranogwr Alacrity**

**Cyllid sbarduno**

3.39 Ar ddiwedd y tri cham, bydd cyfranogwyr (graddedigion) rhaglen Alacrity yn ymgorffori eu busnes, sef bod y canlynol yn digwydd:

- Maent yn graddio'n llwyddiannus o'r rhaglen a gynhaliwyd gan Sefydliad Alacrity
- Mae ganddynt gynnyrch neu wasanaeth adnabyddadwy
- Mae ganddynt gwsmer amlwg
- Mae ganddynt lwybr clir i sicrhau refeniw.

3.40 Pan fo'r holl nodweddion hyn oll wedi'u bodloni, gall y timau symud ymlaen i gorffori cwmni newydd, a phenderfynir bryd hynny ar addasrwydd cyllid sbarduno. Yn

seiliedig ar dystiolaeth yn yr adroddiad gwerthuso blaenorol, deellir bod y camau canlynol yn sail i'r penderfyniad i ofyn am gyllid sbarduno:

- **Pennu'r cyfle** – canfod neu asesu cysyniadau penodol gyda darpar gwsmeriaid a phartneriaid strategol a allai fod yn gyfle sylweddol yn y farchnad;
- **Rhoi siâp i'r cyfle** – gweithio gyda'r tîm buddsoddi i roi ffurf ar y cyfle a sefydlu pa mor ymarferol ydyw; ac
- **Yn dilyn cyngor allanol ac adolygiad ffurfiol** – cyflwynir cynllun ffurfiol i'w roi ger bron pwyllgor buddsoddi'r gronfa sbarduno i'w ystyried ac i gymeradwyo cyllid posibl. Os bydd cynigion buddsoddi yn annerbyniol, efallai y caiff y cynllun a'r cynnig buddsoddi eu hadolygu, neu efallai y caiff y timau eu cyfeirio at gyfleoedd posibl eraill. Os derbynnir cynigion, penodir cyfarwyddwyr anweithredol profiadol i'r cwmni sydd newydd ei ariannu.[12]

*Ar ôl corffori busnes*

3.41 Ar ôl corffori, gwahoddir y cwmni newydd i leoli ei hun mewn cyfleusterau deori a gynigir gan Wesley Clover. Cynigir cymorth mentora parhaus ar sail ad hoc drwy arbenigwyr a'r cyfarwyddwyr anweithredol hynny a neilltuwyd iddynt.

3.42 Mae nifer o'r cwmnïau corfforedig wedi gwneud cais am fuddsoddiadau ychwanegol i helpu i ehangu'r cwmnïau hynny sydd â'r rhagolygon twf cryfaf. Mae Banc Datblygu Cymru (BDC) wedi dod i'r amlwg i fod yn fuddsoddwr allweddol ar y cam hwn, ac o'r saith cwmni sydd wedi sicrhau cyllid ychwanegol, deallir bod pedwar wedi sicrhau o leiaf rhywfaint o'r cyllid hwn drwy BDC.

3.43 Yn yr adran ganlynol, byddwn yn bwrw ati i bwyso a mesur y cynnydd, y canlyniadau a'r effeithiau sydd wedi deillio o gymryd rhan yng ngham hwn y rhaglen ar gyfer yr holl gyfranogwyr.

[12] Prifysgol Caerdydd (2015) Adolygiad o Sefydliad Alacrity

# 4. Cynnydd, Perfformiad ac Effaith Alacrity

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r adran hon yn ystyried adborth ansoddol ynghyd â dangosyddion mesuradwy gwahanol yn ymwneud â chynnydd a pherfformiad cynllun Alacrity wrth asesu cynnydd, gwerth ychwanegol ac effaith y rhaglen.

*Barn am ansawdd y cynnydd*

4.2 Cyfeiriodd rhanddeiliaid a chyfranogwyr fel ei gilydd at dystiolaeth o gynnydd ym model cyflawni'r rhaglen. Soniodd cyfranogwyr a oedd wedi'u cofrestru ar garfannau cyn 2020 eu bod wedi sylwi, ar ôl ymwneud â chyfranogwyr y carfannau dilynol, bod y model cyflawni bellach yn fwy strwythuredig ac wedi'i mireinio.

> *Rwy'n meddwl ei fod yn mynd o nerth i nerth, yn sicr fel tîm. Mis Medi 2020/21 oedd [ein] blwyddyn orau eto ac mae pethau'n edrych yn dda iawn. Mae'n ychwanegu gwerth i'r ecosystem ehangach hefyd. Rydyn ni'n gweithio'n effeithiol iawn fel tîm gan ein bod yn wahanol ac amrywiol iawn. Eisiau dal ati i wella.* **Rhanddeiliad**

4.3 Roedd y niferoedd ychwanegol a recriwtiwyd i'r rhaglen (gyda chymorth y buddsoddiad ychwanegol drwy Alacrity C) wedi sicrhau digon o gyfranogwyr ac wedi helpu i leihau lefelau risg sy'n gysylltiedig â phobl yn gadael y rhaglen.

## Dangosyddion meintiol

4.4 Wrth ystyried allbynnau a chanlyniadau gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynllun Alacrity, mae amrywiaeth o ddangosyddion meintiol y gellir eu priodoli i'r ymyriad ac sy'n arddangos taith cyfranogwr a'r theori newid sy'n gysylltiedig â'r rhaglen (fel yr amlinellir yn Ffigwr 2.2). Yn erbyn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi'r ystod gyfyngedig o ddangosyddion perfformiad sydd yn y cytundeb cydweithredol ar gyfer y rhaglen.

## Allbynnau

4.5 O safbwynt allbynnau, nid yw'n glir a yw'r rhaglen wedi ceisio recriwtio targed penodol o gyfranogwyr bob blwyddyn (gall hyn, er enghraifft, gael ei ysgogi gan ansawdd yr ymgeiswyr i'r rhaglen). Fodd bynnag, mae nifer y cyfranogwyr blynyddol wedi cynyddu o 13 ymgeisydd i 18 cyn ehangu i 30 ar gyfer y garfan ddiweddaraf yn

dilyn chwistrelliad o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU a chreu rhaglen Alacrity C (Alacrity Cyber) yn gysylltiedig â hynny (sy'n cyfrif am 12 o'r cyfranogwyr). Felly gallai'r prif ddangosyddion allbwn fel arfer gynnwys:

- Nifer yr ymgeiswyr i raglen Alacrity (i roi ymdeimlad o berfformiad y rhaglen mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, ansawdd yr argraff gyffredinol am y brand/pa mor berthnasol yw'r cynnig a pha mor ymwybodol yw'r farchnad amdani yn fwy cyffredinol)
- Cyfran yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer rhaglen Alacrity (mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod tua 70-80 y cant o ymgeiswyr yn cael lle ar y rhaglen, fodd bynnag deellir bod proses hidlo cynnar yn digwydd cyn cyfrifo'r ffigur hwn).
- Nifer yr ymgeiswyr sy'n dechrau ar raglen Alacrity (deallir mai ychydig iawn o gyfranogwyr sy'n rhoi'r gorau iddi cyn i'r rhaglen gychwyn, ar ôl iddynt gael eu dewis i'r rhaglen).

4.6 Ffactor allweddol sy'n sail i lwyddiant y rhaglen yw ansawdd yr heriau/cyfleoedd a ddefnyddir ar y rhaglen a'r cymorth, mewnwelediad a rhwydweithiau cysylltiedig a gyflwynir drwy dîm y rhaglen, ei mentoriaid a'r partneriaid strategol. Gallai dangosyddion perfformiad fel arfer gynnwys patrymau/tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Nifer yr heriau a gyflwynir i'r rhaglen (ar gyfer pob carfan)
- Nifer y mentoriaid sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- Nifer yr oriau o gefnogaeth mentor a roddwyd i'r rhaglen (cyfraniadau wedi'u rhoi ac wedi'u prynu)
- Nifer y partneriaid strategol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- Nifer yr oriau o gefnogaeth partneriaid strategol a roddwyd i'r rhaglen (cyfraniadau wedi'u rhoi ac wedi'u prynu)

4.7 Nid yw cyllidwyr y rhaglen wedi gofyn am gasglu'r data hwn, ond mae'n debygol y gallai tîm Alacrity lunio fframwaith o'r dystiolaeth hon neu o leiaf ei chasglu yn y dyfodol pe bai Llywodraeth Cymru yn dymuno darparu cyllid parhaus i'r rhaglen ac am fonitro'r elfennau hyn.

**Deilliannau**

4.8 Mae deilliannau'r rhaglen, fel dangosyddion canlyniadau, yn tueddu i gael eu gweld tuag at gamau olaf taith cyfranogwr drwy Alacrity. Maent yn cynnwys ystyried y gyfradd sy'n gadael y rhaglen gan fod hynny'n rhoi ymdeimlad o lwyddiant y prosesau recriwtio a phennu timau. Wrth adolygu'r wybodaeth reoli a ddarparwyd gan Alacrity, cyfradd gadael y rhaglen yw 35 y cant (25/71) yn seiliedig ar ddadansoddi teithiau cyfranogwyr a recriwtiwyd o 2015/16 hyd at 2019/20.

4.9 Dangosydd cysylltiedig yw nifer y cyfranogwyr ac/neu nifer y timau sy'n graddio yn y pen draw o bob carfan y rhaglen. Ymhellach, mae nifer y cyfranogwyr sy'n graddio ac yn aros ymlaen i gorffori cwmni gyda'u tîm yn ddangosydd allweddol arall o lwyddiant. O'r 46 o gyfranogwyr (65 y cant) a gwblhaodd y rhaglen, corfforodd 32 ohonynt (70 y cant) gwmni yn gysylltiedig ag Alacrity.

*Deilliannau yn ôl math o gyfranogwr*

4.10 O'r 111 o ymatebwyr yn y wybodaeth reoli a gedwir gan Alacrity, nododd 21 (19 y cant) ohonynt eu bod yn fenyw tra dywedodd 17 (15 y cant) ohonynt eu bod o darddiad Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Roedd data canlyniadau ar gyfer menywod (o ran cyfraddau cwblhau'r rhaglen) yn debyg iawn i'r rheini ar gyfer yr holl gyfranogwyr, gyda 67 y cant yn cwblhau'r rhaglen o gymharu â 64 y cant yn gyffredinol (heb gyfrif y rhai a arhosodd ar y rhaglen). Fodd bynnag, i'r rheiny o darddiad Du neu leiafrif ethnig, roedd cyfraddau cwblhau yn llai na hanner y rhai ar draws y rhaglen (31 y cant). Mae'n bosibl bod y cyfraddau hyn wedi dod dan ddylanwad heriau yn ymwneud â fisâu er enghraifft (fel y soniodd un cyfwelai o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig) gyda dau gyfranogwr a oedd yn byw dramor cyn cofrestru heb gwblhau'r rhaglen.

4.11 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ymatebodd i'r cyfweliadau manwl ac nad oeddent wedi corffori cwmni drwy Alacrity, beth oedd wedi arwain at iddynt adael y rhaglen yn gynnar. Roedd un unigolyn wedi cael cynnig swydd gan sefydliad arall ac roedd amgylchiadau personol dau gyfranogwr arall wedi newid a hynny wedi arwain atynt yn gadael yn gynnar.


4.12 Waeth beth fo'u cyrchfan, caiff cyfranogwyr Alacrity gymorth dwys dros gyfnod o 15 mis. Maent felly wedi cael ystod o sgiliau ac arbenigedd a ddylai arwain at ddechrau gyrfa a allai ddatblygu'n gyflym, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn

unrhyw fusnes y maent yn gweithio iddo. Byddai deall y gwerth ychwanegol iddynt hwy a'r rhai o'u cwmpas, o ystyried dwyster y cymorth a gawsant, yn rhoi cipolwg defnyddiol ar ganlyniadau ehangach yr hyfforddiant a chymorth sy'n deillio o raglen Alacrity.

**Datblygu Sgiliau**

4.13 Er mwyn pennu pa sgiliau ac arbenigedd ychwanegol a gafwyd wrth gymryd rhan yn rhaglen Alacrity, gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau y teimlent eu bod wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau drwy gymryd rhan yn y rhaglen. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn gyntaf am y set sgiliau ymhlith eu tîm ac a oedd ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ffurfio busnes ar ddechrau'r rhaglen ac wedyn ar ei diwedd. Mae Ffigur 4.1 isod yn dangos bod lleiafrif yr ymatebwyr (saith) yn teimlo bod ganddynt yr arbenigedd angenrheidiol i ffurfio busnes ar ddechrau'r rhaglen. Codai'r ffigur hwnnw i 23 o ymatebwyr wrth ystyried sefyllfa'r tîm ar ddiwedd y rhaglen gyda gweddill yr ymatebwyr o'r farn fod gan eu tîm y sgiliau i ffurfio busnes i ryw raddau.

**Ffigur 4.1: Ydych chi'n teimlo bod gan eich tîm y sgiliau angenrheidiol (ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen) i ffurfio busnes?**




4.14 Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oedd eu sgiliau wedi datblygu drwy gymryd rhan yn Alacrity, gan eu holi drwy ddefnyddio cyfres o ddatganiadau. Cyflwynir eu hadborth yn Ffigur 4.2 isod ac mae'n dangos drwy gymryd rhan yn Alacrity bod yr holl ymatebwyr wedi meithrin sgiliau ar gyfer dechrau busnes, cyflwyno cynnig am fuddsoddiad, cynnal ymchwil cynnyrch a rhedeg cwmni.

**Ffigur 4.2: I ba raddau ydych chi'n teimlo eich bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol trwy gymryd rhan yn y rhaglen?**




N=33

4.15 Pan ofynnwyd pa sgiliau eraill yr oedd cyfranogwyr wedi'u datblygu drwy'r rhaglen, cyfeiriodd 18 o'r 33 o ymatebwyr at sgiliau technegol/codio gwell, a chyfeiriodd 15 o ymatebwyr at sgiliau meddalach yn ymwneud â hyder a chyfathrebu a soniodd saith ymatebwr arall am sgiliau gweithio mewn tîm.

*Sgiliau personol fe gredaf, fel y sgiliau meddal sydd eu hangen wrth reoli timau a sgiliau llif gwaith (sut i wneud y gwaith yn fwy effeithlon trwy brosesau) a sgiliau marchnata. Rwyf hefyd yn teimlo bod fy sgiliau gwerthu wedi esblygu a bod fy sgiliau rheoli rhanddeiliaid wedi gwella – i gadw buddsoddwyr yn hapus ac i barhau i ennyn eu diddordeb.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Rwy'n meddwl ei fod wedi fy ngorfodi i fod ychydig yn llai mewnblyg, pan fyddaf yn mynd i ddigwyddiadau, rwy'n gorfodi fy hun i siarad â mwy o bobl nad ydw i erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen.*
**Cyfranogwr Alacrity**

*Sgiliau rhyngbersonol cyffredinol, yn enwedig o ran cyfarfod â gweithwyr proffesiynol blaenllaw ym myd busnes, partneriaid strategol a chael rhyngweithio â nhw – mae'r rhain yn bethau dydw i erioed wedi'i wneud o'r blaen, felly mae cael rhyngweithio â phobl na fyddwn fel arfer wedi cysylltu â nhw. Hefyd, perthynas ryngbersonol gyda fy nhîm, doeddwn i erioed wedi bod yn rhan o dîm o 4-5 ac yn gweithio tuag at yr un nod ac yn dibynnu ar ein gilydd.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Mae fy sgiliau cyflwyno yn llawer gwell, fy hyder, siarad cyhoeddus, y gallu i rwydweithio a gallu dod o hyd i bobl a allai eich helpu.* **Cyfranogwr Alacrity**

4.16 Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw sgiliau y teimlent cyn Alacrity yr hoffent fod wedi'u datblygu ond na chawsant y cyfle, dywedodd 13 o ymatebwyr nad oeddent yn meddwl hynny, a chyfeiriodd pum ymatebwr at sgiliau busnes cyffredinol ychwanegol, cyfeiriodd pump o ymatebwyr at ddenu/cynyddu buddsoddiad neu gyflwyno eu cynnyrch/gwasanaeth (sy'n awgrymu o ystyried Ffigur 4.2 bod nifer yn teimlo y gellid gwella'r sgiliau a gawsant yn y maes hwn) a soniodd pedwar ymatebydd arall am sgiliau codio mwy datblygedig.

**Sefyllfa'r graddedigion**

4.17 Holwyd y cyfranogwyr a ymatebodd i'r arolwg am eu sefyllfa bresennol. Mae Tabl 4.1 isod yn dangos bod 16 o'r 33 o ymatebwyr (48 y cant) yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan y busnes a gorfforwyd ganddynt drwy raglen Alacrity, mae deg wedi'u cyflogi yn rhywle arall ac mae dau yn ddi-waith ar hyn o bryd. O'r 14 o ymatebwyr a oedd wedi cwblhau'r rhaglen ond nad oeddynt bellach yn gysylltiedig â busnes corfforedig, roedd hanner wedi corffori busnes drwy Alacrity. Roedd yr ymatebwyr hyn wedi gadael y swyddi am wahanol resymau, ond roedd dau wedi dweud eu bod wedi gadael oherwydd y straen a'r effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl o weithredu eu busnes. Nododd dau ymatebwr arall anallu i gael cyllid i gynnal eu busnes.

*Roedd yn benderfyniad ofnadwy o anodd, ond mi wnes i gamu i ffwrdd o'r busnes. Y prif reswm oedd diffyg cymorth ariannol; rydych yn cael y 250k hwnnw sy'n anhygoel pan fyddwch mor ddibrofiad ag yr oedden ni. Aeth yr arian hwnnw ond doedden ni byth yn gallu cael y buddsoddiad mawr nesaf hwnnw i wir gael y busnes i fynd.*
**Cyfranogwr Alacrity**

**Tabl 4.1: Sefyllfa bresennol cyfranogwyr Alacrity**

| Beth yw eich sefyllfa ar hyn o bryd? | N |
|---|---|
| Wedi fy nghyflogi yn y busnes a gorfforwyd gennyf trwy raglen Alacrity | 16 |
| Wedi fy nghyflogi mewn busnes nad yw'n gysylltiedig ag Alacrity | 10 |
| Mewn addysg/hyfforddiant llawn amser | 1 |
| Yn ddi-waith, yn chwilio am waith | 2 |
| Rhywbeth arall / dim un o'r uchod (wedi'u cyflogi gan Alacrity) | 1 |
| Yn dal ar raglen Alacrity | 3 |

N = 33

### Lleoliad Graddedigion Alacrity

4.18 Ar ôl cymhwyso unigolion drwy gymorth dwys â chyfres o sgiliau, un o amcanion allweddol rhaglen Alacrity yw cadw'r wybodaeth a'r arbenigedd a ddatblygwyd drwy'r rhaglen yng Nghymru. O ran y busnesau corfforedig sy'n cael cyllid sbarduno mae'n ofynnol iddynt aros yng Nghymru yn unol â'r contract, fodd bynnag risg fawr yw bod y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen wedyn yn symud allan o Gymru (os nad ydynt yn corffori busnes neu'n gadael y busnes hwnnw maes o law). Er mwyn archwilio'r tebygolrwydd o adleoli, gofynnwyd i gyfranogwyr ble maent wedi'u lleoli ar hyn o bryd.

4.19 Arhosodd 24 (73 y cant) o'r 33 o ymatebwyr yng Nghymru sy'n dangos lefel gymharol uchel o gadw graddedigion yng Nghymru. Roedd ymatebwyr a oedd yn gweithio gyda busnes a gorfforwyd drwy raglen Alacrity yn fwy tebygol o fod wedi adleoli y tu allan i Gymru na'r rhai nad oedd ganddynt fusnes corfforedig mwyach (mae 31 y cant o'r rhai mewn busnes corfforedig gydag Alacrity yn byw y tu allan i Gymru o gymharu â 24 y cant o raddedigion Alacrity nad ydynt gyda busnes corfforedig). Mae hyn efallai'n adlewyrchu'r ffaith fod gallu gweithio o bell yn golygu

fod gan weithwyr fwy o hyblygrwydd o ran ble maent wedi'u lleoli a bod Casnewydd yn agos at y ffin â Lloegr, a'i bod yn gwbl ymarferol i staff gymudo i mewn o Loegr.

4.20 Cyflwynir dadansoddiad pellach o leoliad cyfranogwyr ac unrhyw adleoli yn Nhabl 4.2 isod. Yn seiliedig ar y cyfranogwyr a gyfwelwyd, nid oedd chwech o'r 12 a oedd yn byw y tu allan i Gymru cyn cofrestru ar y rhaglen, ar adeg y cyfweliad, bellach yng Nghymru. O'r saith a oedd yn byw yng Nghymru wrth astudio yn y brifysgol, roedd pump wedi aros yng Nghymru tra bod 13 o'r 14 a oedd yn byw'n barhaol yng Nghymru ar adeg ymuno â'r rhaglen, yn dal yn byw yno, a'r rhain yn ddangosyddion cryf o gadw graddedigion.

**Tabl 4.2: Lleoliadau cyfranogwyr Alacrity adeg cofrestru ac ar hyn o bryd**

| Yn byw yng Nghymru adeg cofrestru | Lleoliad presennol | | |
|---|---|---|---|
| | Cymru | Lloegr | Dramor |
| Oedd – llawn amser | 13 | 1 | 0 |
| Oedd – wrth astudio/yn y brifysgol | 5 | 2 | 0 |
| Nac oedd | 6 | 5 | 1 |

**'Ymadawyr' Alacrity – cyrchfan o ran swyddi**

4.21 O'r cyfranogwyr hynny a oedd wedi yn rhan o'r gwerthusiad nad oeddynt wedi corffori busnes, roedd pawb a oedd yn gweithio'n llawn amser wedi cael rôl y gellid ei chategoreiddio wrth ddefnyddio SOC[13] i fod yn alwedigaeth broffesiynol ac yn bennaf mewn rolau rheoli neu uwch reolwyr. Roedd ymatebwyr yn gweithio yn y rolau canlynol ac mae'n dangos pa mor amlwg oedd swyddi peirianneg meddalwedd ymhlith yr ymatebwyr:

- Prif Ddatblygwr Meddalwedd; (yn rheoli tîm o 4-5 datblygwr).
- Rheolwr Peirianwyr Meddalwedd
- Peiriannydd Meddalwedd HEO (Uwch Swyddog Gweithredol)
- Peiriannydd mecanyddol
- Rheolwr Dylunio UXUI
- Uwch Beiriannydd Meddalwedd
- Rheolwr Cynnyrch
- Peiriannydd PHP
- Cydymaith Ymchwil
- Peiriannydd Meddalwedd Iau

[13] Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol

4.22 Pan ofynnwyd i ba raddau yr oedd y gefnogaeth a'r profiad a gafodd cyfranogwyr drwy Alacrity wedi dylanwadu arnynt i gael y rôl honno a'u cynnydd yn eu gyrfa yn fwy cyffredinol, teimlai saith o'r deg bod y dylanwad 'i raddau helaeth', tra dywedodd un 'i raddau' (a dau wedi dweud dim dylanwad o gwbl). Roedd rhai o'r sylwadau gan y rhai a'i disgrifiodd 'i raddau helaeth' wedi cynnwys:

> *Mi wnaeth roi'r sgiliau i mi allu cael y swydd yn y lle cyntaf a'r hyder i allu bod yn aelod gwerthfawr o'r tîm a pheidio â theimlo y byddwn i'n dod allan o'r brifysgol heb fawr o brofiad, yr holl brofiad cyflwyno syniadau wedi rhoi'r hyder i mi gyfrannu mwy o fewn y rôl a chreu fy rôl fy hun.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Roedd Alacrity yn drobwynt, roedd yn edrych yn wych ar y CV ac mi roddodd brofiad i mi gan fy helpu i weld ble mae fy nghryfderau a beth sy'n mynd â'm bryd. Fe roddodd gyfle i mi drosglwyddo fy sgiliau o ddylunio diwydiannol i ddylunio cynnyrch digidol. Mi roddodd ymwybyddiaeth o godio i mi sydd yn ei dro yn fy ngalluogi i sgwrsio â Datblygwyr sy'n rhan hanfodol o fy rôl bresennol.*
> **Cyfranogwr Alacrity**

> *Oherwydd y profiad hwnnw o ddechrau busnes, os ydych chi'n cymharu blwyddyn a hanner o brofiad dechrau busnes â blwyddyn a hanner o brofiad graddedigion, mae'n gwneud gwahaniaeth mawr a hefyd ar ôl byw mor ddwys â hynny ac ymwneud â'r amrywiaeth o rolau mae hynny'n rhoi meddylfryd ychydig yn wahanol i chi. Dechreuais gyda [fy nghwmni presennol] 2 fis yn ôl ac rydw i eisoes yn edrych ar ddyrchafiad neu ddau ddyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn ac rydw i'n edrych ar ba bobl rydw i eisiau dod â nhw i mewn i fusnes newydd cynaliadwy.* **Cyfranogwr Alacrity**

4.23 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu henillion yn y rôl hon, roedd naw o'r deg ymatebydd yn fodlon rhoi manylion am eu cyflog. Mae'r cyflogau wedi'u meincnodi yn erbyn cyflogau'r myfyrwyr hynny wnaeth radd ôl-raddedig mewn cyfrifiadureg ac a raddiodd yn 2017/18 (i fod yn gymharydd procsi eang â'r rhai sy'n cymryd rhan yn

Alacrity) ac yna fe'u holwyd 15 mis yn ddiweddarach yn 2020.[14] Ymysg data HESA, roedd 22 y cant o'r myfyrwyr, 15 mis ar ôl cwblhau eu gradd ôl-raddedig, yn ennill mwy na £39,000. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg, graddiodd tri o'r naw ymatebwr o raglen Alacrity cyn 2019 ac felly maent wedi cael llawer mwy o amser i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd na'r rhai sy'n cael eu casglu trwy ddata HESA, ac felly maent wedi'u dileu o'r ymchwiliad penodol hwn. O'r chwech ar ôl a ddatgelodd eu henillion, enillai tri fwy na £39,000. Ymhellach, roedd pob unigolyn o raglen Alacrity yn ennill mwy na £30,000 tra bod 45 y cant o'r grŵp cymhariaeth yn ennill dros £30,000. Awgryma'r data felly (hyd yn oed wrth ystyried effeithiau chwyddiant rhwng 2020 a'r cyfnod cynnal y gwaith maes ar Alacrity yn gynnar yn 2022) bod gan y rhai sydd wedi cymryd rhan yn Alacrity botensial enillion uwch nag unigolion a wnaeth radd ôl-raddedig mewn cyfrifiadureg. Fodd bynnag, mae nifer fach yr achosion sydd ar gael ar gyfer cymharu'r dystiolaeth yn golygu y dylid trin y data hwn yn ofalus.

**Busnesau wedi'u corffori**

4.24 Nifer y busnesau a gorfforwyd drwy raglen Alacrity yw'r dangosydd cyffredinol sydd yn y cytundeb cydweithredu. Mae'r cytundeb yn cyfeirio at gorffori tri busnes y flwyddyn er bod sawl rhanddeiliad wedi cyfeirio at darged o ddau fusnes y flwyddyn. Rhwng 2016-21 corfforwyd chwe busnes sy'n is na'r targed. Fodd bynnag, ar adeg yr ymchwil roedd disgwyliadau am gynnydd sylweddol yn nifer y busnesau corfforedig o fewn carfan 2021-22 gyda phum corfforiad yn yr arfaeth (deallir bod pedwar o'r garfan hon wedi'u corffori yn y pen draw). Archwilir hyn ymhellach yn yr asesiad ar y gwerth am arian yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

*Ceisiadau am gyllid sbarduno*

4.25 Gellid ystyried nifer y ceisiadau llwyddiannus am gyllid sbarduno (a maint neu werth cysylltiedig y cyllid sbarduno a fuddsoddir mewn cwmnïau corfforedig) fel dangosydd perfformiad allweddol; fodd bynnag, deellir bod cyllid sbarduno gan Lywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i'w roi i ddau gwmni corfforedig y flwyddyn. Cyn 2021 roedd y lefel hon o gyllid sbarduno wedi bod yn ddigonol gan fod nifer y corfforiadau fel arfer wedi bod yn is na'r dyraniad blynyddol hwnnw; fodd bynnag, ar adeg y gwerthusiad, rhagwelwyd y byddai pum corfforiad cwmni (cafodd pedwar eu

[14] HESA (2020) *Graduate Destinations, Graduate Outcomes Survey*, Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

corffori yn y pen draw) drwy garfan 2021/22, a phob un ohonynt yn gymwys am y cyllid sbarduno.

4.26 Pan oedd cyfranogwyr y cyfweliadau manwl wedi sicrhau cyllid sbarduno ar gyfer eu busnes, gofynnwyd iddynt pa rôl yr oedd y cyllid hwnnw wedi'i gael ar ddatblygiad y busnes. Defnyddiodd deg o'r ymatebwyr gyllid sbarduno i dalu cyflogau neu gyflogi staff, defnyddiodd dau ohonynt y cyllid i ddatblygu cynnwys ar gyfer eu busnes a chyfeiriodd dau ymatebwr at ddefnyddio'r cyllid sbarduno i dalu am ofod swyddfa neu offer. Holwyd yr ymatebwyr ynghylch y goblygiadau pe na bai cyllid sbarduno wedi bod ar gael iddynt; teimlai dros hanner (8/15) na fyddent wedi gallu sefydlu'r busnes tra bod pump o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r busnes wedi cael ei roi i'r naill ochr fel menter er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar sicrhau incwm digonol i fyw, gan leihau'r momentwm neu oedi twf y busnes hwnnw.

*Lleoliad ar ôl corffori cwmni*

4.27 Ar ôl eu corffori mae'r rhan fwyaf o fusnesau wedi'u lleoli naill ai yng Nghasnewydd neu Gaerdydd. Mae naw o'r ymatebwyr wedi lleoli eu busnes yng Nghanolfan Arloesedd Wesley Clover sy'n dangos pwysigrwydd y cyfleuster hwn fel gofod deor cychwynnol i'r busnesau sydd newydd eu sefydlu. Disgrifiodd yr ymatebwyr sut yr oedd y ganolfan wedi bod yn fanteisiol iddynt gan ei bod yn cynnig cyfleuster rhent am ddim neu am bris gostyngol ac i'r rheiny sydd wedi'u lleoli yn y ganolfan neu yn ehangach yng nghyffiniau Casnewydd, disgrifiwyd y fantais o fod yn agos at dîm Alacrity.

4.28 Soniodd y cyfranogwyr fod y rhwydweithio a'r cymorth mentora parhaus sydd ar gael iddynt ers corffori'r busnes fel y rhai sydd fwyaf gwerthfawr iddynt.

> *Yn bendant y cyfarfodydd misol a gawn gyda'n cadeirydd (pennaeth Alacrity); mae e'n ein helpu gyda chysylltiadau yn y diwydiant, ac mae ganddo syniadau cyfredol. Rydym yn chwilio am aelod bwrdd ac mae'r broses hon o ddod o hyd i aelod bwrdd a'i ddenu atom wedi mynd yn dda iawn (hyd yn hyn) diolch iddo ef.* **Cyfranogwr Alacrity**
>
> *Cyflwyniadau i fuddsoddwyr. Mae Wesley Clover yn edrych i dynhau buddsoddiad felly rydym yn edrych i ddenu buddsoddwyr newydd – os oes buddsoddwr posibl yn ymweld â Wesley Clover neu'n delio â nhw, byddant yn trefnu cyflwyniad i ni.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Y rhwydwaith o gysylltiadau yn bendant yw'r pennaf yn ogystal â'r cyngor cyffredinol ar wahanol gyfleoedd buddsoddi yr ydym wedi dod ar eu traws ers ymgorffori, hefyd y recriwtio a chyflogi a sut i gyfweld â phobl a rhywfaint o arweiniad technegol gan rai o'r mentoriaid hefyd ac ar ein strategaeth a'n gwerthiant hefyd.* **Cyfranogwr Alacrity**

4.29 Ni allai ymatebwyr feddwl am fawr ddim y gellid ei wella arno o ran cymorth ar ôl corffori, ond cyfeiriodd pedwar ymatebwr at sut y byddai cymorth gweinyddol yn debygol o fod o ddefnydd arbennig.

4.30 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi corffori busnes pwy oedd eu prif gwsmeriaid a beth oedd rôl Alacrity wrth sicrhau'r rhain. Dywedodd deg o'r 16 o ymatebwyr fod y cyflwyniad cychwynnol i'w prif gwsmeriaid wedi bod drwy dîm Alacrity, gan ddangos unwaith eto bwysigrwydd eu rôl.

*Rhagolygon twf*

4.31 Mae'r rheiny sy'n goruchwylio busnesau corfforedig yn arbennig o uchelgeisiol ac optimistaidd am ragolygon twf yn y dyfodol, waeth pa gam y maent ynddo o ran y gweithredu ar ôl corffori.

> *Yn dibynnu ar pryd y daw ein buddsoddiad i mewn, daw ein blwyddyn ariannol i ben ym mis Hydref felly os daw'r cyllid i mewn cyn diwedd mis Mai, byddwn yn edrych i luosi ein refeniw rhwng 1.5 a 2 waith.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Ein cynllun busnes gwreiddiol oedd cael deg cleient erbyn diwedd 2022; mae gennym bedwar cysylltiad da ar y gweill, ac rwy'n hyderus y bydd gennym y deg erbyn diwedd 2022.* **Cyfranogwr Alacrity**

> *Dim gwerthiannau'r llynedd, rydym yn bwriadu cael dau gwsmer yn ôl yr hyn a ragwelir eleni gyda'r gobaith y gallwn wthio hynny ymhellach a chael tri neu bedwar.* **Cyfranogwr Alacrity**

4.32 Roedd ymatebwyr busnesau corfforedig yn ymwneud â chwmnïau a oedd gyda'i gilydd (ar adeg y cyfweliad) yn cyflogi 40 aelod o staff. Pan ofynnwyd iddynt am eu targedau yn eu blwyddyn ariannol gyfredol mewn perthynas â chyflogaeth, gyda'i gilydd roeddent yn disgwyl cyflogi 20 o staff ychwanegol – cynnydd o 50 y cant ar lefelau cyflogaeth presennol. Pe bai'r disgwyliadau twf hyn yn cael eu hallosod ar draws yr holl fusnesau corfforedig byddai hyn yn cynrychioli creu (yn seiliedig ar ffigurau cyflogaeth a adroddwyd gan Alacrity) 32 o swyddi pellach dros y 12 mis nesaf.

4.33 Yn ogystal â thwf mewn cyflogaeth, ar ôl corffori mae cyfres o ddangosyddion canlyniadau y gellid eu defnyddio i asesu cynnydd a pherfformiad busnesau a grëwyd drwy'r cynllun. Mae metrigau perfformiad arferol sy'n gysylltiedig â throsiant (gwerthiannau) ac elw i gyd yn ddangosyddion canlyniad allweddol i'w hystyried. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion hyn wedi'u cyfyngu gan natur cyfnod cynnar y busnesau hyn (er enghraifft, mae'n bosibl y bydd elw yn cael ei hepgor ar draul buddsoddi a thwf).

4.34 Ymhellach, yn sgil y nod o hybu twf, sicrhau ail rownd a rowndiau dilynol o fuddsoddi, mae maint y buddsoddiad hwnnw a'r prisiad cwmni a awgryma'r buddsoddiad hwnnw ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar dwf yn cynnig meincnod gwrthrychol o werth cwmni. Mae maint y buddsoddiad hefyd yn dangos barn darpar fuddsoddwyr am ddichonoldeb masnachol a rhagolygon twf y busnes corfforedig.

4.35 Wedi dweud hynny, un o brif amcanion y rhaglen ac yn enwedig yng nghyd-destun cynnal rhaglen Alacrity mewn modd nad oes angen cyllid sector cyhoeddus mwyach yw sicrhau bod cwmnïau yn gadael, h.y. yn cael eu gwerthu. Byddai nifer y cwmnïau sy'n gadael, a'u gwerth, felly yn cynnig dangosyddion allweddol o gynnydd a llwyddiant.

**Adfyfyriadau (rhanddeiliaid a chyfranogwyr)**

4.36 Wrth adfyfyrio ar y model cyflawni, cafwyd barn am ei brif gryfderau gan y rheiny a gymerodd rhan yn y gwerthuso. Soniodd rhanddeiliaid am y fantais o fedru ymwneud â graddedigion diweddar sydd wrthi'n dysgu arferion neu ddulliau gweithredu a ddaw trwy gael profiad masnachol, ac yna cael bod yn dyst i ba mor gyflym yw eu cynnydd yn hyn o beth.

4.37 Soniodd sawl rhanddeiliad am gryfder llywodraethu ac arweinyddiaeth y rhaglen a'r angerdd sy'n bodoli ymhlith y tîm arwain i wneud Alacrity yn llwyddiant. Soniodd eraill am ansawdd y partneriaid allanol a'r mentoriaid allanol sydd wedi'u denu i'r rhaglen a'r sgiliau a'r rhwydweithiau y maent yn eu cyfrannu at gynllun Alacrity. Wedi dweud hynny, teimlai un rhanddeiliad y gellid cael gwell strwythur a threfn ar yr ymgysylltu â phartneriaethau ac y byddai gwaith pellach ar ansawdd y partneriaid hyn yn gwneud y rhaglen yn fwy deniadol i ddarpar ymgeiswyr. Cyfeiriodd eraill at sut y mae'r rhaglen wedi datblygu i gael natur strwythuredig a'r gwelliannau parhaus i'r model gweithredu.

4.38 Wrth ystyried meysydd i'w gwella, un o'r heriau a nodwyd gan sawl rhanddeiliad oedd parhad a maint y cyllid ar gyfer y rhaglen. Un o nodau allweddol y rhaglen yw gwella'r cynnig ariannu ac amrywio ffynhonnell y cyllid hwnnw. Mae hyn wedi dechrau dwyn ffrwyth drwy gael mynediad at gyllid drwy Lywodraeth y DU a thrwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Fodd bynnag, nododd un rhanddeiliad mai'r risg sy'n gysylltiedig â mynd ar drywydd ffynonellau cyllid lluosog yw bod hyn yn dylanwadu ar ethos craidd a model gweithredu Alacrity.

4.39 Erys pryderon ymhlith rhanddeiliaid am broffil Alacrity a'r angen i'w godi. Roedd cydnabyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid bod hyn wedi gwella'n ddiweddar ond roedd pryderon yn parhau o ystyried pa mor unigryw yw'r model o ran sut y gellid marchnata a hyrwyddo'r arlwy sydd ganddo. Yn yr un modd, croesawodd rhanddeiliaid ymdrechion i ymwreiddio Alacrity fwyfwy yn yr ecosystem cymorth busnes ehangach yng Nghymru ac i fanteisio mwy ar gyn-fyfyrwyr Alacrity. Cynhaliwyd nosweithiau cymunedol gan gael cyflwynwyr allweddol ynddynt ar themâu penodol y ddwyn ynghyd gwmnïau a graddedigion Alacrity â busnesau allanol.

4.40 Teimlai un rhanddeiliad hefyd efallai fod cyfleoedd i gynyddu cysylltiadau â Sefydliadau Addysg Uwch eraill ledled Cymru.

4.41 Ymhlith y cyfranogwyr, pan ofynnwyd iddynt am welliannau i'r rhaglen, cyfeiriodd saith o ymatebwyr at yr angen i wella'r hyfforddiant technegol a gynigir.

> *Rwy'n credu y gellid gwella'r cymorth technegol o ran hygyrchedd a bod yn fanylach, mae dysgu codio yn eithaf dwfn a heriol felly angen*

*ychydig mwy o gefnogaeth yn gysylltiedig â hynny.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Mwy o gefnogaeth dechnegol yn fewnol, pe bai cangen ddatblygu i Alacrity a oedd yn helpu i lunio tudalennau cynllunio neu gydag adolygiadau codio cyson, rwy'n meddwl y byddai rhywbeth fel hyn yn ddefnyddiol iawn.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Mwy o fentoriaeth dechnegol yn fy marn i – mae gyda chi'r 5 wythnos gychwynnol yn y bŵt-camp technegol gyda Nathan, mae e'n athro eithriadol, ond dydych chi ddim yn cael llawer ar ôl hynny. Does dim cefndir technolegol gyda'r un o'r tîm arwain felly byddai'n dda cael rhywun parhaol.* **Cyfranogwr Alacrity**

4.42 Cyfeiriodd pedwar ymatebwr arall at fwy o gefnogaeth yn gyffredinol ac yn arbennig felly gan fentoriaid (yn bennaf y rhai allanol):

*Rwy'n meddwl ei bod yn fater o gael yr ehangder hwnnw o ran mentoriaeth felly rwy'n meddwl y dylid cael rhagor o fentoriaid.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Rwy'n meddwl bod angen mwy o gefnogaeth a strwythur yn y rhan partneriaeth prosiect – mwy o ymrwymiad gan y partneriaid a mwy o bartneriaethau ar gael i'r garfan.* **Cyfranogwr Alacrity**

4.43 Roedd awgrymiadau eraill yn eang eu cwmpas gan gynnwys cynyddu'r tegwch/mwy o eglurder ar degwch i gyfranogwyr gan ddau ymatebwr (a ailadroddwyd gan sawl rhanddeiliad), mwy o gefnogaeth ar ôl corffori cwmni gan dri ymatebwr ac ystyried y rôl a'r berthynas rhwng Alacrity a Wesley Clover gan dri ymatebydd, tra bod pedwar ymatebydd wedi methu meddwl am unrhyw ffordd y gellid gwella'r cynnig.

4.44 Cynigiodd sawl ymatebwr rywfaint o adborth terfynol ar y rhaglen hefyd:

*Mae'n rhaglen wych iawn, pan es i drwyddi (2018) roedden nhw'n amlwg yn mynd trwy gyfnod o newid. O'r hyn rwy'n ei ddeall nawr yn*

*ystod ein criw ni a’r garfan ar ein holau, roedd Alacrity yn dal i fireinio’r rhaglen ac rwy’n clywed ei bod yn llawer gwell y dyddiau hyn.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Mae wedi bod yn broses sydd wir wedi agor fy llygaid, rydw i wedi dysgu llawer drwyddi ac o ganlyniad i’r profiad yn y flwyddyn a hanner diwethaf rydw i wedi dod yn berson hollol wahanol.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Rwyf wedi ei weld yn dod yn ei flaen yn aruthrol ac mae Alacrity yn newid mwy tuag at fod yn rhaglen academaidd debyg i radd meistr, a hynny’n beth da. Roeddwn yn yr adeilad y diwrnod o’r blaen – y tro cyntaf ers y cyfnod clo – ac mae wir wedi newid, roedd y ffactor ‘waw’ ganddo.* **Cyfranogwr Alacrity**

*Rwy’n meddwl ei bod yn wych bod Alacrity yn denu busnesau i sefydlu yng Nghymru ac yn annog unigolion i fyw yn y wlad hon a chyfrannu at economi Cymru. Wrth edrych yn ôl roedd yn llwyddiant ysgubol i mi, er nad es i ymlaen i sefydlu busnes, rydw i mewn sefyllfa dda ac rydw i’n gwneud rhywbeth rydw i’n ei garu ac mae hynny wedi deillio o fy ymwneud ag Alacrity. Pe bawn i byth yn mynd ati i sefydlu fy musnes fy hun a dilyn y llwybr entrepreneur eto, byddaf yn bendant yn defnyddio’r sgiliau busnes a’r sgiliau codio a ddysgais yn Alacrity.* **Cyfranogwr Alacrity**

# 5. Asesu Gwerth am Arian


### Cyflwyniad

5.1 Canlyniad allweddol o gam cwmpasu'r gwerthusiad oedd asesiad manwl ar werth am arian y rhaglen.

5.2 Aethpwyd ati i asesu Gwerth am Arian drwy nifer o ddulliau gan gynnwys defnyddio dull y tair E (ac yn arbennig cost-effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd Alacrity) fel y'i defnyddir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac fel y nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r tair E yn cyfeirio at y canlynol:

- **Economi**: lleihau cost yr adnoddau a ddefnyddir neu sydd eu hangen (mewnbynnau)
- **Effeithlonrwydd**: y berthynas rhwng allbwn y nwyddau neu wasanaethau a'r adnoddau i'w cynhyrchu
- **Effeithiolrwydd**: y berthynas rhwng y canlyniadau bwriadedig a'r rhai gwirioneddol yn erbyn gwariant

**Ffigur 5.1: Dull Gwerth am Arian**




5.3 Mae'r asesiad wedi pwyso'n helaeth ar adroddiad a luniwyd gan dîm Alacrity[15] sydd wedi'i arfarnu yn rhan o'r broses hon. Mae'r asesiad hefyd wedi nodi meysydd i ymchwilio ymhellach iddynt er mwyn galluogi gwella a mireinio'r Gwerth am Arian yn ddiweddarach yn yr astudiaeth.

[15] Sefydliad Alacrity (2021) Yr Achos i Lywodraeth Cymru ar Gyllid i Barhau / *The Case for Welsh Government Continuation Funding*

5.4 Er bod tystiolaeth wedi'i chasglu lle bo modd o gynlluniau tebyg, mae cyfyngiadau ar rannu data a chymalau cyfrinachedd/cytundebau datgelu yn golygu nad yw'n bosibl datgan yn benodol y meincnodau gwerth am arian cymharol yn yr adran hon, felly cyfeiriwyd at y rhain yn y naratif heb nodi'r ffigur gwirioneddol neu'r cynllun tebyg dan sylw.

**Costau'r Rhaglen**

5.5 Mae costau'r rhaglen wedi'u cyflwyno yn Nhabl 2.1 yn gynharach yn yr adroddiad hwn ac maent yn cyfateb i fuddsoddiad o £6.9m rhwng 2016 a 2021. Dylid nodi bod y cyfrifiadau hyn yn wahanol i'r rhai a geir yn adroddiad Alacrity sy'n ymddangos fel pe baent wedi peidio cyfrif cyfraniad Llywodraeth Cymru at y gronfa sbarduno.

**Cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau**

5.6 Mae'n werth nodi y rhoddir swm sylweddol (ac felly gwerth sylweddol) o gyfraniad mewn nwyddau/gwasanaethau i'r rhaglen, yn bennaf ar ffurf yr amser a roddir am ddim gan fentoriaid a phartneriaid strategol i gyfranogwyr y rhaglen cyn graddio ac ymgorffori a hefyd fel cyfarwyddwyr anweithredol cwmnïau corfforedig. Deellir na wneir unrhyw elw ariannol drwy'r dull hwn, fodd bynnag byddai angen ymchwilio ymhellach drwy waith maes i bennu unrhyw gostau cyfle sy'n gysylltiedig â buddsoddi eu hamser yn y cynllun/cwmnïau corfforedig.

**Alacrity C**

5.7 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad, sicrhaodd rhaglen Alacrity £0.5m gan Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2019 i gynnig rhaglen â thema a oedd yn mynd i'r afael â materion penodol sydd gan y Llywodraeth ym maes seiberddiogelwch. Mae Llywodraeth y DU yn talu'r holl gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â rhaglen Alacrity Cyber ac yn cyfrannu at y gorbenion.

5.8 Mae Alacrity C hefyd wedi derbyn ymrwymiad ychwanegol o £0.5m yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU sy'n rhoi modd rhoi dechrau ar garfan C pellach (sef 12 Sylfaenydd) ym mis Medi 2021 (nid yw'r ail fuddsoddiad hwn o £0.5m wedi'i gynnwys yn yr asesiad Gwerth am Arian).

5.9 Er bod lle felly i fuddsoddi mewn cwmnïau sydd wedi'u corffori drwy Alacrity C (deellir eu bod yn parhau'n gymwys ar gyfer cyllid sbarduno gan Lywodraeth Cymru), ar adeg yr ymchwil, nid oes cwmnïau eto wedi'u hymgorffori drwy Alacrity

C. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig ag Alacrity C felly wedi'u cynnwys yn yr asesiad gwerth am arian presennol wrth eu meincnodi yn erbyn canlyniadau ar gyfer cwmnïau corfforedig (gan nad ydynt, ar adeg ysgrifennu, wedi cyfrannu eto at nifer y cwmnïau corfforedig), er eu bod wedi'u cynnwys wrth archwilio dangosyddion gwerth am arian sy'n gysylltiedig â'r cam 'bŵt-camp' cychwynnol.

**Gweithgareddau ac allbynnau (cost-effeithiolrwydd)**

5.10 Anodd tu hwnt yw meincnodi natur y cymorth a gynigir i gyfranogwyr drwy raglen Alacrity. Fodd bynnag, o ystyried bod mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn raddedigion diweddar, a bod y rhaglen yn un ddwys dros gyfnod o 15 mis, mae'n debyg mai'r meincnod mwyaf perthnasol (heblaw am raglenni tebyg a nodwyd yn yr adran flaenorol) o ran costau yw gradd meistr ac yn wir dyma'r sail y mae tîm Alacrity wedi meincnodi costau'r rhaglen arni yn eu papur Cyllid i Barhau.

5.11 Er y gellid cymharu'r hyfforddiant a gynigir gan Alacrity â chwrs meistr, neu fod yr hyfforddiant yn ddwysach na chwrs o'r fath, rhaid cofio nad yw'r ddarpariaeth wedi'i hachredu ac felly yn allanol gellid ei hystyried i fod yn israddol na gradd meistr. Un o amcanion gwaith maes y gwerthusiad gyda chyfranogwyr oedd pennu barn, rôl ac effaith y ddarpariaeth cymorth drwy Alacrity cyn y corffori. Mae'r gwaith maes hwnnw wedi nodi bod cyfranogwyr yn teimlo nad ydynt hwy na'u cyflogwyr (pan gyflogir hwy mewn sefydliad) yn ystyried y ddarpariaeth a dderbynnir drwy Alacrity yn israddol i radd meistr.

5.12 Mae adroddiad Alacrity yn meincnodi ffioedd i wneud gradd meistr mewn Cyfrifiadureg yn erbyn y costau fesul sylfaenydd. Mae'r adroddiad yn crynhoi costau sy'n amrywio o £24,625 ym Mhrifysgol y Frenhines Mary i £42,814 ar gyfer Prifysgol Caergrawnt; mae'r lefelau ffioedd amrywiol a gyflwynwyd yn cyfateb i ffi gyfartalog gymedrig o £31,107. Fodd bynnag, **nid yw'r adroddiad yn nodi bod y ffioedd hyn ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yn unig**. Mae tystiolaeth a roddwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 yn dangos bod 20 y cant o'r holl rai a gofrestrodd ar raglen Alacrity yn fyfyrwyr rhyngwladol ac felly'n atebol yn ddamcaniaethol am y ffioedd hyn pe baent yn dewis gradd Meistr mewn Cyfrifiadureg, gan adael 80 y cant nad oeddent yn rhyngwladol. I gymharu, mae'r ffioedd dysgu cyfartalog

cymedrig ar gyfer gradd meistr mewn Cyfrifiadureg i drigolion y DU ledled y prifysgolion a ddewiswyd ym Mhapur Alacrity yn cyfateb i £13,738.[16]

5.13 Mae ychwanegu'r ffi ddysgu gyfartalog gymedrig berthnasol (yn dibynnu ar eu tarddiad) at y rhai sydd wedi cofrestru ers 2016 yn cyfateb i gost gyfartalog feincnod o £17,136.

5.14 Mae papur cyllid i barhau Alacrity yn nodi cost gyfartalog (o ran cyllid Llywodraeth Cymru fesul Sylfaenydd) o £27,812 ers 2011. Mae papur dilynol i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 yn nodi cost gyfartalog (o ran cyllid Llywodraeth Cymru) o £23,913 am bob myfyriwr a £33,846 am bob myfyriwr a gwblhaodd y rhaglen (mae'r papur yn cyfeirio at y costau o 2013 ymlaen ond mae hyn i'w weld yn gamgymeriad gan fod y ffigurau'n cyfateb i wariant 2016-2021).

5.15 Mae'r dadansoddiad yn y papur yn nodi bod bron i 43 y cant o'r costau'n gysylltiedig â'r Cyflog a chostau uniongyrchol eraill i Sylfaenwyr sydd, o'u hepgor, yn lleihau cost Llywodraeth Cymru am bob myfyriwr i £13,726. Fodd bynnag, mae hyn yn rhagdybio mai dim ond cyllid Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chyfrannu at y costau uniongyrchol hyn. Byddai'n rhesymol tybio, serch hynny, ynghyd â chyllid Llywodraeth Cymru, bod cyllid arian parod gan KRPC a chyfraniad Sefydliad Waterloo i'r rhaglen weithredol ill dau yn cyfrannu at y costau uniongyrchol hyn (nid oes tystiolaeth bod y costau uniongyrchol hyn wedi'u neilltuo ar gyfer cyfraniad Llywodraeth Cymru), gyda chyfraniad buddsoddi llywodraeth y DU tuag at Alacrity C hefyd yn cyfrannu atynt yn y flwyddyn ddiweddaraf.

5.16 Mae Tabl 5.1 yn dangos y dystiolaeth amrywiol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad sy'n gysylltiedig â chost-effeithlonrwydd y rhaglen. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhaglen Alacrity C wedi'u hychwanegu at y ffigurau gan fod y graddedigion sy'n dechrau'r rhaglen wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau.

5.17 Cyfrifwyd y costau uniongyrchol i fod yn £937,217. O'u cyfrifo fel cyfran o gyfraniad yr arian parod i'r rhaglen weithredol (sef £4,244,322) yn seiliedig ar ragdybiaeth nad yw'r rhain wedi'u neilltuo ar gyfer y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn cyfateb i 22 y cant o gostau'r rhaglen a chyflwynir y dadansoddiad ar waelod Tabl 5.1.

[16] Mae'r dystiolaeth am ffioedd dysgu yn ôl prifysgol ar gael o ofyn amdani.

**Tabl 5:1: Amcangyfrif a dadansoddi cost-effeithiolrwydd 2016-2021**

| **Cost Gweithredu'r Rhaglen** | |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £2,200,000 |
| KRPC – arian parod | £1,319,322 |
| KRPC – mewn nwyddau/gwasanaethau | £655,678 |
| Sefydliad Waterloo | £225,000 |
| Buddsoddiad Llywodraeth y DU yn rhaglen Alacrity C | £500,000 |
| **Cyfanswm Cost Gweithredu'r Rhaglen** | **£4,900,000** |
| **Cost fesul cyfranogwr** | |
| Cyfanswm nifer y Graddedigion sydd wedi dechrau ar y rhaglen | 92 |
| …ac o'r rhain sydd wedi dechrau ar raglen Alacrity C | 12 |
| Cost fesul cyfranogwr | £53,261 |
| Cyllid y sector cyhoeddus: cost fesul cyfranogwr (Llywodraethau Cymru a'r DU) | £29,348 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru: cost fesul cyfranogwr (ac eithrio Alacrity C) | £27,500 |
| **Cost fesul cyfranogwr Ac eithrio costau uniongyrchol** | |
| Costau uniongyrchol (cyflog a chostau eraill uniongyrchol i Sylfaenwyr) | £937,217 |
| Cost fesul cyfranogwr ac eithrio costau uniongyrchol | £43,074 |
| Cyllid y sector cyhoeddus: cost fesul cyfranogwr ac eithrio costau uniongyrchol (fel canran (22%) o gyfanswm y costau) | £22,891 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru: cost fesul cyfranogwr ac eithrio costau uniongyrchol (fel canran (22%) o gyfanswm y costau) a chyfranogwyr Alacrity C | £21,450 |

5.18 Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, parhau i fod yn uwch na'r ffioedd cyfartalog i wneud gradd Meistr mewn Cyfrifiadureg y mae costau cynnal rhaglen Alacrity, fesul cyfranogwr, pan fo'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig yn bennaf â'r cyflog wedi'i hepgor. Fodd bynnag, o'i feincnodi yn erbyn cynlluniau tebyg (pan fo data ar gael ac wrth ystyried elfennau cymharol y ddarpariaeth sydd ar gael) digon tebyg yw'r gost fesul cyfranogwr (cost-effeithlonrwydd).

**Canlyniadau (cost-effeithiolrwydd)**

*Cyfraddau cwblhau*

5.19 Mae adroddiad Alacrity yn cyfeirio at gyfradd cwblhau o 70 y cant (sef cyfran y cyfranogwyr sy'n cwblhau'r cwrs 15 mis). Fodd bynnag, mae manyleb y tendr ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu cyfradd cyflawni gyfartalog o 66 y cant tra bod y data gwybodaeth reoli a roddwyd i Wavehill gan Alacrity yn awgrymu cyfradd cwblhau (hyd at 2020) o 65 y cant. Mae tîm Alacrity wedi rhannu adroddiadau bwrdd gyda'r tîm gwerthuso ac mae'r diweddaraf ohonynt yn rhoi cipolwg pellach ar gyfraddau cwblhau ar gyfer y garfan 2020-21. Cyflwynir amcangyfrifon yn seiliedig ar y dystiolaeth hon yn Nhabl 5.2 isod ac maent yn dangos bod 6 o bob 10 cyfranogwr fel arfer yn cwblhau'r rhaglen gychwynnol.

**Tabl 5.2: Cyfraddau cwblhau 2016-21**

| Blwyddyn | Cyfanswm a ddechreuodd | Cyfanswm a gwblhaodd | Cyfradd sy'n cwblhau |
|---|---|---|---|
| 2016-17 | 13 | 6 | 46% |
| 2017-18 | 13 | 8 | 62% |
| 2018-19 | 18 | 11 | 61% |
| 2019-20 | 18 | 12 | 67% |
| 2020-21 | 30 | 18 (amcangyfrif)[17] | 60% |
| **Cyfartaledd** | **18** | **11** | **59%** |

5.20 Unwaith eto, mae cyfraddau cwblhau o'r natur hwn yn weddol debyg i gynlluniau tebyg sy'n cofnodi'r wybodaeth hon.

*Dechrau busnesau*

5.21 Yr amcan a nodir yn y cytundeb yw lansio tair menter busnes bob blwyddyn, er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud dau fusnes yn cael eu sefydlu pob blwyddyn yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil hwn. Ar gyfer y cyfnod 2016-21 mae'r rhestr o gwmnïau a restrir yn Nhabl 5.3 isod wedi dechrau masnachu. Mae'n amlwg o'r tabl hwn, yn yr un modd â'r rhaglen gyllido 5 mlynedd flaenorol (o 2011-2016), bod y rhaglen yn gyson wedi methu â chyrraedd y targed o gorffori dau fusnes (neu dri yn dibynnu ar ba ffynhonnell dystiolaeth y cyfeirier ati) bob blwyddyn. Mae cyfradd y cwmnïau sy'n

[17] Yn seiliedig ar adolygiad o ddata a gyflwynwyd yn Adroddiad Bwrdd Hydref 2021.

cael eu corffori yn rhagdybio bod tîm yn cynnwys hyd at 4 unigolyn (felly mae'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer pob blwyddyn wedi'i rannu â phedwar). Mae'r gyfradd 'trosi' i gorffori cwmni ar gyfer y timau hynny yn is na chynlluniau tebyg sydd fel arfer yn gweithredu ar tua 50-60 y cant o'r timau a ffurfir yn corffori cwmni. Wedi dweud hynny, adroddir (ar adeg yr ymchwil hwn) y bydd hi'n debygol y bydd cryn nifer o'r busnesau sy'n deillio o'r garfan bresennol yn cael eu corffori yn 2022.[18]

**Tabl 5.3: Cwmnïau Alacrity sydd wedi dechrau masnachu 2017-21**

| **Blwyddyn dechrau masnachu** | **Cyfanswm y cwmnïau a ddechreuodd fasnachu** | **Cyfradd corffori amcangyfrifedig[19]** |
|---|---|---|
| 2017 | 2 (Hut 6 & Codeherent) | 50% |
| 2018 | 1 (Volunteer Space – wedi dod i ben) | 25% |
| 2019 | 0 | 0% |
| 2020 | 1 (Surple) | 20% |
| 2021 | 2 (Haelu) | 40% |
| **Cyfanswm** | **6 chwmni** | |
| Rhagwelir | 4 cwmni | **53%[20]** |

5.22 Mae asesu cost-effeithiolrwydd y rhaglen yn seiliedig ar y gost am bob busnes corfforedig, a hynny'n cyfateb i £408,000 am bob busnes corfforedig. Mae hyn yn sylweddol uwch na rhaglenni traddodiadol i ddechrau busnesau, fodd bynnag, mae'r rhain yn anaddas ar y cyfan i'w defnyddio fel meincnod. Yn erbyn cynlluniau tebyg eraill mae'r costau sy'n gysylltiedig ag Alacrity yn uwch (yn rhannol gysylltiedig â'r gyfradd 'drosi' is a amlinellir uchod), fodd bynnag, pan dynnir costau mewn nwyddau/gwasanaethau o'r cyfrifiad, ceir cost-effeithiolrwydd sydd ar lefel debyg i fentrau cymharol (pan fo tystiolaeth ar gael).

[18] Pedwar o fusnesau'r garfan bresennol gafodd eu corffori yn y pen draw.
[19] Yn seiliedig ar ragdybio bod tua 4 aelod ym mhob tîm (ar adeg cofrestru).
[20] Cadarnhawyd ffigurau 2022 ar ôl cwblhau'r adroddiad.

**Tabl 5.4: Cost-effeithiolrwydd 2016-2021**

| **Cost-effeithiolrwydd - 2016-2021** | |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £2,200,000 |
| KRPC – arian parod | £1,319,322 |
| KRPC – mewn nwyddau/gwasanaethau | £655,678 |
| Sefydliad Waterloo | £225,000 |
| Buddsoddiad Llywodraeth y DU yn rhaglen Alacrity C | £500,000 |
| Cyfanswm Cost Gweithredu'r Rhaglen | £4,900,000 |
| Cwmnïau | 12 |
| Cost am bob cwmni a gorfforwyd | £408,000 |
| Cost am bob cwmni a gorfforwyd gan eithrio cyllid mewn nwyddau/gwasanaethau | £353,700 |

5.23 Mae'r asesiad cost-effeithiolrwydd yn gul ei ffocws, fel y dangosir gan y theori newid a gyflwynir yn Adran 2, ac yn seiliedig ar yr effeithiau a adroddwyd gan y cyfranogwyr, mae llu o ddangosyddion canlyniadau eraill y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar yr adenillion a gwerth ychwanegol Alacrity. Mae'r pwyslais ar gorfforiadau yn anwybyddu'r gwerth ychwanegol posibl i unigolion wrth gymryd rhan yn Alacrity. Disgwylir i'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a enillwyd wrth gymryd rhan esgor ar gynnydd cyflymach i'r unigolyn yn ei yrfa a (gobeithir) y bydd yn dod â buddion a manteision (ar ffurf cynnydd mewn gwerthiant, elw neu gynhyrchiant) i unrhyw fusnes y mae'r unigolyn ynddynt.

*Gwella enillion*

5.24 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn Adran 4 yn dangos bod enillion yr unigolion hynny a gymerodd ran yn Alacrity ond nad oeddent yn y pen draw wedi corffori busnes yn uwch nag enillion cyfartalog yr unigolion hynny sydd wedi gwneud gradd ôl-raddedig mewn Cyfrifiadureg. Mae ychwanegu paramedrau sy'n gysylltiedig ag amseriad y cipio data ar ôl cymryd rhan (o ran y radd ôl-raddedig neu raglen Alacrity) yn ogystal â chynnwys effeithiau chwyddiant yn nodi bod graddedigion Alacrity ar gyfartaledd yn ennill £5,000 yn fwy y flwyddyn nag unigolion a astudiodd radd ôl-raddedig mewn Cyfrifiadureg, 1-2 flynedd ar ôl graddio o'r rhaglen.

5.25 Yn anffodus nid yw'n bosibl asesu i ba raddau y bydd y gwahaniaeth enillion hwnnw yn parhau drwy gydol gyrfa cyfranogwr. Nid yw ychwaith yn cyfrif am y ffaith y gallai

cyfranogwyr Alacrity fod wedi bod yn unigolion o ansawdd uwch ac yn fwy uchelgeisiol ac efallai y byddent wedi cael enillion uwch boed hwy wedi cymryd rhan yn Alacrity ai peidio. At hynny, mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar nifer isel o ymatebwyr sy'n rhoi siawns fawr o gamgymeriadau sampl. Gan ddefnyddio meincnodau[21] ar gyfraddau dyfalbarhad mewn gwerthusiadau blaenorol, mae'n rhesymol tybio (gan ddefnyddio amcangyfrif ceidwadol) bod effeithiau'r cymorth yn parhau am o leiaf tair blynedd. Gyda rhaglen gefnogaeth mor ddwys, mae'n debygol y byddai'r buddion yn parhau am lawer hirach, ond byddai hyn yn gofyn am asesiad ar enillion a fyddai'n gymharol hydredol. Gan ystyried y ffaith bod 30 y cant o gyfranogwyr Alacrity yn cwblhau'r rhaglen ond yn dewis peidio â chorffori busnes gydag Alacrity, yn seiliedig ar 112 o gyfranogwyr, mae hyn yn cyfateb i 34 o gyfranogwyr o garfan 2016-21. **Felly mae cyfrifiad cymharol fras o'r gwerth ychwanegol hwn yn dangos enillion ychwanegol gros ar gyfer y 34 cyfranogwr hynny i fod yn tua £510,000 dros gyfnod o dair blynedd o gymharu â'r rhai a gwblhaodd gymhwyster ôl-raddedig mewn Cyfrifiadureg.**

*Gwerthusiadau cwmnïau*

5.26 Mae'r dull o asesu cost-effeithiolrwydd fel yr amlinellir yn Nhabl 5.4 uchod hefyd yn methu â rhoi cyfrif am werth, neu werth posibl, y busnesau sydd wedi'u corffori.

5.27 Mae prisio busnesau newydd yn y cyfnod cynnar yn hynod o anodd gan nad oes fawr o wyddoniaeth i'r peth. Yn absenoldeb data, defnyddir dull arddull Berkus[22] ar adegau (sy'n tueddu i orbwysleisio'r gwerth) neu roi ffigur mympwyol. Dull mwy cadarn, lle bo modd, yw defnyddio prisiadau allanol sy'n deillio o weithgarwch ariannu hanesyddol. Mabwysiadwyd y dull hwn gan Alacrity ar gyfer y busnesau hynny sy'n derbyn cyllid sbarduno ond sydd ar gam cynnar yn eu hanes, neu cyn iddynt ddechrau masnachu. Mae risg, unwaith eto, bod hyn yn gorbwysleisio prisiad cwmni o ystyried y natur unigryw braidd y dyfernir y cyllid sbarduno hwnnw drwyddi. Ar gyfer y cwmnïau hynny sy'n masnachu, mae Alacrity wedi defnyddio dull cerdyn sgorio (dyma'r dull a ffefrir) er nad oedd y manylion a'r fformiwlâu a oedd yn sail i ddangosyddion y cerdyn sgorio ar gael i'r gwerthuswyr.

[21] Pricewaterhouse Coopers (2008) Impact of RDA Spending, DBERR
[22] https://medium.com/humble-ventures/how-angel-investors-value-pre-revenue-startups-part-iii-8271405f0774

5.28 Mae papur Alacrity yn rhoi pwyslais ar brisiad amcangyfrifedig cwmnïau corfforedig ar gyfer pennu gwerth am arian sy’n gysylltiedig â buddsoddiad Llywodraeth Cymru. Cyflwyna’r papur amcangyfrifon sydd wedi arwain at brisiad cronnol o £28.45m ar gyfer yr holl gwmnïau corfforedig ac mae’r papur yn cyfeirio at ffigur adenillion ar fuddsoddiad o £5.21 am bob punt a fuddsoddwyd.

**Tabl 5.5: Prisio cwmnïau Alacrity[23]**

| Cwmni | Gwerth (£) |
|---|---:|
| Talkative | 10,000,000 |
| Hut 6 | 8,000,000 |
| Enjovia | 3,000,000 |
| Codeherent | 2,000,000 |
| Reliving/Reworking | 1,300,000 |
| Learnium | 750,000 |
| CulturVate | 500,000 |
| Haelu | 500,000 |
| Intuitix | 500,000 |
| Persona/Sumoshift | 500,000 |
| Surple | 1,400,000 |
| Volunteer Space | |
| **Cyfanswm** | 28,450,000 |

5.29 Mae’r gymhareb fodd bynnag yn ymwneud â chyllid sbarduno a buddsoddiad rownd 1 yn unig ac nid yw’n cynnwys y buddsoddiad £4.9m yng nghyfnod cyn-ymgorffori’r rhaglen rhwng 2016-21 yn ychwanegol at fuddsoddiad 2011-16 (amcangyfrifir i fod yn £3.165m).

5.30 Ni fyddai’r sefydliadau sydd wedi’u corffori drwy Alacrity yn gallu cael cyllid sbarduno heb y cymorth cyn-ymgorffori a gawsant, felly ymddengys ei bod yn rhesymol cynnwys y cymorth cyn-ymgorffori (bŵt-camp) yn yr asesiad gwerth am arian. Er y gellir defnyddio dulliau amrywiol wrth asesu gwerth am arian cwmnïau corfforedig, un dull posibl i lunio’r dyfarniad hwn fyddai ailddefnyddio’r asesiad

[23] Sefydliad Alacrity (2021) Yr Achos i Lywodraeth Cymru ar Gyllid i Barhau / *The Case for Welsh Government Continuation Funding*

adenillion-ar-fuddsoddiad drwy ddefnyddio prisiadau Alacrity yn erbyn y prisiadau ehangach. Fodd bynnag, dylid cofio y rhagwelir y bydd pum cwmni arall yn cael eu corffori ymhlith carfan 2021-22, ac y gellid priodoli hyd at £3m o brisiad ychwanegol i'r busnesau hyn sydd newydd eu corffori gan ddefnyddio dull Alacrity o brisio (pe bai pob un o'r chwech yn llwyddo i gael cyllid sbarduno).

**Tabl 5.6: Adenillion ar fuddsoddiad gan ddefnyddio costau diwygiedig**

| **Amcangyfrif Cost Gweithredu'r Rhaglen 2011-16** | **£3,165,000** |
|---|---|
| Cost Gweithredu'r Rhaglen 2016-20 | £4,900,000 |
| Cronfa sbarduno a buddsoddiad Rownd 1 mewn cwmnïau corfforedig | £5,555,000 |
| Cyfanswm Buddsoddiad | £13,620,000 |
| Prisiad Alacrity o'r cwmnïau corfforedig | £28,450,000 |
| Enillion ychwanegol graddedigion cwmnïau heb eu corffori | £510,000 |
| **Lluosydd y buddsoddiad** | **2.13** |

5.31 Cafwyd prisiadau gan Fanc Datblygu Cymru (BDC) ar gyfer y cwmnïau hynny a gorfforwyd drwy Alacrity sydd wedi sicrhau cyllid rownd 1 drwy BDC wedi hynny. Mae cymalau cyfrinachedd yn cyfyngu'r gwerthuswyr rhag gallu defnyddio prisiadau cwmnïau unigol gan BDC, fodd bynnag, mae cymharu cyfanswm y prisiadau ar gwmnïau Alacrity y buddsoddodd BDC ynddynt â phrisiadau a roddwyd ar gwmnïau ym mhapur Alacrity yn dangos bod BDC, ar gyfartaledd, yn prisio sefydliadau corfforedig ar 31.4 y cant o brisiadau Alacrity.

**Mae cymhwyso'r gymhareb hon ar draws pob prisiad yn cyfateb i brisiad diwygiedig o'r holl gwmnïau corfforedig i fod yn £8.9m neu'n gymhareb buddsoddi o 0.69**.

5.32 Nid yw'r naill ddull na'r llall o amcangyfrif prisiadau cwmni yn cael ei ystyried yn arbennig o gadarn (o ran y prisiadau cyllid allanol, er eu bod yn gadarn ar lefel cwmni i gwmni, maent wedi'u tanseilio gan y sampl fach o gwmnïau corfforedig sy'n derbyn cyllid allanol ac felly'n destun prisiad allanol). Mae cwestiwn ehangach i'w ystyried hefyd ynghylch i ba raddau mai prisio cwmnïau yw'r llwybr gorau posibl i Lywodraeth Cymru wrth bennu gwerth am arian ac adenillion ar fuddsoddiad yn rhaglen Alacrity ac mae'n cysylltu'n ôl ag ystyried nod y buddsoddiad hwnnw.

5.33 Pan gaiff y dangosydd hwn ei feincnodi yn erbyn cynlluniau eraill o hyd a natur tebyg, mae'r ffigur cymharol ar gyfer cynlluniau tebyg yn gorwedd rhwng y ddau ffigur adenillion-ar-fuddsoddiad, er eu bod yn agosach at brisiad Alacrity (y ffigur adenillion-ar-fuddsoddiad uwch) na'r ffigur sy'n deillio o brisiadau allanol o sampl fach o'r busnesau corfforedig. Fodd bynnag, mewn modd tebyg i raglen Alacrity, mae rheolwyr y rhaglenni tebyg wedi datblygu prisiadau'r cwmnïau a dderbyniwyd gan y gwerthuswr.

*Amcangyfrifon GVA ar gyfer cwmnïau wedi'u corffori*

5.34 Dull arall o fesur y gwerth am arian sy'n deillio o'r cwmnïau corfforedig yw drwy amcangyfrif y gwerth ychwanegol gros (GVA) a gynhyrchir drwy'r cwmnïau hynny.

5.35 Mae'r ffordd fwyaf cadarn o amcangyfrif GVA ar gyfer busnesau fel arfer yn gofyn am wybodaeth am elw, costau gweithwyr a dibrisiant. Fodd bynnag, gyda busnesau newydd sy'n bwriadu tyfu'n gyflym, bydd maint yr elw yn anodd ei ddiffinio ac yn aml, nid yw'n bodoli o gwbl. Dewis arall yw defnyddio cymarebau trosiant–GVA, fodd bynnag, unwaith eto, gall ffigurau trosiant gamliwio sefyllfa busnes sydd newydd ei sefydlu. Yn ogystal, nid yw'r dystiolaeth hon ar gael i'r gwerthuswyr ar hyn o bryd.

5.36 Dewis arall eto yw cymhwyso ffigurau GVA cyfatebol y sector fesul cyflogai i nifer y cyflogeion a gyflogir gan y busnesau. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau a gorfforwyd drwy Alacrity wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau o fewn codau SIC (dosbarthiadau diwydiannol safonol) dau ddigid, sef: 61 (Telegyfathrebiadau), 62 (Gweithgareddau datblygu meddalwedd a gwasanaethau technoleg) neu 63 (Gweithgareddau gwasanaeth gwybodaeth gan gynnwys prosesu data). Y GVA cyfartalog cymedrig fesul cyflogai ar draws y codau SIC hyn[24] yw £112,619. Ymddengys y byddai hyn yn feincnod rhesymol i'w ddefnyddio oherwydd tra byddai cwmnïau twf uchel/arloesol fel arfer yn chwyddo'r ffigur hwn, mae ffigurau GVA fesul cyflogai yn tueddu i fod yn is ymhlith busnesau bach/cychwynnol sy'n gwrthweithio'r chwyddiant hwnnw.

5.37 Ymddengys bod papur Alacrity yn gwrthddweud ei hun rhywfaint, gan fod tudalen 9 yr adroddiad yn nodi "Mae ein cwmnïau bellach yn cyflogi 145 o bobl cyfwerth ag

[24] Gan ddefnyddio Data Arolwg Busnes Blynyddol a data cyflogeion (BRES) ar gyfer Prydain Fawr. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ddata 2016 felly maent wedi'u codi i gyfrif am chwyddiant.

amser llawn", fodd bynnag yn ddiweddarach yn yr adroddiad, yn y tabl sy'n gysylltiedig â phrisiadau cwmnïau, dywed y papur fod cwmnïau corfforedig gyda'i gilydd yn cyfrif am 73 o gyflogeion. Mae'r ail ffigur ar gyfer cyflogeion wedi'i ddefnyddio i gael y ffigur blynyddol diweddaraf ar gyfer GVA gros ychwanegol ac mae'n cyfateb i **amcangyfrif o GVA ychwanegol gros blynyddol o £8.2m**.

5.38 Defnyddia Tabl 4.7 drosodd dystiolaeth a gyflwynwyd mewn cyfrifon eithriedig cwmnïau bach i Dŷ'r Cwmnïau i nodi nifer y cyflogeion ar gyfer pob busnes corfforedig. Mae'r data'n rhoi arwydd pellach o lefelau cyflogaeth ynghyd ag ymdeimlad o lwybr twf (o ran cyflogaeth) busnesau corfforedig. Mae niferoedd diweddaraf y cyflogeion yn cyfateb i'r rhai a adroddwyd gan Alacrity ar draws pob cwmni ac eithrio Enjovia lle cofnodir 4 cyflogai yn y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd ganddynt (ym mis Rhagfyr 2021 ac yn ymwneud â gweithrediadau'r cwmni hyd at fis Mawrth 2021) o gymharu â'r 12 cyflogai a adroddwyd gan Alacrity.

5.39 Defnyddiwyd ffigurau GVA fesul cyflogai i gyfrifo GVA ychwanegol gros, yn flynyddol ac yn gronnol ar gyfer y rhaglen. Mae addasiadau wedi'u gwneud i alluogi cyfrifiad GVA cronnus net sy'n caniatáu ar gyfer y canlynol:

- ***Difuddiant*** (*deadweight*) – y rhagdybiaeth mai bach iawn (os yw'n bodoli o gwbl) fyddai'r graddau y byddai gweithgarwch drwy Alacrity (a'r cwmnïau corfforedig yn arbennig) wedi digwydd heb fuddsoddiad ond byddai angen archwilio hyn gyda detholiad o bartneriaid strategol / mentoriaid i'w gadarnhau***.***
- ***Effeithiau dadleoli*** sy'n deillio o gwmnïau corfforedig yn cymryd cyfran o'r farchnad oddi wrth fusnesau eraill (tybir bod hyn yn fach iawn o ystyried y ffocws ar wasanaethu marchnadoedd newydd/datblygol drwy'r cwmnïau a gorfforwyd gan Alacrity) ond byddai ymchwil pellach i'r gwahanol gwmnïau yn cynorthwyo â'r asesiad hwn.
- ***Effeithiau colledion*** (*leakage*) sy'n deillio o staff neu gwmnïau yn adleoli y tu allan i Gymru (unwaith eto tybir eu bod yn fach iawn o ystyried y meini prawf llym sy'n gysylltiedig â chadw a lleoliad cwmnïau, fodd bynnag mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn fwy i'r rhai sydd wedi dewis peidio ag aros gyda busnesau Alacrity ac awgryma gwybodaeth reoli fod tua 38 y cant o'r cyfranogwyr wedi adleoli y tu allan i Gymru o garfanau 2015/16–2019/20) ond er hynny mae 31 y cant o'r rhai a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn byw y tu allan i Gymru.

- ***Cyfraddau gadael neu oroesi*** yn arbennig ar gyfer asesu effaith gronnus y rhaglen. Ar hyn o bryd, er enghraifft, mae holl werth ychwanegol cwmni corfforedig yn cael ei briodoli i raglen Alacrity. Fodd bynnag, mae'n rhesymol cymhwyso bod rhywfaint yn gadael dros amser (yn cael eu gwerthu o bosibl), byddai hyn i'w bennu drwy ymgynghori â sylfaenwyr/cyflogeion ac/neu gyfarwyddwyr anweithredol i ddeall rôl a graddau'r cymorth parhaus i'r busnesau hyn.
- ***Effeithiau lluosydd – anuniongyrchol ac ysgogedig*** – sef rhai sy'n esgor ar effeithiau cyflogaeth a chadwyn gyflenwi y disgwylir iddynt fod yn rhesymol ar lefel Cymru (cenedlaethol) gyda chymorth agos cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ond mae'r effeithiau hyn eto wedi'u lleihau oherwydd agosrwydd y ffin â Lloegr ac felly amcangyfrifir ei fod yn 1.3.

**Tabl 5.7: Nifer cyflogeion dros amser yng nghwmnïau Alacrity**

| **Cwmni** | **Nifer y cyflogeion** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** |
| Talkative | | | | 7 | 9 | 13 |
| Hut 6 | | 5 | 8 | 11 | 12 | 11[25] |
| Enjovia | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4[26] |
| Codeherent | 4 | 4 | 4[27] | 6 | 7 | 7 |
| Reliving/Reworking | | | | 4 | 4 | |
| Learnium | 4 | 7 | 5 | 5 | 4 | 5 |
| Culturvate | | | 5 | 5 | 3 | |
| Haelu | | | | | | [28]5 (sylfaenwyr) |
| Intuitix | | | | | | 5[29] (sylfaenwyr) |
| Persona/Sumoshift | | | 4 | 3 | 4 | |
| Surple | | | | 5 | 4[30] | |
| Volunteer Space (diddymwyd) | | | 4 (sylfaenwyr) | 4 (sylfaenwyr) | 0 | 0 |
| Cyfanswm cyflogeion | 12 | 20 | 34 | 54 | 51 | 65 |
| Amcangyfrif GVA blynyddol (gros) | £1.2m | £2.0m | £3.5m | £5.7m | £5.7m | £7.3m |
| | | | | | Goroesi | 3 blynedd |

[25] Dylid nodi bod y rhai a gyfwelwyd wedi dweud 9 o gyflogeion.
[26] Mae'r cyfrifon blynyddol yr adroddwyd arnynt i Dŷ'r Cwmnïau yn nodi mai 4 oedd nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd gan y cwmni yn ystod 2021. Mae papur Alacrity yn cyfeirio at 9 o weithwyr yn y cwmni yn 2021.
[27] Mae ffigurau cyflogaeth 2016-2018 yn rhagdybiaethau.
[28] Dylid nodi bod y rhai a gyfwelwyd wedi dweud 6 o gyflogeion.
[29] Dylid nodi bod y rhai a gyfwelwyd wedi dweud 8 o gyflogeion.
[30] Dylid nodi bod y rhai a gyfwelwyd wedi dweud 2 o gyflogeion.

| | |
|---|---|
| **GVA cronnol (gros)** | **£25.56m** |
| Difuddiant | Dibwys |
| Dadleoli | Dibwys |
| Colledion | 31% |
| Amcangyfrif lluosydd (anuniongyrchol ac ysgogedig) | 1.3 |
| **GVA ychwanegol net cronnus** | **£22.9m** |

**Crynodeb o'r Asesiad Gwerth am Arian**

5.40 Mae cadernid yr asesiad gwerth am arian yn dal i gael ei lesteirio gan sawl ffactor:

- Natur y mentrau – canolbwyntir ar fusnesau newydd sydd â'r potensial i dyfu yn y sector digidol lle mae gwerth presennol a gwerth posibl yn arbennig o anodd eu pennu.
- Nid yw'r asesiad wedi rhoi cyfrif llawn am lu o elfennau yn ymwneud â chanlyniadau, gan danseilio ehangder a dyfnder yr asesiad gwerth ychwanegol sy'n deillio o raglen Alacrity.
- Cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ar gael i ddilysu rhai o'r honiadau sy'n cael eu gwneud ynghylch perfformiad a chynnydd (ac mewn rhai achosion lle cafwyd hyn, mae rhywfaint o amrywio yn y canfyddiadau).
- Ychydig iawn o raglenni cymharol sydd yna, a phan maent yn bodoli cânt eu rhedeg yn fasnachol ac felly ychydig o ddata sydd ar gael ynghylch eu gwir lwyddiant, gan gyfyngu ar nifer y mentrau i feincnodi Alacrity yn eu herbyn.

5.41 Mae'r asesiad felly yn rhoi syniad amlinellol yn unig am werth am arian rhaglen Alacrity a dylid ei drin felly. Bydd newidiadau sylweddol yng ngwerth busnesau corfforedig yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar yr adenillion ar fuddsoddiad a gynhyrchir gan y rhaglen.

**Asesiad Gwerth am Arian**

5.42 Wrth feincnodi yn erbyn cynlluniau cymharol sydd ag amcanion tebyg mae'r data yn nodi'r canlynol:

*Cost-effeithlonrwydd*

- **Mae'r rhaglen yn cynrychioli gwerth *rhesymol* am arian o ran cost-effeithiolrwydd (cost am bob cyfranogwr)**

    - Mae’r rhaglen yn cymharu’n wael â chost cwblhau gradd meistr mewn Cyfrifiadureg, ond pan gaiff llwybrau gyrfa’r myfyrwyr hynny eu meincnodi yn erbyn cyfranogwyr Alacrity i nodi’r gwerth ychwanegol i’r unigolyn o gymryd rhan yn Alacrity mae’n amlwg bod cyfranogwyr Alacrity yn elwa ar enillion cyflog uwch na’r grŵp cymhariaeth.
    - Mae’r rhaglen yn cynnig gwerth ychydig yn well na chynlluniau tebyg o ran cost-effeithiolrwydd.

*Cost-effeithiolrwydd*

- O’i meincnodi yn erbyn rhaglenni eraill sydd am gefnogi unigolion i ddechrau busnesau, mae’r rhaglen yn cynrychioli gwerth gwael am arian (ar sail cost fesul pob busnes sy’n cael ei sefydlu) ond mae hyn yn anwybyddu potensial sylweddol y busnesau a gefnogir ac yn dangos pwysigrwydd canolbwyntio ar gynlluniau sydd ond am geisio creu a chefnogi busnesau sydd â photensial i dyfu.
- Mae’r rhaglen wedi tanberfformio o gymharu â chynlluniau tebyg ac o ran y targedau cytundebol mewn perthynas â chyfran y timau cyfranogwyr y mae wedi gallu eu ‘trosi’ yn gorfforiadau cwmni. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau trosi sy’n is a chostau uwch fesul busnes corfforedig o gymharu â chynlluniau tebyg eraill. Fodd bynnag, mae’r cynnydd diweddar mewn corfforiadau yn gwneud iawn yn rhannol am danberfformiad cymharol y blynyddoedd blaenorol, gan fod pedwar tîm wedi’u hymgorffori yn 2022.

**Adenillion ar Fuddsoddiad**

- Mae’r prisiadau a roddir ar werth cwmnïau sydd wedi’u defnyddio gan Alacrity yn sail i’w gyfrifiadau adenillion ar fuddsoddiad ei hun arnynt ac maent i’w weld wedi’u chwyddo (er ei bod yn amhosibl cadarnhau hyn gyda’r dystiolaeth gyfredol sydd ar gael) ac mae graddau’r amrywiad rhwng y rhain a phrisiadau Banc Datblygu Cymru (lle maent yn bodoli) yn sylweddol. Wedi dweud hynny, mae dau gwmni, neu o bosibl dri, i’w gweld yn ehangu’n gyflym ac yn agosáu at bwynt ymadael posibl (sef cael eu gwerthu), fodd bynnag hyd nes y bydd cynnig cadarn yn cael ei wneud ar gyfer y cwmnïau hyn (neu hyd nes y sicrheir cylchoedd dilynol o fuddsoddiad allanol sy’n cyfiawnhau prisiad diwygiedig), mae’n anodd pennu cywirdeb y prisiadau.

- Ystyrir hefyd mai anghywir yw'r ffigur adenillion ar fuddsoddiad (cymhareb buddsoddi) a ddyfynnwyd ym mhapur Alacrity gan nad yw'n rhoi cyfrif am y buddsoddiad cychwynnol yng ngham bŵt-camp y rhaglen. Heb y buddsoddiad cychwynnol hwn, ni fyddai timau'n gallu corffori, ac ni ellir eithrio'r costau hyn o'r cyfrifiad (sy'n ymddangos fel pe bai Llywodraeth Cymru wedi 'ymuno' â'r rhaglen fel cyllidwr sbarduno yn unig).
- Mae cyfrifo adenillion cychwynnol ar fuddsoddiad yn seiliedig ar GVA fesul cyflogai i'w weld fel petai'n rhoi gwerth rhesymol am arian ar gyfer y rhaglen (er nad yw addasiadau i gael cyfrifiadau ychwanegol net wedi'u cymhwyso i'r ffigurau hyn eto a ffactor pwysig i lywio'r asesiad hwn fyddai manylion pellach am natur y rolau hyn [llawn amser/rhan amser, lleoliad a lefel cyflog er enghraifft]).
- Mae'r ymchwil cychwynnol fel petai'n dangos bod gwerth ychwanegol sylweddol yn bodoli o gymharu â chynlluniau eraill yn y seilwaith cymorth ar ôl corffori (y cyllid sbarduno, y cymorth parhaus gan fentoriaid, y rhwydweithiau a'r ddarpariaeth deor) a gall hyn oll fod yn ddylanwadol yng nghryfder y twf yn y nifer fach o fusnesau sydd â'r rhagolygon twf mwyaf.

5.43 Wrth farnu gwerth am arian y rhaglen, her barhaus yw egluro'r nod cyffredinol sy'n gysylltiedig â buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y rhaglen. Mae Alacrity yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau adenillion o gwmnïau sy'n gadael a chyflawni model cyllido bytholwyrdd fel y nod pennaf, fodd bynnag, er gwaethaf cyllid sbarduno gan Lywodraeth Cymru mewn cwmnïau corfforedig, mae'n annhebygol bod cryfder y pwyslais sy'n gysylltiedig â'r nod cyffredinol hwn wedi'i adlewyrchu o fewn Llywodraeth Cymru.

5.44 Mae polisi Llywodraeth Cymru (yn enwedig y Cynllun Gweithredu ar yr Economi) yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diffyg cynhyrchiant a denu a chadw graddedigion medrus iawn yng Nghymru. Mae Alacrity yn cyd-fynd yn agos â'r maes polisi hwn ac felly mae'n ymddangos bod cefnogi twf cyflym cwmnïau corfforedig a pharhau i'w cadw yng Nghymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru tra bod cadw unigolion sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen Alacrity hefyd yn amlwg o fudd.

# 6. Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion ar gyfer Cyllido yn y Dyfodol

### Trosolwg

6.1 Mae rhaglen Alacrity yn rhaglen ddwys ac uchelgeisiol sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth entrepreneuraidd sydd wedi arwain yn llwyddiannus at gorffori busnesau digidol arloesol yng Nghasnewydd a'r cyffiniau, a nifer o'r busnesau hyn yn ehangu'n gyflym.

6.2 Er bod y rhaglen wedi bod ar waith ers 2011, mae tîm Alacrity, dros gyfnod ariannu 2016-21, wedi gwella'r model cyflawni drwy fynd ati'n gyson i fireinio ac adolygu er mwyn creu dull mwy strwythuredig o gynhyrchu arloesedd a gweithgarwch entrepreneuraidd. Soniodd rhanddeiliaid, yn ogystal â chyfranogwyr amrywiol o garfannau cynharach Alacrity, am y ffyrdd y mae'r cymorth a'r gefnogaeth a gynigir wedi gwella yn ystod camau olaf y rhaglen bum mlynedd, yn enwedig o 2019 ymlaen.

### Cynnal y rhaglen

*Recriwtio*

6.3 Her yw marchnata a hyrwyddo rhaglen sydd mor unigryw ag Alacrity, a hyn wedi'i ddangos gan adborth gan gyfranogwyr yn dweud nad oeddent wedi gallu meincnodi'r cynnig yn erbyn darpariaeth debyg ac mewn sawl achos wedi ofni bod y cynnig yn 'rhy dda i fod yn wir'. Dengys hyn faint o fuddsoddiad sydd ei angen i hyrwyddo'r rhaglen a phwysigrwydd sicrhau brandiau/corfforaethau cydnabyddedig fel partneriaid strategol i helpu i gryfhau a chadarnhau'r cynnig.

6.4 Mae'r rhaglen wedi bod yn gweithredu ers 11 mlynedd ac felly mae'n gallu tynnu fwyfwy ar enghreifftiau o lwyddiant a brand sefydledig i ddenu cyfranogwyr i gylchoedd bŵt-camp yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, mae sicrhau digon o niferoedd o ymgeiswyr o safon yn parhau i fod yn her. Y gobaith yw y bydd defnyddio dull sy'n gynyddol amrywiol o farchnata a hyrwyddo yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr i bob carfan o'r rhaglen.

6.5 Mae'r angen i gynyddu nifer yr ymgeiswyr sydd o ansawdd da yn gysylltiedig â'r ffaith yr amcangyfrifir bod 70-80 y cant o ymgeiswyr, yn ôl y sôn, yn cael lle ar y rhaglen (ar ôl proses hidlo gychwynnol). Gall hyn fod o ganlyniad i broses sgrinio

gychwynnol hynod effeithiol sy’n arwain at yr unigolion mwyaf addas yn unig yn gwneud cais i’r rhaglen. Fodd bynnag, mae cynlluniau tebyg yn awgrymu cyfraddau gadael uwch ar y cam hwn ac yn hyrwyddo pwysigrwydd nifer uchel o ymgeiswyr i ysgogi cystadleuaeth ddwys o’r cysylltiad cyntaf.

*Cyflog*

6.6 Mae cyfran sylweddol y buddsoddiad ariannol drwy’r rhaglen yn cael ei wario ar roi cyflog am y cyfnod o 15 mis cyn corffori busnes. Mae adborth gan gyfranogwyr y rhaglen yn dangos pwysigrwydd y cynnig hwn, o ran denu unigolion i’r rhaglen yn y lle cyntaf ond hefyd o ran eu galluogi i ganolbwyntio ar y rhaglen a chynnal eu hymgysylltiad drwy gydol y cyfnod hwnnw.

*Tîm Rhaglen Alacrity*

6.7 Ni ellir pwysleisio ddigon rôl y tîm arwain yn rhaglen Alacrity. Mae eu statws a’u brwdfrydedd dros y rhaglen wedi bod yn hollbwysig wrth ddenu partneriaid a mentoriaid strategol o ansawdd arbennig o uchel i Alacrity, gan greu gwerth ychwanegol sylweddol i’r cymorth a gynigir sy’n gysylltiedig â’r model cyflawni.

6.8 Un o gryfderau allweddol rhaglen Alacrity hefyd yw ansawdd y gefnogaeth a gynigir, a pha mor berthnasol yw’r gefnogaeth honno. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a gawsant a’r brif broblem oedd cyfyngiadau yn y cymorth (personél) sydd ar gael. Roedd pryderon yn arbennig o amlwg mewn perthynas â lefelau’r cymorth technegol sydd ar gael. Mae darpariaeth o’r natur hwn yn arbennig o gostus felly efallai y gellid ystyried cronfa o ddarparwyr cymorth technegol y gellir eu defnyddio ar sail ad hoc.

*COVID-19*

6.9 Daeth pandemig COVID-19 yn ystod mis Mawrth 2020 gan roi straen ar gynnal y rhaglen. Er gwaethaf hyn, symudodd cymorth y rhaglen yn gyflym i gynnig cefnogaeth o bell gyda chymorth bugeiliol gwell yn cael ei ddarparu i gyfranogwyr. O ganlyniad, llwyddodd tîm Alacrity i leddfu ar unrhyw effaith ar gyfranogwyr a allai wedi deillio o’r pandemig drwy’r hyn a ymddengys yn ymateb hynod effeithiol i’r sefyllfa.

*Cynnydd a Pherfformiad*

6.10 Mae’r rhaglen yn anochel yn dioddef drwy fod unigolion yn gadael ac yn rhoi’r gorau i’r rhaglen yn ystod y cyfnod cychwynnol ac ar ôl cwblhau’r bŵt-camp. Er gwaethaf barn gadarnhaol gref ynghylch ansawdd y cymorth, mae nifer y busnesau sydd wedi corffori drwy Alacrity dros y cyfnod 2016–21 wedi bod yn is na’r disgwyl. Wedi dweud hynny, arweiniodd y garfan ddiweddaraf (2022) at bedwar busnes corfforedig sydd yn rhannol yn adlewyrchu’r chwistrelliad o adnoddau sy’n gysylltiedig ag Alacrity C ond sydd hefyd o bosibl yn adlewyrchu effeithiau’r gwelliannau diweddar i’r model cyflawni.

*Aros yng Nghymru*

6.11 Ar gyfer busnesau corfforedig mae gofyniad cytundebol i’w gweithrediadau aros yng Nghymru (tra bod y partneriaid cyllido yn parhau i fod yn gyfranddalwyr mwyafrifol), ond fodd bynnag nid oes gofyniad o’r fath i’r unigolion hynny sy’n cwblhau’r rhaglen ond heb gorffori cwmni drwy Alacrity. Fodd bynnag, mae colledion wrth i unigolion adleoli allan o Gymru yn is na’r disgwyl gyda’r rhan fwyaf o’r rhai a oedd naill ai’n byw neu’n astudio yng Nghymru cyn cofrestru ar Alacrity yn aros yng Nghymru ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen, waeth pa mor hir fu eu taith drwy gynllun Alacrity.

6.12 Ymhlith y cyfranogwyr Alacrity hynny a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad, roedd cyfran uwch o’r rhai a gyflogwyd gan fusnes Alacrity yn byw y tu allan i Gymru na’r rhai nad oeddent yn cael eu cyflogi gan fusnes Alacrity. Efallai bod y risg o adleoli ac felly ‘colledion’ o economi Cymru yn uwch yn dilyn y pandemig gan fod unigolion yn fwyfwy tebygol o weithio o bell.

*Effaith y ddarpariaeth*

6.13 Ar y cyfan, cefnogaeth Alacrity yw’r rheswm iddynt gael eu swydd bresennol yn ôl nifer fach y cyfranogwyr a ymatebodd i’r gwerthusiad a oedd wedi cwblhau Alacrity ac felly wedi elwa o’r cymorth dwys ond eto nad oeddent wedi corffori busnes. Ymhellach, awgryma’r data am gyflogau bod yr unigolion hyn yn derbyn enillion uwch ac felly fel petaent ar lwybr gyrfa cyflymach o’u cymharu â graddedigion gradd ôl-raddedig mewn cyfrifiadureg. Byddai casglu gwybodaeth ychwanegol gan yr ‘ymadawyr cynnar’ hyn yn debygol o fod yn werthfawr i Alacrity wrth fesur ystod gwerth ychwanegol rhaglen Alacrity i gyfranogwyr, waeth beth fo’r canlyniadau.

***Argymhelliad***

Byddai cael caniatâd i ymgysylltu â chyfranogwyr am sawl blwyddyn ar ôl iddynt gymryd rhan yn Alacrity yn helpu i adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth am werth ychwanegol y rhaglen i gyfranogwyr unigol.

*Cefnogaeth ar ôl corffori*

6.14 I'r rheiny a oedd wedi corffori busnes, roeddent yn arbennig o gadarnhaol am y cymorth a gawsant, gan ddefnyddio'r cyllid sbarduno sylweddol a'r rhwydweithiau helaeth i helpu i brofi a mireinio eu cynnig/syniad ac i sefydlu eu marchnad.

6.15 Unwaith eto, mae'r uwch dîm arwain yn Alacrity a Wesley Clover wedi chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau darpar gwsmeriaid ar gyfer nifer o'r busnesau sydd newydd eu corffori er mwyn iddynt roi eu cynnyrch ar brawf gyda nhw.

*Alumni*

6.16 Wrth i garfannau ychwanegol fynd drwy gynllun Alacrity mae nifer y cyn-fyfyrwyr yn tyfu. Mae rhyngweithio rhwng carfannau amrywiol yn helpu i ddatblygu ecosystem o entrepreneuriaid hynod fedrus ac arloesol. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd i gyfranogwyr Alacrity gael eu cyflogi mewn cwmnïau Alacrity eraill gan gryfhau'r ecosystem honno ymhellach.

6.17 Mae sefydlu'r ecosystem hon yn cynnig cyfleoedd i gydweithio. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu nifer digonol o fusnesau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr allanol. Bydd cynnal model Alacrity yn helpu i hyrwyddo'r agenda hon.

**Buddsoddiad Llywodraeth Cymru**

*Gofynion llywodraethu a monitro*

6.18 Mae'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i raglen Alacrity ar gyfer y cyfnod 2016-2021 wedi'i fuddsoddi i sicrhau busnesau corfforedig sydd â photensial i dyfu. Pan fo dangosyddion mesuradwy yn amlwg yn y cytundeb ariannu, maent wedi'u drafftio fel dyheadau ac mae anghysondeb yn y mesurau perfformiad yn y cytundeb a'r rhai y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd arnynt. Os yw Llywodraeth Cymru i barhau i ariannu'r rhaglen, dylid ystyried y metrigau perfformiad a'u gofynion ar gyfer monitro cynnydd Alacrity.

6.19 Mae dangosyddion posibl i'w hystyried yn cynnwys:

- Nifer y busnesau sydd wedi'u corffori drwy'r rhaglen
- Nifer a chanran yr unigolion/graddedigion Alacrity sy'n symud ymlaen i'r busnesau corfforedig
- Cyfradd cadw graddedigion Alacrity mewn busnesau corfforedig (dros gyfnod penodol)
- Cyrchfan (lleoliad) alumni neu raddedigion Alacrity sy'n gadael y rhaglen ar ôl cwblhau a graddedigion Alacrity a gyflogir gan gwmnïau Alacrity
- Manylion am barhad perfformiad cwmnïau Alacrity, yn enwedig y rhai sydd wedi cael cyllid sbarduno, sef manylion megis gwerthiannau (o ran gwerth a nifer a tharddiad) a phrynwyr
    - Maint yr elw
    - Y nifer sy'n cael eu cyflogi â thâl (fel cyfanswm nifer y cyflogeion ac fel gweithwyr cyfwerth ag amser llawn).
    - Rhagamcanion 12/24 mis ar gyflogaeth a throsiant i helpu i ddeall 'iechyd' busnes corfforedig (yn enwedig lle gall anweithgarwch neu segurdod ddigwydd).

6.20 Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu 50 y cant (sy'n codi i 55 y cant wrth hepgor cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau) o gyfanswm y buddsoddiad yn rhaglen Alacrity. Fel prif ffynhonnell gyllid y rhaglen, dylid ystyried rôl a chylch gwaith Llywodraeth Cymru (cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru) ar Fwrdd Alacrity a sut y caiff cynnydd ar y rhaglen ei fonitro.

***Argymhelliad***

Os yw Llywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi yn y rhaglen, dylid cysylltu hyn â meini prawf perfformiad sy'n gliriach ac yn fwy diriaethol a dylid cael eglurder ynghylch rôl a chylch gwaith cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru wrth lywodraethu'r rhaglen.

*Cyllid sbarduno*

6.21 Ar hyn o bryd mae pob busnes corfforedig yn gymwys i gael cyllid sbarduno, ond os bydd rhaglen Alacrity yn llwyddo i barhau i ehangu ni fydd digon o gyllid sbarduno i fodloni gofynion pob busnes. Bydd angen ystyried a yw'r gronfa sbarduno hon i ddod yn gystadleuol ynteu a ddylid lleihau faint o gyllid sbarduno a roddir (i bob cwmni corfforedig) er mwyn gallu ei ddosbarthu'n ehangach.

6.22 Mae papur Alacrity ar fater cyllid i barhau yn cynnig nad yw Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gronfa sbarduno newydd. Mae'r gwerthuswyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Nid yw cyllid Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael ei strwythuro i fod yn fuddsoddiad y gellir cael adenillion ohono, tra bod Banc Datblygu Cymru (BDC) yn rhedeg Cronfa Sbarduno Technoleg sydd i'w gweld yn ddelfrydol ar gyfer rhaglen Alacrity. Cynigia'r gronfa fuddsoddiadau ecwiti o £50,000–£250,000 i gefnogi busnesau technoleg yng Nghymru ac yn wir dyma'r llwybr y mae nifer o'r busnesau corfforedig eisoes wedi sicrhau cyllid drwyddo (trwy rownd buddsoddiad yn dilyn y cylch sbarduno cychwynnol sy'n gyllid rownd 1). Ar ben hynny, deellir y byddai cael gwared ar fuddsoddiad sbarduno gan Lywodraeth Cymru yn gwneud buddsoddiad sbarduno drwy BDC yn broses symlach gan fod llai o gymhlethdodau i'w datrys ynghylch cymorth gwladwriaethol. Yn hyn o beth, byddai'n fuddiol i BDC pe bai Llywodraeth Cymru yn camu'n ôl o fuddsoddiad sbarduno. Ymhellach, byddai'n annog busnesau corfforedig ym muddsoddiad rownd 1 i chwilio am ffynonellau eraill i gael buddsoddiad a thrwy hynny ddenu buddsoddiadau i Gymru i gefnogi ehangu a thyfu. Ein barn ni felly yw mai dod ag arian BDC i weithredu fel cyllid sbarduno yn hytrach na chyllid rownd 1 fyddai'r llwybr mwyaf priodol ymlaen ar gyfer rhaglen Alacrity o ran y buddsoddi adeg corffori.

***Argymhelliad***

Llywodraeth Cymru i dynnu'n ôl o roi cyllid sbarduno i gwmnïau Alacrity gan gael Banc Datblygu Cymru (BDC) yn lle hynny i arwain ac ysgogi'r buddsoddi cyllid sbarduno hwnnw.

*Cyllid i'r rhaglen*

6.23 Mae rhaglen Alacrity bellach wedi dechrau ar ei 11eg flwyddyn o weithredu gyda Llywodraeth Cymru wedi darparu'r cyllid drwy'r holl amser hwnnw. Mae'r rhaglen

wedi symud ymlaen yn arafach na'r disgwyl; serch hynny mae adborth a thystiolaeth ar berfformiad yn dangos bod y rhaglen yn ennill ei phlwy a'i bod yn mynd ar drywydd arian ychwanegol o sawl ffynhonnell ac (yn aml) yn llwyddo i gael y cyllid hwnnw, yn ogystal â bod nifer y cwmnïau sy'n corffori yn cynyddu. Yn erbyn y cefndir hwn, mae tîm Alacrity yn rhagweld y bydd nifer o gwmnïau portffolio yn cyrraedd pwyntiau ymadael (gwerthu'r cwmni) yn ystod y pum mlynedd nesaf a hynny, yn anecdotaidd (gan nifer o randdeiliaid a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad) yn alinio'r amserlen ar gyfer ymadael â mentrau eraill (ar draws y DU) o natur lled debyg. Ymddengys yn rhesymol felly i ystyried lleihau buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn raddol dros gyfnod tebyg wrth ragweld yr ymadawiadau hyn. Mae lleihau cyllid yn raddol yn rhoi hwb pellach i ddiogelu dulliau ymadael a chael model cyllido bytholwyrdd ar yr un pryd â rhoi eglurder o ran blaenariannu dros nifer o flynyddoedd (a thrwy hynny alluogi Alacrity i gynllunio a chwilio am adnoddau eraill yn ôl yr angen).

***Argymhelliad***

Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithredu model cyllido taprog ar gyfer rhaglen Alacrity dros y pum mlynedd nesaf.

6.24 Er bod mynd ati'n raddol i leihau'r cyllid yn bendant iawn yn fater i'w drafod, eto byddai rhywbeth tebyg i'r hyn a nodir isod yn gydbwysedd rhesymol o ran rhoi digon o amser i ragweld y gostyngiad mewn cyllid ar yr un pryd â rhoi pwyslais clir ar yr angen i sicrhau dulliau ymadael o fewn yr amserlen sydd ar gael. I gymharu, byddai cyfanswm y buddsoddiad dros y cyfnod o bum mlynedd yn cyfateb i 29 y cant o'r buddsoddiad a wnaed dros y cyfnod 2016–21, neu ostyngiad o £2.46m yn y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 6.1: Cynigion cyllido i'r dyfodol**

| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Cyfanswm y buddsoddiad** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithredu'r rhaglen** | £370,000 | £315,000 | £205,000 | £95,000 | £0 | £985,000 |
| **Cyllid sbarduno** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **£370,000** | **£315,000** | **£205,000** | **£95,000** | **£0** | **£985,000** |

## Atodiad 1: Cynlluniau Tebyg

### Cyflwyniad

Mae cynlluniau tebyg yn sylfaen ddefnyddiol ar gyfer meincnodi perfformiad y rhaglen a'i gwerth am arian. Mae papur Sefydliad Alacrity i Lywodraeth Cymru ar gyllid i barhau yn rhoi pwyslais ar natur unigryw'r hyn a gynigir gan y rhaglen. Yn dilyn ymchwil desg mae'r gwerthuswyr yn cytuno â thîm Alacrity o ran nad ymddengys fod fawr ddim i gymharu'r rhaglen ag ef yng Nghymru. Gan edrych y tu hwnt i Gymru i weddill y Deyrnas Unedig, mae cynlluniau tebyg yn amlwg (gan gynnwys dau y cyfeirir atynt ym mhapur Alacrity). Amlinellir y cynlluniau hyn isod.

### Antler

Mae Antler yn disgrifio eu hunain i fod yn gweithio gyda sylfaenwyr o'r camau cynharaf i sicrhau eu bod yn cael effaith fawr ac i gyflymu eu twf trwy eu platfform a'u rhwydwaith buddsoddi.

Maent yn cyfeirio at fod yn "blatfform buddsoddi cyfnod cynnar mwyaf y byd, gan alluogi pobl eithriadol i adeiladu cwmnïau diffiniol yfory".

Mae'r cwmni wedi'i leoli mewn tua 12 o leoliadau ledled y byd, ac yn Llundain y mae Antler wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig. Cynigia raglen dri mis sy'n canolbwyntio ar Ddatblygu Menter er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i gyd-sylfaenydd ac yna i ddatblygu a rhoi theori am ddechrau busnes ar brawf. Ar ddiwedd y cam hwn gall y tîm gyflwyno cais i'r Pwyllgor Buddsoddi. Yna bydd timau llwyddiannus yn mynd i mewn i bortffolio Antler ac yn elwa o'r cam Lansio, lle mae cymorth yn canolbwyntio ar helpu i adeiladu'r cynnyrch cyn mynd ati i chwilio am gyllid.

- Mae'r sylfaenwyr a ddewisir yn cael grant o £4,000 wedi'i dalu mewn dau randaliad yn ystod y cam cyntaf. Pan fydd tîm yn cyflwyno cais llwyddiannus i'r Pwyllgor Buddsoddi, bydd hyn yn arwain at fuddsoddiad o £120,000 am gyfran ecwiti o 10 y cant ym mhob cwmni.
- O ran yr holl gwmnïau y buddsoddir ynddynt, defnyddir £40,000 i dalu ffioedd y rhaglen gyda'r £80,000 sy'n weddill yn y banc ar gyfer dechrau adeiladu sylfeini'r busnes.
- 60,000 o geisiadau hyd yn hyn.
- 2,000 o sylfaenwyr wedi'u dewis.

- 300 o fusnesau newydd wedi'u hariannu.

Yn y rhaglen gyntaf yn Llundain sefydlwyd 13 o gwmnïau o garfan o ychydig dros 70 o gyfranogwyr.

**Entrepreneur First**

Mae Entrepreneur First yn rhedeg carfannau yn Llundain ddwywaith y flwyddyn ac mae rhwng 50-100 o ddarpar sylfaenwyr busnesau yn cymryd rhan. Mae'r dull yn cynnwys y 50-100 o ymgeiswyr llwyddiannus (10 y cant o'r holl geisiadau fel arfer) yn dod at ei gilydd am benwythnos mewn campws neu westy ac yna ceir proses heriau am dri mis ar gyfer profi syniadau a pherthynas weithio â chyd-sylfaenwyr posibl eraill. Ar ôl 3 mis o'r broses hon (yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r cynllun yn talu costau byw o £2000 y mis trwy gyflog), bydd y cyfranogwyr yn cyflwyno'r cwmni/syniad y cwmni i'r pwyllgor buddsoddi gyda'r nod o sicrhau cyllid pellach. Ar y pwynt hwn mae EF yn buddsoddi £80,000 yn gyfnewid am 10 y cant o'r cwmni newydd. Ar ôl 3 mis arall o ddatblygu'r cwmni/syniad y cwmni, mae timau wedyn yn cyflwyno cynnig i gannoedd o fuddsoddwyr.

O ran darpar gyfranogwyr, mae EF yn cefnogi graddedigion diweddar ac/neu'r rheiny sydd ag ychydig flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant – y rhai sy'n credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu cwmni eu hunain ond a fyddai'n fwy llwyddiannus gyda'r cymorth ychwanegol.

**Startupbootcamp**

Mae'r Startupbootcamp ar agor ar gyfer ceisiadau am dri mis (mae'r rhaglen fel arfer yn ymgysylltu ag ymgeiswyr yn ddiweddarach nag Alacrity lle mae tîm craidd a chynnyrch sylfaenol hyfyw [MVP] yn eu lle eisoes). Ar ôl i'r ceisiadau gau, gwahoddir yr ymgeiswyr gorau i sesiwn dewis sy'n para tridiau lle mae'r ymgeiswyr yn cwrdd â'r tîm buddsoddi, mentoriaid a phartneriaid. Daw hyn i ben gyda 8-12 tîm yn cael eu gwahodd i ymuno â'r rhaglen dri mis.

Am dri mis mae'r busnesau newydd a ddewiswyd yn cydweithio â mentoriaid, partneriaid a buddsoddwyr i ehangu eu busnesau. Yn ogystal, mae'r timau yn elwa o €15k i dalu costau byw yn ystod y rhaglen ynghyd â gofod swyddfa am ddim a chytundebau â phartneriaid diwydiant. Daw pob rhaglen i ben gyda Diwrnod Demo, sef digwyddiad undydd sydd â hyd at 1,000 o westeion yn ymuno i gefnogi'r busnesau newydd wrth iddynt barhau i ehangu a thyfu eu busnesau.

### Launchpad

Mae rhaglen Launchpad wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Falmouth ac mae wedi deillio o gynllun peilot cychwynnol o raglen Alacrity. Mae'r model yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid strategol i nodi bylchau sydd angen atebion newydd yn y farchnad, yn enwedig mewn marchnadoedd sy'n cynnig y potensial arloesi mwyaf.

Mae'r rhaglen yn recriwtio cyfranogwyr sydd am y tri mis cyntaf yn ymchwilio ac yn adolygu gwahanol gyfleoedd yn y farchnad ar yr un pryd ag archwilio rolau tîm a chydweithredu. Ar ddiwedd y tri mis mae syniadau'n cael eu cyflwyno i dîm Launchpad ac yna'n cael eu datblygu dros gyfnod o naw mis arall gyda chefnogaeth ddwys gan fentoriaid, arbenigwyr technoleg a phartneriaid strategol gan arwain at ddatblygu prototeip neu gynnyrch sylfaenol hyfyw (MVP).

Ochr yn ochr â datblygiad eu busnes, mae sylfaenwyr hefyd yn gwneud MSc mewn Entrepreneuriaeth. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio gyda'r nod o integreiddio'n ddi-dor â rhaglen Launchpad.

Yn yr ail flwyddyn (y cyfnod deori) lleolir sefydliadau corfforedig yn neorydd Launchpad wrth iddynt gwblhau cynlluniau buddsoddi a pharhau i dderbyn cymorth wedi'i deilwra gan hyfforddwyr a mentoriaid yn Launchpad.

Am gymryd rhan am 12 mis yn y rhaglen mae cyfranogwyr Launchpad yn derbyn cyflog gwerth £16,000.

### Zinc

Disgrifia rhaglen Zinc ei hun i fod yn "cefnogi talent eithriadol i gael atebion masnachol newydd sy'n datrys y materion cymdeithasol mwyaf dybryd". Mae'n rhaglen 12 mis amser llawn sy'n ceisio creu cwmnïau newydd. Arweinir y cwmnïau gan ymgyrch sy'n mynd i'r afael â phroblem gymdeithasol fawr. Mae cyfranogwyr yn ymuno fel unigolion gyda thimau'n cael eu creu yn ystod cam cyntaf y rhaglen ac nid oes angen iddynt fod â syniad busnes ond disgwylir iddynt ddod ag angerdd dros yr ymgyrch.

Yn ystod y 3 mis cyntaf (cyfnod Paru) bydd Sylfaenwyr yn archwilio ac yn arbrofi gyda chyd-sylfaenwyr posibl nes iddynt ddod o hyd i'r bartneriaeth gywir i greu eu busnes tra hefyd yn plymio'n ddwfn i broblem y maent am ei datrys, gan ennill dealltwriaeth a meithrin ymrwymiad i faes ffocws penodol.

Ym misoedd 4 i 6, mae sylfaenwyr yn lansio eu cynnyrch a'u cwmni ac erbyn mis 6 bydd Zinc yn penderfynu pa un o'r cwmnïau newydd sy'n symud ymlaen i'r cam cyflymu.

Yn y cam Cyflymu (misoedd 7 i 10) – ar ôl derbyn buddsoddiad o £75,000 adeg corffori – y nod yw i fenter sefydlu eu hunain i lwyddo yn y cam adnoddau. Yna ym misoedd 10 i 12 mae'r mentrau yn symud ymlaen i ddatblygu datrysiadau, gan weithio ar sicrhau dymunoldeb, dichonoldeb a hyfywedd er mwyn cael y gefnogaeth ariannol sydd ei hangen ar gyfer y 18 mis nesaf.

Yn ariannol, caiff timau eu cefnogi drwy'r camau o ffurfio busnes drwy gael cyflog am y 6 mis cyntaf, ac yna'r buddsoddiad o £75,000 adeg corffori a buddsoddiad pellach o £150,000 pan sicrheir cyllid sbarduno llawn.

Ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen, cymerodd 55 o ddarpar sylfaenwyr ac entrepreneuriaid ran, gan arwain at ffurfio 17 o gwmnïau newydd gyda Zinc yn sicrhau £3m o fuddsoddiad sbarduno cyn dechrau ail garfan y rhaglen.

**Cambridge Future Tech: Venture Builder**

Mae'r rhaglen yn gweithio gyda sylfaenwyr busnesau technoleg newydd sydd yn eu dyddiau cynnar, sydd fel arfer yn dechnolegwyr sydd â'r adnoddau gorau ond sy'n brin o arbenigedd masnachol a gweithredol i nodi'r adnoddau dynol angenrheidiol.

Mae tîm CFT yn partneru â sylfaenwyr o 'Day-Zero' i weithio i droi arloesiadau technoleg yn fusnesau hyfyw gyda'r adnoddau a'r strwythur sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Maent yn helpu sylfaenwyr i ddod yn barod am fuddsoddiad gan eu hyfforddi i wneud cyflwyniadau perthnasol. Byddant yn rhan o'r trafod buddsoddiadau a'r broses diwydrwydd dyladwy.

## Atodiad 2: Holiadur i Raddedigion

**Ydych chi'n hapus i barhau â'r arolwg? Ydw/Nac ydw (os nac ydynt, dewch â'r alwad i ben)**

**Cyflwyniad**

1. Fel cyflwyniad, allech chi gadarnhau ym mha flwyddyn y buoch ar raglen Alacrity? (*Dewislen o 2015 hyd heddiw*)

2. Ydych chi'n gallu cofio sut y daethoch i wybod am y rhaglen?
   - Drwy rywun sydd eisoes wedi bod drwy raglen Alacrity
   - Mewn digwyddiad
   - Yn fy mhrifysgol (cadarnhewch sut – er enghraifft drwy gyflwyniad gan dîm Alacrity)
   - Chwilio ar y we
   - Linked-In
   - Twitter
   - Rhywun yn sôn trwy lwybr arall (ac os felly, gan bwy, ym mha rôl)?
   - Hysbysebu neu farchnata arall (e.e. radio, hysbyseb papur newydd, cylchlythyr e-bost)
   - Digwyddiad (ffair gyrfaoedd, ac ati)
   - Rhywbeth arall

   Cw.2a (os dywedir 'mewn digwyddiad') Gofynnwch ba ddigwyddiad oedd hwn

   ________________________________________________

   Cw.2b (os 'rhywbeth arall') Eglurwch sut y daethoch i wybod am y rhaglen

   __________________________________________

3. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich sefyllfa cyn ymuno â Rhaglen Alacrity?
   - Hunangyflogedig
   - Cyflogedig amser llawn
   - Cyflogedig rhan-amser
   - Di-waith, yn chwilio am waith
   - Di-waith, ddim yn chwilio am waith (gofalwr, absenoldeb mamolaeth/tadolaeth ac ati)
   - Mewn addysg/hyfforddiant amser llawn
   - Mewn addysg/hyfforddiant rhan-amser
   - Rhywbeth arall

*4.* Beth oedd yn apelio atoch / beth wnaeth eich denu yn arbennig at raglen Alacrity?

5. Ydych chi wastad wedi bod eisiau dechrau busnes?

    a) Ydw
    b) Nac ydw

6. Pa bryderon oedd gennych, os oedd gennych rai o gwbl, ynghylch ymgeisio / cael eich recriwtio i'r rhaglen?

7. Cyn ymuno â'r rhaglen, oeddech chi'n byw yng Nghymru?
    - Oeddwn – yn llawn amser
    - Oeddwn – yn astudio/ mewn prifysgol
    - Nac oeddwn
    - Rhywbeth arall

**Rhaglen Alacrity – y cam 'cyn i'r tymor ddechrau'**

Rydym yn deall bod camau cychwynnol rhaglen Alacrity wedi'u hanelu'n bennaf at bŵt-camp a gweithgareddau a fyddai'n helpu i nodi prosiect yr oeddech yn mynd i weithio arno ac i sefydlu'ch tîm.

8. Rhowch sgôr allan o 5 (lle mae 1 yn aflwyddiannus iawn, 5 yn llwyddiannus iawn) am eich barn ynghylch pa mor llwyddiannus oedd y paru unigolion yn dimau yn gynnar yn y rhaglen.
    a) Esboniwch pam roesoch chi'r sgôr hwn

9. Ydych chi'n teimlo bod gan eich tîm y sgiliau angenrheidiol o'r cychwyn cyntaf i ffurfio busnes?
    Dim o gwbl/i ryw raddau/i raddau helaeth

10. Ydych chi'n teimlo bod gan eich tîm y sgiliau angenrheidiol ar ddiwedd y rhaglen i ffurfio busnes?
    Dim o gwbl/i ryw raddau/i raddau helaeth

**Cam creu syniadau**

Rydym yn deall bod cam nesaf rhaglen Alacrity wedi cynnwys y cyfle i ymateb i ddetholiad o heriau drwy gynnal ymchwil ar eu dichonoldeb a'u potensial ac yna eich bod wedi cyflwyno syniad i ymateb i'r her (cyfeirir at y cam hwn yn aml fel y cam creu syniadau).

11. Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y teimlwch fod archwilio'r heriau wedi bod yn ddefnyddiol i chi?

12. Beth, os o gwbl, y gellid ei wella am y cam creu syniadau?

**Dylunio, Adeiladu a Thyfu**

Yn dilyn y cam creu syniadau, newidiodd pwyslais y rhaglen gymorth i fod ar ddatblygu'r syniad a ddewiswyd gan eich tîm. Drwy gydol y 9 i 11 mis canlynol mae'n debygol y byddech wedi cael amrywiaeth o gymorth gan wahanol bobl i'ch helpu gyda'ch syniad busnes.

13. Wrth feddwl am y cyfnod hwnnw, pa elfennau penodol o'r cymorth oedd fwyaf defnyddiol i chi? Wrth ystyried eich ymateb a fyddech cystal ag adfyfyrio ar wahanol elfennau'r gefnogaeth (yr hyn a gynigir gan y tîm mewnol, cefnogaeth a gynigir gan fentoriaid a chynrychiolwyr y partneriaid strategol)

14. Pa elfennau oedd leiaf defnyddiol yn eich barn chi neu feysydd lle gellid gwella'r cynnig?

**Cyflog**

15. Trwy gydol eich amser ar raglen Alacrity fe wnaethoch dderbyn cyflog ariannol, pa mor bwysig oedd hyn i chi wrth ystyried ymuno â'r rhaglen (pwysig iawn/gweddol bwysig/mymryn/ddim o gwbl)

16. Pa mor bwysig oedd y cyflog tra oeddech ar y rhaglen (pwysig iawn/gweddol bwysig/mymryn/ddim o gwbl)?
    a) Pam ydych chi'n dweud hyn?

**Taith y cyfranogwr a'r effaith**

17. I ba raddau ydych chi'n teimlo eich bod wedi datblygu'r sgiliau canlynol trwy gymryd rhan yn y rhaglen?

| Sgiliau/Arbenigedd | Dim o gwbl | I ryw raddau | I raddau helaeth |
|---|---|---|---|
| Sgiliau a gwybodaeth ynghylch dechrau busnes | | | |
| Gwybodaeth a sgiliau busnes cyffredinol ynghylch rhedeg cwmni | | | |
| Sgiliau penodol am ymchwilio a datblygu cynnyrch a dichonoldeb y farchnad | | | |
| Sgiliau cyflwyno a hyrwyddo/gwerthu ar gyfer cyflwyno eich cynnyrch a denu buddsoddiad | | | |
| Sgiliau rheoli ariannol i helpu i redeg a chynnal eich cwmni | | | |
| Sgiliau rheoli, ynghylch recriwtio a rheoli cyflogeion | | | |

18. Pa sgiliau eraill, os o gwbl, ydych chi wedi'u datblygu o ganlyniad i gymryd rhan yn rhaglen Alacrity?

19. A oes unrhyw sgiliau y teimlwch yr oeddech am eu datblygu cyn cymryd rhan yn Alacrity, ond na chawsoch y cyfle i wneud hynny? Beth oedd y rhain?

**Y Gymraeg**

20. Ydych chi'n siarad Cymraeg?
    a) Ydw – rhugl
    b) Ydw – sylfaenol
    c) Nac ydw

21. A oedd unrhyw ran o'r gefnogaeth wedi'i gynnal
    a) (os atebwyd a neu b i'r uchod) yn Gymraeg?
    b) (gofyn i bawb) yn ddwyieithog?

22. A fyddai'n well gennych petai'r gefnogaeth wedi'i chynnal yn…?
    - Gymraeg
    - Dwyieithog
    - Roeddwn yn hapus â Saesneg yn unig

**Effaith COVID-19 (gofynnwch i garfannau 2019/20, 2020/21, 2021/22 yn unig)**

23. Pa effaith (os o gwbl) y mae pandemig COVID-19 wedi'i gael ar y canlynol:
    a) Ar y gefnogaeth a gawsoch drwy raglen Alacrity
    b) Ar ddatblygiad a chynnydd eich busnes?

**Sefyllfa ar hyn o bryd**

24. Allwch chi gadarnhau ym mha wlad ydych chi wedi'ch lleoli ynddi ar hyn o bryd?
    - Cymru
    - Lloegr
    - Yr Alban
    - Gogledd Iwerddon
    - Rhywle arall (manylwch_______________)

25. Beth yw eich sefyllfa ar hyn o bryd?
   a) Yn dal ar raglen Alacrity (**Cw.42**)
   b) Wedi fy nghyflogi yn y busnes a gorfforwyd gennyf trwy raglen Alacrity (**Cw.27**)
   c) Wedi fy nghyflogi mewn busnes a gorfforwyd drwy Alacrity ond nid busnes a gorfforwyd drwy fy nhîm i **(Cw.26)**
   d) Wedi fy nghyflogi mewn busnes nad yw'n gysylltiedig ag Alacrity (**Cw.34**)35
   e) Yn hunangyflogedig (**Cw.34)35**
   f) Yn ddi-waith, yn chwilio am waith **(Cw.34)** Cw.39
   g) Yn ddi-waith, ddim yn chwlio am waith (gofalwr, cyfnod mamolaeth/tadolaeth ac ati) **(Cw.38)** Cw.39?
   h) Mewn addysg/hyfforddiant llawn amser **(Cw.40)** 41
   i) Mewn addysg/hyfforddiant rhan amser **(Cw.40)41**
   j) Rhywbeth arall / dim un o'r uchod (disgrifiwch beth rydych yn ei wneud nawr____________ - yna ewch i **Cw.43**

Os yw Cw.25 yn hafal i = c, d,e,f,g,h,i

Cw.25a A wnaethoch chi gorffori busnes drwy raglen Alacrity?

Do
Naddo

Cw.25a.i. Pam nad ydych chi bellach yn ymwneud â'r busnes hwn?
*Holwch – a yw'r busnes yn dal yn gweithredu / pryd wnaeth e gau a pham*

25b a wnaethoch chi gwblhau rhaglen Alacrity?
Do
Naddo

Cw.25bi Ar ba bwynt yn rhaglen Alacrity wnaethoch chi adael? *(Cadarnhewch a oedd hynny cyn/ar ôl corffori busnes ac amcangyfrif nifer y misoedd gyda'r rhaglen*)

Cw.25bii Beth oedd eich rhesymau dros adael y rhaglen?
*(Sylwch y gallai rhai o'r ymatebwyr fod wedi cael eu dewis i adael tra bod eraill wedi penderfynu gadael eu hunain, bydd yn bwysig gwahaniaethu rhwng hyn yn eu hymateb)*

26. (Os atebwyd 25c) Pa mor hir ar ôl i'r busnes gael ei gorffori wnaethoch chi ymuno â'r busnes hwnnw? (Blynyddoedd a misoedd) **nawr Cwestiwn 28**

27. (Os atebwyd 25b) <holwch a gawson nhw gyllid sbarduno> - pa rôl a chwaraeodd y cyllid sbarduno yn natblygiad eich busnes?
   a) Yn eich barn chi, beth fyddai'r goblygiadau i'ch busnes pe na bai wedi derbyn cyllid sbarduno?

28. Ar ôl corffori, ymhle wnaethoch chi leoli eich busnes? (lleoliad ac enw'r cyfleuster)
    a) Pa fanteision gawsoch chi o leoli eich busnes yn y fan honno?
    b) Ydych chi'n dal yn y lleoliad hwnnw? (ydw/nac ydw)
    c) (Os nac ydych) I ble ydych chi wedi symud y busnes ac am ba resymau y gwnaethoch chi adleoli?
    d) Pa mor bell yn ôl wnaethoch chi symud? (blynyddoedd/misoedd)

29. Pa brif heriau ydych chi ac/neu eu busnes wedi'u cael ers corffori'r busnes?

30. Pa gefnogaeth ydych chi wedi'i gael drwy raglen Alacrity ers corffori'r busnes?

    a) Wrth feddwl am y cymorth hwn, pa elfennau ydych chi'n teimlo sydd wedi bod fwyaf defnyddiol i'r busnes?
    b) A allai'r gefnogaeth yr ydych wedi'i derbyn ers corffori'r busnes gael ei gwella o gwbl?

31. Pa sefydliadau (os o gwbl) yw'r prif gwsmeriaid ar gyfer cynhyrchion/gwasanaethau eich busnes? - rhestr o sefydliadau
    a) Pa rôl (os o gwbl) a gafodd tîm rhaglen Alacrity wrth gael gafael ar y cwsmeriaid hyn?

32. Faint o bobl mae eich busnes yn eu cyflogi ar hyn o bryd? Llawn amser_____, Rhan-amser_____

33. Pa dargedau sydd gennych i'ch busnes yn y flwyddyn ariannol gyfredol mewn perthynas â'r canlynol?
    a) Gwerthiannau (nodwch sut y mae hyn yn cymharu â llynedd)
    b) Cyflogaeth?

**Nawr ewch i Cw.43**

34. – Beth yw teitl/rôl eich swydd bresennol?
    a) Pa mor hir ydych chi wedi bod yn y swydd honno?
    b) Ydych chi wedi cael eich cyflogi mewn swyddi eraill ers i chi adael Alacrity? (Os do, beth oeddynt)

35. I ba raddau ydych chi'n ystyried bod y gefnogaeth a'r profiad a gawsoch drwy Alacrity wedi dylanwadu ar eich cynnydd yn eich gyrfa/cael y swydd? I raddau helaeth/rhywfaint/dim o gwbl
    a) Pam ydych chi'n dweud hyn?

36. Un elfen yr ydym yn ei defnyddio i asesu effaith Alacrity ar y rhai a gymerodd ran yw cymharu teithiau gyrfa’r rheiny sydd wedi bod ar y rhaglen gydag unigolion nad ydynt wedi cymryd rhan. Y metrig a ddefnyddir amlaf yw cyflog blynyddol unigolyn. I’ch atgoffa, mae’r wybodaeth hon yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rhannu ag unrhyw un, a fyddech chi’n fodlon dweud wrthyf beth yw eich cyflog blynyddol?
    a) (os yn gwrthod) Ym mha un o’r bandiau canlynol y mae eich cyflog (bandiau hyd at £150k)

**Nawr ewch i Cw.43**

37. (os atebwyd 25 f/g) Ar ba bwynt yn rhaglen Alacrity wnaethoch chi adael? *(Cadarnhewch a oedd hynny cyn/ar ôl corffori busnes ac amcangyfrif nifer y misoedd gyda’r rhaglen*)
    a) Beth oedd eich rhesymau dros adael y rhaglen?

38. (os atebwyd 25= f/g yn unig) Pa mor hir ydych chi wedi bod yn ddi-waith?

**Nawr ewch i Cw.43**

39. Pa gwrs ydych chi’n ei wneud
    a) Beth yw enw’r coleg/prifysgol yr ydych yn gwneud yr addysg/hyfforddiant ynddi?

**Gorffen (gofyn i bawb)**

40. Wrth feddwl am bopeth rydyn ni wedi’i drafod a’ch profiad o Alacrity, a oes unrhyw beth y gellid ei wella o gwbl am strwythur neu natur y cymorth a gawsoch?

41. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am eich profiad o’r prosiect?

**Diolch i chi am eich amser**

## Atodiad 3: Fframwaith y Gwerthusiad

| | | Dangosyddion a ddefnyddiwyd | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn i'r gwerthusiad** | **Meini prawf** | **Meintiol (Allbynnau a chanlyniadau)** | **Ffynonellau ansoddol** |
| **Y broses** | | | |
| • Sut mae Alacrity yn cyrraedd unigolion ac yn eu denu i'r rhaglen?<br>• O ble daw'r ceisiadau i'r rhaglen?<br>• Ai graddedigion diweddar yw'r garfan fwyaf addas i gael cyfranogwyr ohoni?<br>• A yw gradd israddedig yn rhagofyniad angenrheidiol ar gyfer y rhaglen? | • Sut daeth y cyfranogwyr i wybod am y rhaglen?<br>• Pam oedd unigolion wedi gwneud cais i raglen Alacrity?<br>• Pa rôl/dylanwad sydd gan y cyflog wrth ddylanwadu ar gymryd rhan?<br>• O ba brifysgolion, o ba gyrsiau y mae'r graddedigion?<br>• Faint o geisiadau sy'n dod i law nad ydynt yn cael eu derbyn? A oes llawer o gystadleuaeth am le ar y rhaglen?<br>• A oes amser aros rhwng gwneud cais a dechrau ar y rhaglen? | • Dadansoddiad desg i bennu:<br>  ○ Nifer y ceisiadau bob blwyddyn<br>  ○ Ceisiadau gan raddedigion prifysgol<br>  ○ Cofrestriadau fesul prifysgol<br>• Adolygiad desg o gynlluniau tebyg | • Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect (recriwtio)<br>• Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity |
| • Beth yw demograffeg y graddedigion/cyflogeion y rhaglen/cwmnïau? | • Ethnigrwydd, rhyw, anabledd | • Dadansoddiad desg o ddata'r wybodaeth reoli ac adroddiadau'r Bwrdd | |
| • Materion yn ymwneud â'r Gymraeg | • Pa mor gyffredin yw'r defnydd o'r Gymraeg?<br>  ○ Ymysg cyfranogwyr<br>  ○ Wrth gynnal y rhaglen<br>• Sut y caiff y defnydd ar y Gymraeg ei nodi?<br>• Ym mha ffyrdd (os o gwbl) yr archwilir yr awydd i gymryd rhan yn y rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg?<br>  ○ Faint o alw sydd am hyn?<br>  ○ Os oes galw, sut yr eir i'r afael â hyn? | • Dadansoddiad desg o adroddiadau'r Bwrdd / gwybodaeth reoli am y Gymraeg | • Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect<br>• Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity |
| • Dulliau recriwtio arbenigedd/partïon â buddiant | • Sut mae Alacrity yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, mentoriaid a phartneriaid? | • Nifer y cwmnïau, partneriaid strategol a | • Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |

| | | Dangosyddion a ddefnyddiwyd | |
|---|---|---|---|
| **Cwestiwn i'r gwerthusiad** | **Meini prawf** | **Meintiol (Allbynnau a chanlyniadau)** | **Ffynonellau ansoddol** |
| | • Pa mor effeithiol yw'r ymgysylltu â chwmnïau allanol ac eraill perthnasol, a'r meithrin perthynas â nhw? | mentoriaid sy'n rhan o Alacrity<br>• Nifer y datganiadau problemau hyfyw | |
| • A yw'r cyngor a'r arweiniad a roddir wrth wneud y rhaglen yn gyson ac yn gywir? | • A yw'r gwasanaethau Ymchwil a Datblygu a roddir gan fentoriaid wedi'u hadolygu o ran ansawdd a pha mor berthnasol ydynt?<br>• Sut mae trefnwyr y rhaglen yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf i adeiladu'r cwmnïau technoleg newydd? | | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity<br>• Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |
| • Pa heriau a gafwyd wrth gynnal y rhaglen gan y trefnwyr, yr unigolion ar y rhaglen, a sut maent wedi'u goresgyn? | • Lleoliadau<br>• Technoleg<br>• Adnoddau/gallu i gyflawni<br>• Covid-19? | | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity<br>• Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |
| • Gwerth ychwanegol ac effaith partneriaid prosiect strategol ar raglen Alacrity | • Sut mae trefnwyr y rhaglen yn ymgysylltu â chyflogwyr? (Partneriaid prosiect strategol)<br>• Sut mae'r graddedigion ar y rhaglen yn ymgysylltu â chyflogwyr? | • Nifer y cwmnïau, partneriaid strategol a mentoriaid sy'n rhan o Alacrity<br>• Amcangyfrif o nifer yr oriau a gyfrannwyd i raglen Alacrity<br>• Gwerth cyfraniadau mewn nwyddau / gwasanaethau | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity<br>• Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |

| **Effaith** | | | |
|---|---|---|---|
| • Beth yw cost cynnal y rhaglen? | • Pa fewnbynnau sydd i'r rhaglen o ran cyllid a ffynonellau cyllid? | • Adolygiad desg o ddata ariannol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Pa mor effeithiol yw'r rhaglen?<br>• A yw 15 mis yn gyfnod priodol ar gyfer rhaglen o'r hyd hwn? | • Cyfraddau cyfranogwyr yn gadael<br>• Sut y pennir bod unigolion yn 'graddio' o'r rhaglen<br>• Cyrchfannau graddedigion a chynnydd ar ôl y rhaglen?<br>• Pa addasiadau i ddarpariaeth y rhaglen (gan gynnwys ei hyd) fyddai'n gwella'r cynnig? | • Adolygiad desg o wybodaeth reoli<br>• Nifer y cyfranogwyr sy'n parhau i gael eu cyflogi/ yn meddu ar gyfranddaliadau mewn busnes Alacrity | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity<br>• Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |
| • Beth sy'n digwydd i raddedigion y rhaglen ar ôl 15 mis? | • Faint sy'n aros gyda'r cwmnïau alumni a sefydlwyd? Am ba mor hir maen nhw'n aros? Pam?<br>• Os nad ydyn nhw'n aros gyda'r cwmnïau corfforedig, pam maent yn gadael?<br>• A yw'r sgiliau a enillwyd trwy'r rhaglen wedi cael eu defnyddio ar ôl gadael y rhaglen?<br>• A oedd yna elfennau o'r rhaglen sydd wedi bod yn fwy defnyddiol nag eraill ers cwblhau'r rhaglen? | • Rolau'r graddedigion<br>• Cyflogau graddedigion mewn perthynas â graddedigion MSc Cyfrifiadureg (os ydynt ar gael) | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity |
| • Sawl cwmni sydd wedi'i sefydlu yn rhan o sefydliad Alacrity ers 2015? | • Canlyniad targed – creu 10 BBaCh newydd yng Nghymru, a yw hyn wedi'i gyflawni?<br>• Pa rôl/gwerth ychwanegol y mae cyllid sbarduno yn ei roi i gwmnïau wedi'u corffori? | • Adolygiad desg o wybodaeth reoli | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity |
| • Beth sydd wedi digwydd i'r cwmnïau a sefydlwyd ers 2015? | • A ydynt wedi cael eu gwerthu? I bwy? Am faint? A ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru neu rywle arall?<br>• A yw'r cwmnïau wedi'u diddymu? | • Adolygiad desg o wybodaeth reoli yn archwilio:<br>  ◦ Cyflogaeth (a chyflogau), gwerthiannau, trosiant, buddsoddiad a gafwyd | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity<br>• Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |

| **Effaith** |
|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| • I ba raddau y mae rhaglen Alacrity yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru | • Sut mae'r rhaglen a'r cwmnïau sy'n tyfu ohoni yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac, yn fwy penodol, â'r meysydd gweithredu?<br>• Sut mae'r rhaglen a'r cwmnïau sy'n tyfu allan ohoni yn cyfrannu at yr Economi Sylfaenol | | • Adolygiad desg |
| • Beth yw'r adenillion ar y buddsoddiad? | • i gwmnïau<br>• i raddedigion – sgiliau, cyflogau,<br>• i economi Cymru<br>• i gwmnïau y mae'r busnesau technoleg newydd wedi'u sefydlu i'w cefnogi? | • Adolygiad desg o wybodaeth reoli yn archwilio:<br>  • GVA ar gyfer cwmnïau corfforedig, rhagolygon twf, llwybrau gyrfa graddedigion ac ati | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity |
| • A yw'r rhaglen wedi bod yn gost-effeithiol (o'i chymharu â dewisiadau eraill ac o gymharu â gwneud dim byd)? | • Cost fesul uned (canlyniad, cyfranogwr, etc.)<br>• Beth oedd costau cynnal y rhaglen?<br>• A yw'r ymyriad wedi bod yn gost-effeithiol (o'i chymharu â dewisiadau eraill ac o gymharu â gwneud dim byd)?<br>• Beth yw'r opsiwn mwyaf cost-effeithiol? | • Adolygiad desg o wybodaeth reoli mewn perthynas â chost fesul cyfranogwr, cwmni corfforedig, swydd a grëwyd<br>• Adolygu perfformiad cynlluniau tebyg | • Gwaith maes gyda chyfranogwyr Alacrity<br>• Cyfweliadau manwl gyda thîm y prosiect |